

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| | |
|---|---|
| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD IAU, 7 RHAGFYR 2023 am 10:00 y. b. | THURSDAY, 7 DECEMBER, 2023 at 10:00 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer |

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Euryrn Morris (*Diprwy Gadeirydd*), Margaret M. Roberts

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Ieuan Williams

LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR

Keith Roberts

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

Liz Wood

AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS

Dilwyn Evans (*Cadeirydd*), William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Medi 2023.

3 ADRODDIAD SICRWYDD LLYWODRAETHIANT GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION YNYS MÔN 2022/23 (Tudalennau 13 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

4 DATGANIAD O'R CYFRIFON 2022/23 AC ADRODDIAD ISA 260 (Tudalennau 43 - 74)

Cyflwyno'r canlynol –

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 – Datganiad o'r Cyfrifon 2022/23.
- Adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid – Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23
- Adroddiad Archwilio Allanol ynghylch yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2022/23 (Adroddiad ISA 260)

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2022/23 (Tudalennau 75 - 90)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

6 ADRODDIAD AR DDEILLIANNAU MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2022-23 (Tudalennau 91 - 104)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

7 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL (Tudalennau 105 - 112)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISG STRATEGOL (Tudalennau 113 - 130)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

9 ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU - DIWEDDARIAD CHWARTEROL (Tudalennau 131 - 148)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddus yr Awdurdod

10 **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH 2023/24** (Tudalennau 149 - 156)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 21 Medi, 2023

| | |
|--------------------------------|---|
| YN BRESENNOL: | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) Y Cynghorydd Euryrn Morris (Dirprwy Gadeirydd) Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones, Keith Roberts, Liz Wood. Aelodau Lleyg: William Parry, Michael Wilson |
| WRTH LAW: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitemau 3 a 4) Pennaeth Archwilio a Risg Mewnol (AS) Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 5) Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 3) Rheolwr Hamdden (ar gyfer eitem 3) Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol (ar gyfer eitemau 3 a 4) Prif Archwilydd (NW) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| YMDDIHEURIADAU: | Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Margaret Roberts, Ieuan Williams, Llinos Medi (Arweinydd), Carys Edwards (Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid) |
| HEFYD YN BRESENNOL: | Y Cynghorwyr Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid), Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Euros Lake (Archwilio Cymru), Elizabeth Humphrey (CIPFA), Bethan H. Owen, (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifyddu, Bryn Owen (Uwch Archwilydd Mewnol) |

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i Elizabeth Humphrey o CIPFA a oedd yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel asesydd annibynnol o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, MBE a Mrs Sharon Warnes, Aelod Lleyg a oedd yn absennol oherwydd salwch ac ar ran y Pwyllgor dymunodd wellhad buan i'r ddau ohonynt.

1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf, 2023 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

Yn dilyn o hynny - holodd y Cadeirydd a fu unrhyw adborth ar yr awgrym a wnaed yn y cyfarfod diwethaf i sefydlu swyddfa rheoli rhaglenni bwrpasol i oruchwylio'r gwaith o gyflawni prosiectau cyfalaf y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai'n holi'r Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad p'un ai oedd yr awgrym wedi'i gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac y byddai'n diweddarau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

3. ADRODDIAD PRYDERON, CWCYNIION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro oedd yn nodi materion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ynghyd â nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a wnaed o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2022 a 31 Mawrth, 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai lle nad oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar wahân o dan Bolisi Gwasanaethau Cymdeithasol – Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r ffordd yr ymdriniwyd â chwynion a phryderon gan wasanaethau'r Cyngor o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion ffurfiol yn ystod 2022/23. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â nifer y pryderon a'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, dadansoddiad o bryderon a chwynion fesul gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau sydd â'r nifer uchaf o bryderon a chwynion a sut y cyfrifwyd y rheini, pa mor brydlon y gwnaeth gwasanaethau ymateb i gwynion, cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'u canlyniad, a'r gwersi a ddysgwyd o'r pryderon a'r cwynion a dderbyniwyd a sut mae'r rheini'n cyfrannu at well arferion a boddhad cwsmeriaid.

Aeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro â'r Pwyllgor drwy brif adrannau'r adroddiad a thynnodd sylw at y prif negeseuon o'r data a gasglwyd. Yn gyffredinol, gellir dod i'r casgliad nad yw cwynion ynghylch Aelodau Etholedig, y Gymraeg (o fewn y Polisi Pryderon a Chwynion) a Chwythu'r Chwiban yn destun pryder ac nad oes angen camau gweithredu penodol pellach. Mae nifer y pryderon a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod wedi cynyddu o 189 yn 2021/22 i 321 yn 2022/23 y gellir eu priodoli'n rhannol i lefel adrodd ormodol gan y Gwasanaeth Tai yn ystod chwe mis cyntaf 2022/23 a oedd yn cynnwys ceisiadau o ddydd i ddydd yn ogystal â phryderon fel y'u diffinnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Pe bai'r data wedi'i adrodd yn gywir, amcangyfrifir y byddai cynnydd o 189 i 236 yn ffigwr cywirach. Mae nifer y cwynion wedi gostwng o 54 yn 2021/22 i 40 yn 2022/23 gyda'r nifer uchaf o gwynion yn yr adran Adnoddau (11) a Thai (10). Ni ymchwiliwyd i unrhyw gwynion gan OGCC yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r amser ar gyfer ymateb i gwynion yn parhau i fod yn broblem gyda pherfformiad wedi gostwng 5.2% o'i gymharu â hynny yn 2021/22. Mae'r wybodaeth a gesglir ar gyfer cwynion a phryderon hefyd yn dangos patrwm o wendidau o ran gofal cwsmeriaid / gwasanaeth cwsmeriaid yn enwedig cyfathrebu parhaus ynglŷn ag amserlenni ac oedi.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a nodwyd y pwyntiau canlynol –

- Dim ond 74.4% o gwynion a atebwyd o fewn y cyfnod gofynnol yn 2022/23 a bod llawer o'r pryderon/cwynion a dderbyniwyd yn nodi bod cyfathrebu wedi bod yn broblem ac y

gallai cyfathrebu gwell fod wedi atal pryder rhag cael ei godi. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod gwersi'n cael eu dysgu a bod y dysgu'n cael ei rannu rhag bod pryderon tebyg yn codi yn y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod argymhelliad rhif tri o'r adroddiad yn mynd i'r afael yn rhannol â gwella gwasanaeth cwsmeriaid. Mae'r wybodaeth a gesglir bellach yn llawer mwy manwl ac mae gwasanaethau'n cael eu herio ynghylch y rhesymau dros gwynion a'r camau sy'n cael eu cymryd i ddatrys y materion sy'n codi. Mae dadansoddiad wedi dangos bod gwasanaeth cwsmeriaid yn thema amlwg yn y cwynion a'r pryderon a godir. Felly bwriedir cynnal hyfforddiant ar wasanaeth cwsmeriaid ar draws y sefydliad gan ganolbwyntio i ddechrau ar y gwasanaethau hynny gyda'r nifer fwyaf o gwynion/pryderon/ymatebion hwyr ac yna ymestyn yr hyfforddiant i'r holl staff sy'n wynebu'r cyhoedd.

- Cynnydd yn nifer y pryderon a godwyd yn erbyn y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaeth Hamdden.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaeth Tai, ar ôl gweithredu trefn adborth newydd, bod lefel ormodol o adrodd yng ngham cychwynnol y broses weithredu gan fod staff wedi cynnwys ceisiadau gwasanaeth o ddydd i ddydd yn ogystal â phryderon fel y'u diffinnir gan OGCC. Arweiniodd hynny at gynnydd sylweddol yn nifer y pryderon a gofnodwyd. Heb gynnwys y pryderon hynny a gam-gofnodwyd, amcangyfrifir y byddai nifer y pryderon wedi bod yn 95, cynnydd o 42 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Pryder cyffredin oedd y diffyg cyfathrebu, yn enwedig i roi gwybod i denantiaid am oedi o ran gwneud gwaith ar eiddo neu bod gwaith heb ei ddechrau. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio gwella'r broses gyfathrebu gyda thenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau. O ran pryderon a fynegwyd am yr amser a gymerir i wneud gwaith trwsio a chynnal a chadw i eiddo, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn wynebu problemau oherwydd prinder deunyddiau a diffyg crefftwy'r medrus ar gael ac mae hynny wedi arwain at oedi cyn dechrau ar waith.

Wrth sôn am y cynnydd yn nifer y pryderon a gofnodwyd yn erbyn y Gwasanaeth Hamdden yn 2022/23, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ei bod yn bwysig gosod y 48 o bryderon a dderbyniwyd yng nghyd-destun 7,000 o aelodau'r gwasanaeth. Mae llawer o'r pryderon a fynegwyd yn ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid a allai fod yn adlewyrchiad o ddiffyg profiad staff newydd sy'n cael hyfforddiant ar hyn o bryd a'u bod yn anghyfarwydd â safon y gwasanaeth cwsmeriaid a ddisgwyllir. Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaeth Hamdden at gamau cywiro a oedd yn cael eu cymryd o ran defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r dysgu sy'n ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid yn enwedig yng nghanolfannau hamdden Amlwch a Chaergybi a hefyd mewn ymateb i bryderon penodol ynghylch ansawdd gwersi nofio a lefelau glendid.

- Gallai'r cynnydd yn nifer y pryderon a nifer yr un pryderon a ail-godir o natur debyg ddangos nad yw gwersi'n cael eu cynnwys yn ddigonol o fewn gwasanaethau ac nad yw'r materion a achosodd y pryderon hynny wedi cael sylw llawn.

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fel y gwasanaeth gyda'r nifer uchaf o bryderon a ail-godir drwy ddweud, er bod nifer y pryderon a gofnodir ar gyfer y gwasanaeth wedi cynyddu, rhaid ei ystyried yng nghyd-destun nifer y tenantiaid y mae Gwasanaethau Tai yn darparu ar eu cyfer. Mae'r ffocws ar wella cyfathrebu â thenantiaid fel y prif fater, gan gynnwys drwy gyfathrebu'n uniongyrchol yn hytrach nag yn anuniongyrchol drwy'r tîm gofal cwsmeriaid.

- Y cyfrwng a ddefnyddir ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys cyfryngau digidol a chymdeithasol.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaeth Tai bod sawl cyfrwng yn cael eu defnyddio i roi gwybodaeth i denantiaid, gan gynnwys cylchlythyr tenantiaid a phorth pwrpasol yn ogystal â thudalen Facebook Tai Môn, a thrwy ddulliau mwy arferol, drwy e-bost a dros y ffôn ar gyfer cyfathrebu un i un.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wybod i'r Pwyllgor am bwysigrwydd ystyried y cynnydd yn nifer y ceisiadau, ymholiadau a gofynion y mae gwasanaethau yn ymdrin â nhw yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw, yn enwedig felly'r gwasanaethau a'r timau hynny sy'n wynebu cwsmeriaid sy'n anochel yn arwain at dderbyn mwy o gwynion.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â phroses gwynion y Cyngor ynglŷn â'r Gymraeg (o dan y Polisi Pryderon a Chwynion), cwynion mewn perthynas ag Aelodau etholedig a'r Polisi/Canllaw Chwythu'r Chwiban.**
- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n fodlon bod yr adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd rhesymol bod gan y Cyngor brosesau priodol ar waith o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a bod gwasanaethau'r Cyngor yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r disgwyliadau a nodir yn y polisi hwnnw.**
- **Gofynnir i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor adolygu'r hyfforddiant Gwasanaeth Cwsmeriaid a ddarperir i staff sy'n wynebu'r cyhoedd, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â'r nifer uchaf o bryderon/cwynion/ymatebion hwyr a sicrhau bod unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw'n cael eu gweithredu. Cynhelir yr adolygiad hwn yng nghyd-destun y Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid diwygiedig a'r Polisi Pryderon a Chwynion diwygiedig.**

4. LLYTHYR BLYNYDDOL GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Ers 2006, mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith a wnaed gan ei swyddfa dros y deuddeng mis diwethaf. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad ar gyfer pob cyngor gyda'r llythyr blynyddol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r adroddiad gan gadarnhau bod y Llythyr Blynyddol yn ymwneud yn unig â chwynion gwasanaeth yn erbyn y Cyngor a gyflwynwyd i OGCC yn ystod 2022/23. Mae'r Llythyr hefyd yn cynnwys adran ar gwynion a wnaed o dan y Cod Ymddygiad i Aelodau. Mae'r negeseuon allweddol yn dangos bod 25 o gwynion gwasanaeth wedi eu cyflwyno i OGCC yn y flwyddyn, 29 cwyn yn llai na'r flwyddyn flaenorol. O'r rheini, nid oedd angen i Swyddfa OGCC ymchwilio i 20 ohonynt a deliwyd â 5 o'r cwynion trwy ddatrysiaid cynnar. Gwnaed un gŵyn Cod Ymddygiad yn erbyn aelod o'r Cyngor Sir ond ni ymchwiliwyd iddi a gwnaed un gŵyn yn erbyn Cynghorydd Tref / Cymuned yn ystod 2022/23, ond daeth yr ymchwiliad i ben. Fel cyngor, mae perfformiad Ynys Môn yn cymharu'n foddhaol â chynghorau eraill yng Nghymru o ran cwynion ac mae'n parhau'n gyson fel y dangosir yn y tabl yn Atodiad A i'r Llythyr.

Yn ogystal â gofyn i'r Llythyr gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith a bod canlyniad y ddau'n cael ei rannu â Swyddfa OGCC, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn i'r Cyngor barhau i ymgysylltu â gwaith safonau cwynion ei Swyddfa, cael mynediad at hyfforddiant i staff y Cyngor, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod y camau hynny yn y broses o gael eu gweithredu fel y manylir yn yr adroddiad.

Nododd y Pwyllgor, er bod nifer y cwynion yn gymharol isel, bod 24% o'r cwynion hynny'n ymwneud â'r modd y deliodd y Cyngor â'r cwynion, a gofynnodd am esboniad ar gyfer hyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, er mwyn mynd i'r afael â materion gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn delio â chwynion a'r broses delio â chwynion ei hun, cynigir datblygu strategaeth hyfforddi ac asesu anghenion hyfforddi staff ac Aelodau Etholedig fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Gall y materion sy'n ymwneud â delio â chwynion ddeillio o ymateb hwyr, ymateb annigonol, diffyg mynd i'r afael â phob agwedd ar gŵyn a/neu fethiant i ddeall cwyn yn llawn. Gan hynny cynigir y rhaglen hyfforddiant a argymhellir.

Penderfynwyd –

- **Nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2022/23.**
- **Cefnogi'r dasg o weithredu Polisi Enghreifftiol OGCC.**
- **Cefnogi'r dasg o ddatblygu strategaeth hyfforddi.**
- **Cefnogi'r dasg o ddatblygu asesiad anghenion hyfforddi a chyflwyno hyfforddiant addas yn ôl yr angen.**
- **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol a chytuno i weithredu elfennau y cyfeirir atynt yn ei Llythyr Blynyddol.**
- **Rhoi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.**

5. ARCHWILIO ALLANOL: ADOLYGIAD O REOLI DATBLYGU A GORFODAETH CYNLLUNIO – CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd y dogfennau canlynol i'w hystyried gan y Pwyllgor -

- Cafodd adroddiad Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru ei gyflwyno er gwybodaeth. Roedd yr adolygiad cenedlaethol yn edrych ar bob agwedd ar awdurdodau cynllunio lleol ac yn asesu cynnydd o ran gweithredu Deddf Cynllunio (Cymru) 2014. Hefyd roedd yn darparu cyd-destun i'r adroddiad adolygu lleol isod.
- Adroddiad Archwilio Cymru ar ei adolygiad o Reoli Datblygu a Gorfodaeth Cynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn.
- Ymateb y sefydliad i argymhellion adroddiad yr adolygiad gan Archwilio Cymru.

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru gan Mr Euros Lake, a ddywedodd fod yr adroddiad cenedlaethol yn tynnu sylw at rai o'r heriau sy'n wynebu awdurdodau cynllunio lleol o ran nad yw'r capasiti'n ymestyn yn ddigon pell a bod llai o adnoddau a bod hynny'n cael effaith ar berfformiad a gwydnwch a bod y themâu hyn yn cael eu hailadrodd ar lefel lleol. Roedd yr adolygiad o'r gwasanaeth rheoli datblygu a chynllunio yn Ynys Môn yn ceisio asesu sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau hyn o fewn y gwasanaeth ac a oes ganddo wasanaeth rheoli datblygu a gorfodaeth cynllunio effeithiol a gwydn. Yn gyffredinol, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Cyngor wedi cryfhau capasiti a diwylliant ei wasanaeth cynllunio ond bod angen mwy o wydnwch i oresgyn ansicrwydd yn y dyfodol. Canfu'r adolygiad fod –

- Gan y Cyngor drefniadau corfforaethol wedi'u hen sefydlu i fonitro a dysgu o brofiadau'r gorffennol a'i fod wedi buddsoddi yn y gwasanaeth cynllunio i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.
- Mae'r Cyngor wedi gwella capasiti a morâl o fewn y gwasanaeth ond mae angen iddo ddatblygu a chadw ei weithlu er mwyn cynnal y cynnydd hwn..
- Mae heriau sylweddol mewn perygl o danseilio gwytnwch y gwasanaeth yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae'r adroddiad yn gwneud pedwar argymhelliad i wella'r gwasanaeth ymhellach, gan gynnwys gwella gallu'r Cyngor i liniaru ac ymateb i risgiau, gwella sut mae'n ystyried risgiau wrth gynllunio adnoddau, yn ogystal ag adeiladu sgiliau a phrofiad o fewn y gwasanaeth cynllunio a fydd hefyd yn helpu i gryfhau trefniadau parhad busnes y Cyngor a gwella gwydnwch.

Rhoddod y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ymateb y gwasanaeth i'r adroddiad a chrosawodd yr adolygiad gan ddweud ei fod yn amserol o ystyried y pwysau a fu ar y gwasanaeth ac sydd arno ar hyn o bryd. Nid yw'r heriau sy'n wynebu gwasanaeth cynllunio a gorfodi Ynys Môn mewn perthynas ag adnoddau, capasiti a llwyth gwaith yn annhebyg i'r rhai sy'n wynebu awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru. Yn gyffredinol, teimlir bod yr adroddiad yn rhoi gwerthusiad cadarnhaol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth cynllunio yn Ynys Môn, er mai megis dechrau mae'r gwaith i wella'r gwasanaeth, mae'n yn ymwybodol bod angen gwneud mwy o waith. Fodd bynnag, ystyrir bod gan y gwasanaeth reolaeth ac arweinyddiaeth gadarn erbyn hyn ac mae wedi gosod blaenoriaethau clir ar gyfer y tymor canolig. Mae'r gwasanaeth yn derbyn argymhellion adolygiad Archwilio Cymru a chytunwyd ar gynllun gweithredu. Bydd y cynllun gwella gwasanaethau presennol yn cael ei adolygu i nodi meysydd a blaenoriaethau sydd angen sylw a bydd cynllun diwygiedig i fynd i'r afael â'r meysydd hynny yn cael ei baratoi. Mae'r gwaith ar y cynllun presennol yn parhau ar ôl y tarfu yn sgil y pandemig ac er bod Covid wedi arwain at atal gweithgaredd, mae'r newid i weithio drwy ddulliau rhithwir wedi cyflymu'r broses o adolygu diwylliant ac ymarfer o fewn y gwasanaeth ac yn hynny o beth mae wedi bod yn fuddiol. Er bod y risgiau a'r pryderon sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn cael eu cofnodi yng nghofrestr risg ehangach y gwasanaeth, bydd y gwaith o baratoi'r cynllun gwella yn cynnwys datblygu cofrestr risg penodol ar gyfer y gwasanaeth cynllunio a fydd yn cael ei diweddarau a'i monitro'n rheolaidd. Bydd archwiliad sgiliau hefyd yn cael ei gynnal a'r allbwn yn bwydo i mewn i gynllun datblygu gweithlu'r gwasanaeth. O ran adnoddau, mae'r sefyllfa ariannol yn heriol ac er y byddai'r gwasanaeth yn dymuno cryfhau capasiti, rhaid iddo fod yn realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Bydd y gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod ei staff yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol gan gofio hefyd ei bod yn bwysig cadw'r arbenigedd sydd yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Wrth ystyried yr adroddiad, cyfeiriodd y Pwyllgor at Arddangosyn 2 a oedd yn dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn dangosyddion cenedlaethol allweddol yn 2018/29 a nododd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol gallu gweld perfformiad presennol y gwasanaeth cynllunio mewn ffordd debyg wedi'i feincnodi yn erbyn perfformiad awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru. Gwnaed sylwadau hefyd am gyfran yr apeliadau cynllunio a ganiatawyd a chodwyd cwestiwn ynglŷn â phwysigrwydd polisiâu cynllunio lleol a'r cyd-destun lleol mewn penderfyniadau apêl.

Dywedodd y Cyngorydd Nicola Robert, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd fod apeliadau cynllunio yn faes cymhleth ond ei bod hi'n bersonol fel Deilydd y Portffolio yn fodlon â'r niferoedd presennol a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddehongli polisi o safbwynt yr awdurdod cynllunio lleol a'r arolygiaeth. Mae pob apêl a ganiateir yn cael ei hadolygu gan y gwasanaeth i weld a oes unrhyw wahaniaethau o ran dehongli.

Penderfynwyd nodi adroddiad Archwilio Cymru ar ei adolygiad o Reoli Datblygu a Gorfodi Cynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn ynghyd ag ymateb y sefydliad i'r adroddiad.

6. ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD CHWARTEROL AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru ar ei Raglen Waith a'i Amserlen ar 30 Mehefin, 2023 er gwybodaeth y Pwyllgor. Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a statws gwaith archwilio ariannol a pherfformiad Archwilio Cymru sy'n cynnwys astudiaethau wedi'u cynllunio a'u cyhoeddi ac roedd yn cynnwys gwaith Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rhoddodd Yvonne Thomas Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru drosolwg o gynnydd y gwaith archwilio ariannol gan gadarnhau bod y gwaith maes mewn perthynas ag archwilio datganiad cyfrifon 2022/23 y Cyngor yn dal i fynd rhagddo ac mai'r nod o hyd yw cwblhau'r broses honno erbyn diwedd mis Tachwedd ac adrodd yn ôl ar y canlyniad i'r Pwyllgor hwn ddechrau mis Rhagfyr 2023. Mae'r broses ardystio grantiau wedi newid gyda'r gwaith ar ardystio Cyfraniadau Pensiwn Athrawon a hawliadau grant Ardrethi Annomestig bellach yn cael ei wneud gan dîm canolog yn hytrach na thîm lleol. Mae'r gwaith maes ar gyfer ardystio ffurflen grantiau Ardrethi Annomestig 2022/23 ar y gweill ac mae'r ffurflen ar gyfer Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer 2022/23 bellach wedi'i dderbyn. Anelir at gwblhau'r ddaau archwiliad erbyn 17 a 30 Tachwedd, yn y drefn honno. Mae'r archwiliad o ffurflen grant Cymhorthdal Budd-dal Tai 2020/21 bron â chael ei gwblhau ac mae'r llythyr amodi drafft gyda'r Cyngor i'w adolygu. Unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, gellir nodi unrhyw brofion ychwanegol sydd eu hangen er mwyn gallu cwblhau hawliad grant Cymhorthdal Budd-dal Tai 2021/22 a gall y gwaith fynd rhagddo.

Adroddodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad ar gynnydd y rhaglen Archwilio Perfformiad gan gadarnhau bod cwblhau rhaglen 2022/23 yn cael blaenoriaeth ynghyd â darnau allweddol o waith o raglen 2023/24. O ran gwaith sicrwydd ac asesu risg 2022/23, mae'r adroddiad ar ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad wedi'i ddrafftio a'i rannu ar gyfer sylwadau rheolwyr a threfnwyd y cyfweiliadau mewn perthynas â'r adolygiad archwilio ar gyfer gosod amcanion llesiant. Mae'r adroddiad lleol drafft mewn perthynas â'r adolygiad Thematig Digidol yn cael ei adolygu. Mae adolygiadau archwilio perfformiad 2023/24 yn cael eu cwmpasu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac mae gwaith wedi dechrau ar yr adolygiad sicrwydd ac asesu risg.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) fod Datganiad drafft 2022/23 o'r Cyfrifon wedi'i gwblhau erbyn y dyddiad targed diwedd mis Mehefin a oedd yn golygu bod y gwaith archwilio wedi gallu dechrau'n brydlon. Nid oes unrhyw faterion wedi'u codi hyd yma a fyddai'n amharu ar y dyddiad cwblhau ddiwedd mis Tachwedd.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Pwyllgor ynghylch effaith yr ISA 315 diwygiedig ar lwyth gwaith yr archwilwyr, dywedodd Yvonne Thomas, er bod y newidiadau i'r safon wedi golygu mwy o waith i archwilwyr, fod adnoddau ychwanegol wedi'u rhoi yn y broses ac ni ragwelir y bydd yn rhwystr i'r bwriad o gwblhau'r archwiliad ddiwedd mis Tachwedd.

Penderfynwyd nodi Diweddariad Chwarter 1 2023/24 Archwilio Cymru ar ei Raglen Waith a'i Amserlen.

7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys adolygiad o weithgarwch rheoli'r trysorlys yn 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad blynyddol rheoli'r trysorlys o weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2022/23.

Mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau ariannol canlynol ym mlwyddyn ariannol 2022/23 –

- Ffactorau allanol gan gynnwys y cyd-destun economaidd, perfformiad cyfraddau llog ac effaith Covid-19.
- Ffactorau mewnol gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a'r balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf.
- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn 2022/23 gan gynnwys rheoli dyledion, polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- Rheoli'r Trysorlys drwy Ddangosyddion Darbodus a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli.
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn
- Rhagolygon ar gyfer 2023/24 a thu hwnt.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y tabl ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad a oedd yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol y Cyngor am y flwyddyn – un o'r dangosyddion darbodus gofynnol a sut y cafodd hyn ei ariannu. Roedd y gyllideb yn dangos tanwariant o £14m sy'n llithriad llawer llai o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol gyda'r prosiectau a restrir yn y paragraff yn gyfrifol am y tanwariant. Nodir cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod y Cyngor ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad ac maent yn dangos cronfeydd wrth gefn y gallir eu defnyddio sy'n werth cyfanswm o £59.779m. Ni fu unrhyw fenthyciadau allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, yn hytrach, mae'r Cyngor wedi parhau i weithredu ei strategaeth fenthycia fewnol gan fod cyfraddau buddsoddi wedi bod yn is na chyfraddau benthycia hirdymor sy'n golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid sicrhau'r gwerth orau drwy beidio â chymryd benthyciadau allanol newydd ond yn hytrach, defnyddio balansau arian parod i ariannu gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Mae'r tabl ym mharagraff 3.3.2 o'r adroddiad yn dangos mai sefyllfa fenthycia fewnol y Cyngor ar 31 Mawrth, 2023 oedd £20.3m. Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor ymrwymo i unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill. Derbyniwyd benthyciad di-log o £1.123m yn y flwyddyn i ariannu gwariant cyfalaf ar brosiectau arbed ynni a bydd yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau.

Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach, er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Gwelwyd gwelliant mewn enillion ar fuddsoddiadau a godwyd trwy gydol 2022/23 wrth i gyfraddau llog godi. Roedd y gyllideb llog o £5k a osodwyd ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y llog a dderbyniwyd y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd y ffaith bod cyfraddau llog yn codi'n golygu bod mwy o gyfleoedd i fuddsoddi arian dros ben gyda balansau cyfartalog o £55.8m yn sicrhau £0.863m ar gyfradd llog gyfartalog o 1.55%. Yr anfantais i gyfraddau llog uwch yw bod benthycia wedi dod yn fwy costus. Ceir manylion yr holl fuddsoddiadau newydd yn y flwyddyn gyda'u cyfraddau llog yn y tabl ym mharagraff 3.6 yr adroddiad. Y strategaeth wrth symud ymlaen yw osgoi buddsoddi gydag awdurdodau lleol gan fod balansau ariannol y Cyngor bellach yn lleihau, mae mwy o opsiynau ar gael gyda'r banciau ac oherwydd yr ansicrwydd ariannol, mae mwy o risg yn gysylltiedig ag awdurdodau lleol wrth i nifer o gynghorau gael eu hunain mewn trafferthion ariannol.

Nodir egwyddorion strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn adran 4 yr adroddiad ac yn adran 5 ceir crynodeb o'r dangosyddion darbodus y cytunwyd arnynt a'r hyn y maent yn ei olygu. Mae Adran 6 yr adroddiad yn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a ragwelwyd ar gyfer 2022/23 ac yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r perfformiad hwn yn dangos bod gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig i sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn peri unrhyw risg ariannol sylweddol i'r Cyngor o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi a chael sicrwydd o sefyllfa ariannol gadarn y Cyngor a'i ddull darbodus ac ystyriol o fenthyca a buddsoddi a oedd yn golygu ei fod mewn sefyllfa fwy cadarn na llawer o gynghorau sydd bellach mewn trafferthion ariannol oherwydd bod ganddynt lefelau uchel o ddyled ar ôl cymryd benthyciadau sylweddol. Wrth drafod yr adroddiad gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau am wariant cyfalaf y Cyngor, yn benodol –

- Yr anghysondeb rhwng cyfanswm y gwariant cyfalaf amcangyfrifedig o £55m ar gyfer 2022/23 a nodwyd ym mharagraff 3 yr adroddiad a'r £35.961m a nodwyd fel cyfanswm gwariant cyfalaf gwreiddiol o dan y Dangosyddion Darbodus ym mharagraff 6.
- P'un a yw arian cyfalaf heb ei wario yn cael ei gymryd yn ôl gan Lywodraeth Cymru.
- A oes digon o adborth ar gynnydd prosiectau cyfalaf i sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian i gyflawni ei ymrwymadau ariannol pan fônt yn ddyledus.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod dull y Cyngor o reoli'r trysorlys wedi bod yn wrth-risg mewn sawl ffordd; mae'r cynghorau hynny sydd bellach mewn trafferthion ariannol wedi defnyddio eu pwerau benthyca i fuddsoddi mewn mwy o fentrau risg uchel i gynhyrchu incwm tra bod yr amodau economaidd a'r farchnad yn ddiweddar wedi golygu nad yw'r enillion disgwylidig wedi'u sicrhau gan adael y cynghorau hynny â dyledion sylweddol. Mae'r Cyngor ym Môn wedi bod yn ofalus yn gyson wrth fuddsoddi ac wedi targedu gwariant cyfalaf i feysydd blaenoriaeth lle mae'r angen mwyaf. Mae hefyd wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ddarbodus gan gydnabod yr angen ar adegau i gydbwyso cyllidebau heb droi at gronfeydd wrth gefn a gwario ar eitemau y mae am wario arnynt. Mae hyn wedi cynnal lefel iach o falans cronfeydd wrth gefn. Cronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor yw ei gronfeydd ar gyfer "cyfnodau anodd" i'w helpu i ddelio ag argyfyngau a chostau annisgwyl.

O ran gwariant cyfalaf, y ffigwr o £35.961m yw'r gyllideb gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022. Ychwanegwyd at hynny'r llithriad o'r flwyddyn flaenorol sydd wedi'i gario drosodd gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith yn ogystal â grantiau cyfalaf a ddyfernir yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyllideb gyfalaf ar y cychwyn fel y'i cymeradwyir gan y Cyngor yn newid dros amser ac mae'r newidiadau hynny'n cael eu hawdurdodi gan y Pwyllgor Gwaith, weithiau'n ôl-weithredol yn achos grantiau sydd eisoes wedi'u derbyn. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau bod yr holl gyllid grant yn cael ei wario a dim ond ar achlysuron prin y dychwelwyd arian grant nas defnyddiwyd i Lywodraeth Cymru. Pe bai prosiect a ariennir gan grant yn cael ei gwblhau o dan y gyllideb, yna byddai'r hawliad grant terfynol yn adlewyrchu hynny; mewn achos o lithriad mae'r Cyngor yn sicrhau bod yr ariannwr grant yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig fel nad oes unrhyw arian yn cael ei gollu am beidio â chadw at amodau'r cynnig grant. Mae gwariant cyfalaf y Cyngor yn cael ei fonitro'n chwarterol gyda lefel uwch o wariant cyfalaf yn yr 2il a'r 3ydd chwarter pan fo'r tywydd yn fwy ffafriol. O ran rheoli arian parod mae'r Cyngor yn cadw oddeutu £10m mewn arian parod sy'n ddigon i gyflawni ei ymrwymadau ariannol parhaus ar unwaith, telir llog ar yr arian sydd gan y Cyngor yn y cyfrifon sydd ar gael iddo, er ei fod ar gyfradd is na'r cronfeydd hynny a fuddsoddiwyd am gyfnod penodol.

Gwnaeth y Pwyllgor bwynt cyffredinol ynghylch cymhlethdod y gofynion adrodd ariannol a oedd yn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor gyfleu ei sefyllfa ariannol a sut mae'n gwario ei arian mewn ffordd sy'n dryloyw ac yn ddealladwy i'r cyhoedd yn gyffredinol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 fod adroddiadau ariannol awdurdodau lleol, yn enwedig o ran ei ddatganiadau ariannol, yn amodol ar nifer o godau ymarfer a rheoliadau sy'n pennu beth a sut y caiff gwybodaeth ei hadrodd. Y gobaith yw drwy broses ddemocrataidd y Cyngor, yn benodol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn, y gall aelodau etholedig roi sicrwydd i drethdalwyr cyngor Ynys Môn fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Penderfynwyd –

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2022/23 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.**
- **Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2022/23 yn yr adroddiad hwn.**
- **Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2022/23 a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith gydag unrhyw sylwadau.**

8. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg oedd yn ei ddiweddarau am y sefyllfa fel yr oedd hi ar 3 Medi, 2023 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad blaenorol ar 31 Mawrth 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol. Darparwyd y canlynol i aelodau'r Pwyllgor sef copïau o'r chwe darn canlynol o waith sicrwydd a gwblhawyd yn y cyfnod mewn perthynas â Pharhad y Gwasanaeth TG - Gwe-rwydo (Dilyn i fyny) (Sicrwydd Rhesymol); Rheoli Trwyddedau Meddalwedd TG (Dilyn i fyny) (Sicrwydd Rhesymol); Cardiau Tanwydd (Sicrwydd Rhesymol); Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu (Risg Strategol YM5) (Sicrwydd Rhesymol); ac Adennill Dyledion Treth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Mân Ddyledion (Sicrwydd Cyfyngedig).

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r adroddiad a chyfeiriodd at seithfed darn o waith a wnaed yn y cyfnod mewn perthynas â Grant Adfywio Gogledd Cymru nad oedd lefel sicrwydd ganddo gan ei fod yn ddarn ymchwiliol o waith a ysgogwyd gan atgyfeiriad gan aelod o'r cyhoedd. Mae'r adroddiad yn amlinellu cwmpas a chanlyniad yr ymchwiliad. O ran yr adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas ag Adennill Dyledion Treth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Mân Ddyledion, codwyd 8 mater/risg a chytunwyd ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr. Mae sicrwydd wedi'i ddarparu bod cynlluniau i fynd i'r afael â'r materion/risgiau a nodwyd erbyn mis Ionawr 2024. Ar hyn o bryd mae gan Archwilio Mewnol 12 darn o waith ar y gweill fel y'u rhestrir yn y tabl ym mharagraff 35 o'r adroddiad ac mae'n gwneud cynnydd da gyda Strategaeth Archwilio Flynyddol 2023/24 ynghyd â Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd 2022-2025. Mae ymarfer recriwtio llwyddiannus diweddar yn golygu mai dim ond un swydd wag sydd yn y gwasanaeth bellach ar lefel Uwch Archwilydd oherwydd secondiad hirdymor. Mae'r arbedion cyllidebol sy'n deillio o hyn yn cael eu defnyddio i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol.

Amlinellodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y cyd-destun i ddull y Cyngor o reoli ac adennill dyledion gan dynnu sylw at y ffaith bod pandemig COVID a'r argyfwng costau byw wedi gwneud y sefyllfa'n waeth ac wedi ychwanegu at y baich dyledion a'r gwaith sy'n cronni. Disgrifiodd y prosesau sydd ar gael i'r Cyngor wrth geisio adennill Dyledion Treth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Mân Ddyledion a'r cyfyngiadau arnynt, yn enwedig yn achos y Dreth Gyngor lle mae'r gosb o garchar am beidio

â thalu wedi ei ddileu neu mewn achosion o galedi neu pan fo unigolion bregus dan sylw, megis gyda dyledion gofal cymdeithasol, mae angen bod yn sensitif wrth ddelio ag achosion o'r fath. Mae'r Tîm Refeniw wedi'i ailstrwythuro i egluro cyfrifoldebau adennill dyledion ac mae adolygiad o brosesau adennill dyledion wedi'i gynnal i ganfod sut y gall y gwasanaeth wneud defnydd mwy effeithiol o wybodaeth o ran allosod data o'r system ac i sefydlu statws dyledion yn well fel nad yw dyledion segur sy'n annhebygol o gael eu hadennill yn aros ar y system am gyfnod hir o amser ac y gellir eu dileu. Adolygir drwg ddyledion i asesu a yw amgylchiadau wedi newid ac i weld a oes modd adennill y ddyled, a gwneir darpariaeth ddrwg ddyledion ar gyfer dyledion yr ystyrir na ellir eu hadennill - amlinellwyd y trefniadau ar eu cyfer i'r Pwyllgor. Mae adolygiad archwilio mewnol wedi cadarnhau'r sefyllfa o ran yr angen i gryfhau prosesau a gweithdrefnau adennill dyledion ac mae cynllun gweithredu i'r perwyl hwnnw wedi'i lunio ac mae rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes yn cael eu gweithredu.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai adolygiad dilynol yn cael ei gynnal ym mis Ionawr, 2024 ac y byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor hwn.

Penderfynwyd nodi bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.

9. MATERION A RISGIAU SYDD ANGEN SYLW

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws materion/risgiau sydd angen sylw y mae Archwilio Mewnol wedi'u codi i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol a gadarnhaodd, ar 31 Awst 2023, fod 47 o gamau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw ac sy'n cael eu holrhain gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae chwech ohonynt yn cael eu hystyried yn rhai sylweddol (ambr) a 41 yn rhai cymedrol (melyn) o ran blaenoriaeth risg. Ni chodwyd unrhyw faterion/risgiau coch neu gritigol yn ystod y flwyddyn ac nid oes yr un ohonynt angen sylw. Ar hyn o bryd mae 5 cam gweithredu oedd i fod i gael eu gweithredu erbyn y dyddiad cwblhau, ac maent bellach yn wedi mynd heibio eu dyddiad targed. Mae pedwar o'r rhain (dau wedi'u sgorio'n risg blaenoriaeth sylweddol a dau'n gymedrol), yn berthnasol i archwiliad ar Bensiynau Athrawon fel rhan o waith dilynol i fyny ffurfiol. Mae'r cam arall wedi'i sgorio'n gymedrol o ran blaenoriaeth risg, ac mae'n berthnasol i archwiliad o Gynnal a Chadw Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg – ceir diweddariad ym mharagraff 12 yr adroddiad.

O ran yr holl gamau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw, waeth beth yw'r dyddiad y cytunwyd i'w gweithredu, mae Graff 3 yn dangos bod rheolwyr bellach wedi ymdrin â 77%, ac mae Archwiliad Mewnol wedi dilysu 75%. Mae'r 2% sy'n weddill yn ymwneud ag archwiliad o Galw Gofal, fydd yn cael ei olrhain yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2023. Pan fydd yr holl gamau gweithredu wedi bodloni eu dyddiad targed (gweler Graff 4) mae'n dangos yr ymdriniwyd â 97% o'r camau yr oedd angen gweithredu arnynt.

Er bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu sydd angen sylw'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, mae tri mater/risg yn dyddio'n ôl i 2018/19 a 2019/20 ac mae pob un ohonynt yn gymedrol neu'n felyn o ran blaenoriaeth risg. Darperir diweddariad ar eu statws a'u cynnydd ym mharagraffau 21 a 22. Nid oes unrhyw faterion/risgiau â sgôr sylweddol sy'n dyddio'n ôl ymhellach na 2021/22. Pan fo mater / risg â sgôr sylweddol yn parhau heb ei ddatrys 12 mis ar ôl i'r dyddiad cwblhau gwreiddiol fynd heibio, gofynnir i berchnogion y camau fynychu Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn rhoi rhesymau dros yr oedi mewn mynd i'r afael â'r mater/risg. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw faterion/risgiau sylweddol y mae hyn yn berthnasol iddynt.

Penderfynwyd nodi cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r Materion/Risgiau Archwilio Mewnol sydd angen sylw.

10. ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n cynnwys y Blaen Raglen Waith a Rhaglen Hyfforddiant 2023/24 i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Tynnodd y Pennaeth Archwilio a Risg sylw at yr eitemau a oedd wedi'u haildrefnu ar y rhaglen waith a oedd yn cynnwys hunanasesiad y Pwyllgor sydd i'w ystyried yng nghyfarfod Rhagfyr 2023.

Penderfynwyd –

- **Derbyn Blaen Raglen Waith 2023/24 fel un sy'n cyflawni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl a**
- **Nodi'r newidiadau i'r dyddiadau y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno.**

**Mr Dilwyn Evans
(Cadeirydd)**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Dyddiad: | 7 Rhagfyr 2023 |
| Teitl yr Adroddiad: | Adroddiad Sicrwydd Llywodraethiant Gwybodaeth Blynyddol Ysgolion Ynys Môn 2023 |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Hysbysu aelodau o'r lefel o gydymffurfiaeth a risg diogelu data mewn perthynas ag ysgolion, a chrynhoi blaenoriaethau presennol |
| Adroddiad gan: | Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion Est: 1833, dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru |
| Swyddog Cyswllt: | Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion Est: 1833, dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru |

Pwrpas yr adroddiad hwn

Darparu dadansoddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion o'r prif faterion Llywodraethiant Gwybodaeth (IG) ar gyfer y cyfnod Chwefror 2023 i Tachwedd 2023 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chrynhoi blaenoriaethau presennol.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a throsolwg o gydymffurfiaeth ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Môn â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth ysgol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)*; *Deddf Diogelu Data 2018* a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion camau a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf (Ionawr 2023), ac yn rhoi manylion ynghylch cynnwys y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2022-2023* a beth sydd wedi ei gyflawni ganddo.

Rhoddir manylion hefyd am yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-2024* ac y cynnydd hyd yma.

Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Ers yr adroddiad diwethaf a gyhoeddwyd yn Ionawr 2023, mae gan ysgolion y **polisiau** a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gydymffurfio â gofynion dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae ysgolion wedi mabwysiadu'r mwyafrif o bolisiau yn ffurfiol ac wedi cychwyn y broses o **fonitro** a **thystiolaethu eu cydymffurfiaeth** â phob polisi diogelu data. Bydd hyn yn cynorthwyo ysgolion i sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol i leihau risgiau diogelu data a chefnogi ysgolion i dystiolaethu eu hatebolrwydd a'u cydymffurfiaeth.

Mae'r **ymarferion** rheoli gwybodaeth dyddiol yn yr ysgolion wedi parhau i wella. Mae mwy o staff ysgolion wedi derbyn **hyfforddiant** diogelu data yn ystod y cyfnod hwn,

ac mae hyn wedi cefnogi ysgolion i wella eu hymarferion. Mae mwy o lywodraethwyr ysgol hefyd wedi derbyn hyfforddiant neu wedi bod yn gynulleidfa i gyflwyniad diogelu data sydd hefyd wedi gwella eu dealltwriaeth o rwymedigaethau'r ysgol dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Mae darnau mwy penodol o waith bellach angen eu cwblhau, gan gynnwys ysgolion yn addasu'r templed ROPA a Rhestr o Asedau Gwybodaeth sydd wedi'i boblogi o flaen llaw, sicrhau bod DPAAu ar waith ar gyfer apiau a rhaglenni a ddefnyddir, creu DPAAu lle mae prosesu risg uchel, a chael *Cynllun Parhad Busnes* a *Chynllun Adfer Trychineb* ar waith.

Mae ysgolion yn parhau i ddangos eu bod yn deall eu **cyfrifoldebau** a'r goblygiadau fel y rheolydd data a'r disgwyliadau cyfreithiol o hynny. Mae ysgolion yn parhau i arddangos fod ganddynt well dealltwriaeth o'u rhwymedigaethau diogelu data ac wedi bod yn rhoi mwy o flaenoriaeth i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i gydymffurfio â gofynion dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Mae ysgolion yn parhau i ymfyn am gyngor ac arweiniad mewn perthynas â materion diogelu data gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

| Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Tachwedd 2023) | Sicrwydd Rhesymol |
|--|--------------------------|
| <p>Mae'r mwyafrif o ysgolion bellach wedi mabwysiadu'r polisiau diogelu data allweddol ac yn monitro eu cydymffurfiad â pholisïau unigol. Mae ymarferion wedi parhau i wella, gyda staff a llywodraethwyr â gwell gwybodaeth o rwymedigaethau diogelu data drwy sesiynau hyfforddiant a chyflwyniadau. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran sicrhau bod gan ysgolion y Cytundebau Diogelu Data gofynnol ar gyfer apiau a rhaglenni a ddefnyddir a gydag uwchraddio diogelwch systemau TGCh a diogelwch cyffredinol o amgylch data corfforol ac electronig. Mae gan y mwyafrif o ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd ac mae cyfathrebu rheolaidd rhwng y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac ysgolion drwy newyddlenni ac ymweliadau archwilio blynyddol. Mae angen ymgymryd â gwaith pellach ar ddarnau penodol o waith i sicrhau bod pob ysgol ar yr un lefel o gydymffurfio ac yn agosach at gydymffurfio'n llawn, a'u bod yn gallu tystiolaethu hyn.</p> | |

Argymhellion

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Pwyllgor, bod:

- i. adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, gan gynnwys y datganiad, yn cael ei dderbyn.
- ii. bod y Pwyllgor yn ardystio camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – y Cynllun Diogelu Data Ysgolion – er mwyn galluogi ysgolion i weithredu'n llawn yn unol â gofynion diogelu data.

ADRODDIAD SICRIFYDD LLYWODRAETHIANT GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION YNYS MÔN

**ELIN WILLIAMS
SWYDDOG DIOGELU DATA
YSGOLION**

Tachwedd 2023

| Cynnwys | Tudalen |
|--|----------------|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Casgliadau a Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Ionawr 2023 | 4 |
| 2.1. Casgliadau a Nodwyd o Adroddiad Ionawr 2023 | 4 |
| 2.2. Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Ionawr 2023 | 5 |
| 3. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion | 11 |
| 3.1 Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2022-2023 | 11 |
| 3.1.1. Polisïau, Canllawiau, Dogfennau a Thempledi | 11 |
| 3.1.2. Hyfforddiant Diogelu Data | 11 |
| 3.1.3. Mapio'r Lliffiau Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor | 13 |
| 3.1.4. Archwiliad Diogelu Data | 13 |
| 3.2 Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-2024 | 14 |
| 3.2.1 Rhannu Templed Cynllun Cyhoeddi Newydd | 14 |
| 4. Datblygiadau a Gweithgareddau Cyfredol | 14 |
| 4.1 Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion | 14 |
| 4.2 Diweddariad a Newyddlen Diogelu Data Ysgolion Tymhorol | 14 |
| 4.3 Uwchraddiadau a Gwelliannau i Drefniadau TGCh | 15 |
| 5. Nifer y Digwyddiadau Diogelwch Data, Ceisiadau gan Wrthrych y Data a Chwynion Diogelu Data | 15 |
| 6. Digwyddiad Seiber Ysgolion Uwchradd | 16 |
| 7. Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – Tachwedd 2023 | 17 |
| 8. Casgliadau a Chamau Nesaf | 18 |
| 8.1. Casgliadau | 18 |
| 8.2. Camau Nesaf | 18 |
| | |
| ATODIAD A – Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion Ynys Môn 2022-2023 (Fersiwn 1) | 20 |
| | |
| ATODIAD B – Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion Ynys Môn 2023-2024 (Fersiwn 1) | 23 |
| | |
| ATODIAD C - Gweithredoedd wedi eu Cwblhau fel Rhan o'r Rhaglen Waith Fewnol yn dilyn Digwyddiad Seiber Ysgolion Uwchradd | 25 |

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a throswolwg o gydymffurfriad ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Ynys Môn, gyda gofynion cyfreithiol mewn ymdrin â gwybodaeth ysgol, gan gynnwys cydymffurfriad â *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)*, *Deddf Diogelu Data 2018* a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu manylion o gamau gweithredu a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf (Ionawr 2023) ac yn darparu manylion ynglŷn â chynnwys y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2022-2023* a beth sydd wedi ei gyflawni o dan *Strategaeth Diogelu Data Ysgolion 2023-2024*.

Dyma'r 45 ysgol yn Ynys Môn sydd wedi arwyddo i fyny i dderbyn cefnogaeth ac arweiniad gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei adolygu ym mis Mawrth 2024):

| Ysgolion Cynradd | | | |
|------------------------|----------------------|------------------------|----------------------|
| Ysgol Gynradd Amlwch | Ysgol Esceifiog | Ysgol Llanfairpwll | Ysgol Penysarn |
| Ysgol Beaumaris | Ysgol Gymuned y Fali | Ysgol Llanfawr | Ysgol Rhoscolyn |
| Ysgol Gynradd Bodedern | Ysgol y Ffridd | Ysgol Llanfechell | Ysgol Rhosneigr |
| Ysgol Bodffordd | Ysgol Garreglefn | Ysgol Llangoed | Ysgol Rhosybol |
| Ysgol y Borth | Ysgol Goronwy Owen | Ysgol Llannerch-y-medd | Ysgol Rhyd y Llan |
| Ysgol Bryngwran | Ysgol y Graig | Ysgol Moelfre | Ysgol Santes Dwynwen |
| Ysgol Brynsiencyn | Ysgol Henblas | Ysgol Gymraeg Morswyn | Ysgol Santes Fair |
| Ysgol Cemaes | Ysgol Kingsland | Ysgol Parc y Bont | Ysgol Talwrn |
| Ysgol Corn Hir | Ysgol Llanbedrgoch | Ysgol Pencarnisiog | Ysgol y Tywyn |
| Ysgol Cybi | Ysgol Llandegfan | Ysgol Pentraeth | |

| Ysgolion Uwchradd | Ysgolion Arbennig |
|-------------------------|------------------------|
| Ysgol Uwchradd Bodedern | Canolfan Addysg y Bont |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| Ysgol David Hughes | |
| Ysgol Gyfun Llangejni | |
| Ysgol Syr Thomas Jones | |

2. Casgliadau a Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Ionawr 2023

2.1. Casgliadau a Nodwyd o Adroddiad Ionawr 2023

Y canlynol oedd y casgliadau a adnabuwyd yn adroddiad Ionawr 2023:

- Er gwaethaf y pandemig Covid-19, mae ysgolion wedi gallu symud ymlaen â'r rhaglen diogelu data dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae **ymarferion** rheoli gwybodaeth dyddiol yn yr ysgolion wedi symud yn eu blaenau dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae mwy o gynnydd wedi'i wneud o ran mabwysiadu polisiau diogelu data allweddol, gyda'r ffocws yn awr angen bod ar ysgolion yn monitro a thystiolaethu eu cydymffurfriad â phob polisi diogelu data unigol wrth symud ymlaen.
- Mae penaethiaid a staff ysgolion wedi cael mewnbwn i ddatblygiadau drwy'r cyfarfod Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion, gan gynnwys amserlenni gweithredoedd o fewn y Strategaeth Datblygu Diogelu Data a datblygiad polisiau, canllawiau a thempledi newydd.
- Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud gydag uwchraddio systemau ac isadeiledd TGCh ysgolion drwy drosglwyddo i wasanaethau cwmwl HWB, ac mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau. Mae mwy o waith yn y broses o gael ei gwblhau i wella diogelwch systemau gyda dilysu aml-factor yn cael ei droi ymlaen ar gyfrifon HWB staff a gliniaduron InTune yn cael eu dosbarthu i ysgolion. Mae hyn wedi arwain at wneud systemau ysgol yn fwy diogel.
- Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud mewn sicrhau bod trefniadau diogelu data priodol yn eu lle gyda phroseswyr data. Mae'r gwaith mapio ynghylch pa systemau, rhaglenni ac apiau y mae ysgolion yn eu defnyddio wedi'i gwblhau ac mae asesiadau wedi'u cwblhau ar Gytundebau Prosesu Data presennol, gyda llyfrgell o'r asesiadau'n cael ei rhannu maes o law. Mae gwaith angen ei gwblhau ar greu DPIAau ar gyfer prosesu penodol, a bydd pecyn o gytundebau'n cael ei rannu ag ysgolion i'w arwyddo.
- Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud ynghylch adnabod a darparu hyfforddiant penodol i staff ysgolion, gan gynnwys y corff llywodraethol, gyda sawl sesiwn hyfforddi'n cael eu rhoi i staff ar bob lefel. Mae hyn wedi cyfrannu at sicrhau bod pawb yn strwythur yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data. Mae angen cynnal sesiynau hyfforddi pellach i sicrhau bod staff a llywodraethwyr pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant, ac mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i staff ysgolion ar gynnwys *Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion* a *Pholisi E-bost Staff Ysgolion*.
- Mae peth cynnydd wedi'i wneud ond mae gwaith pellach i'w wneud o hyd i sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol, a bod Asesiadau Effaith Diogelu Data'n cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel.
- Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bellach Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol, gyda'r mwyafrif o ysgolion wedi rhannu'r rhain â rhieni ac wedi rhoi'r fersiwn cyffredinol a'r fersiwn plant a phobl ifanc ar wefan yr ysgol.

- Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi ymgymryd ag ymweliad archwilio i bob ysgol i fonitro cydymffurfiad â rhwymedigaethau diogelu data ac wedi rhoi adroddiad o ganfyddiadau i bob ysgol sy'n cynnwys sgôr risg a chatau gweithredu i'w cymryd.
- Mae'r ffurflen ganiatâd bresennol wedi'i hadolygu ac mae taflen i gyd-fynd â'r ffurflen wedi'i datblygu sy'n egluro *UK GDPR*.
- Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu templed sydd wedi'i boblogi o flaen llaw i ysgolion ei addasu ar gyfer eu hanghenion unigol, mae angen rhannu'r templed fel bod gan ysgolion ROPA a Rhestr o Asedau Gwybodaeth sy'n gywir ac yn gyfredol.
- Mae angen i rai ysgolion gael gwared â dogfennau hanesyddol i sicrhau nad oes gwybodaeth yn cael ei chadw heibio ei chyfnod cadw. Mae'r *Ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion* wedi'i rhannu ag ysgolion i'w defnyddio.
- Mae angen datblygu *Cynllun Parhad Busnes a Chynllun Adfer Trychineb* a'u mabwysiadu gan yr ysgolion i sicrhau y gellir parhau i gael mynediad at ddata personol yn ystod digwyddiad neu drychineb.
- Mae *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion* wedi'i datblygu ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022-2023 i sicrhau bod gweithredoedd o'r strategaeth flaenorol yn cael eu cwblhau ac i gynnwys camau gweithredu newydd y mae'n rhaid eu cymryd.
- Mae angen rhoi mwy o swyddogaethau adrodd a monitro ar waith i fonitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i benaethiaid a staff ysgolion roi adborth ar sesiynau hyfforddiant ac ansawdd a defnyddioldeb y gwasanaeth, cyngor ac arweiniad a roddir dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

2.2. Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Ionawr 2023

Nododd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn adroddiad Ionawr 2023 pa ddarnau o waith oedd angen eu cwblhau gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data ac i gyflawni beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt fel y rheolydd data, sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau eu bod yn prosesu data personol yn gyfreithlon.

Cynhigiwyd y gweithredoedd canlynol fel y camau nesaf oedd angen eu cymryd i sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion. Mae cynnydd hyd yn hyn parthed y camau gweithredu i'w cymryd wedi eu nodi, yn ogystal ag unrhyw waith pellach sydd angen ei wneud.

Allwedd Statws RAG

| | |
|--|---|
| | Ar drac i'w gwblhau'n llawn |
| | Ychydig ar ei hôl hi o ran cynnydd, ond mae'r rhan fwyaf o dasgau'n cael eu cwblhau |
| | Ar ei hôl hi o ran cynnydd, gydag ychydig o dasgau'n cael eu cwblhau |
| | Dim cynnydd |

| Rhif | Gweithredoedd o Adroddiad Ionawr 2023 | Cynnydd hyd yn hyn yn erbyn gweithredoedd a adnabuwyd (hyd at fis Tachwedd 2023) | Gwaith pellach i'w wneud |
|------|---|--|---|
| 1 | <p>Mae cynnydd pellach wedi'i wneud o ran mabwysiadu polisiau diogelu data allweddol, gyda'r ffocws bellach angen bod ar ysgolion yn monitro a thystiolaethu eu cydymffurfiad â phob polisi diogelu data wrth symud ymlaen.</p> | <p>Mae'r mwyafrif o ysgolion bellach wedi mabwysiadu pob un o'r 14 o bolisiau diogelu data a rannwyd.</p> <p>Mae monitro a thystiolaethu cydymffurfiad wedi'u trafod â phenaethiaid/arweinyddion diogelu data yn ystod ymweliadau archwilio diogelu data blynyddol 2023.</p> <p>Mae ysgolion wedi derbyn dogfen <i>Rhestr Wirio Polisiau Diogelu Data</i> ym mis Rhagfyr 2022 i'w cefnogi gyda monitro eu cydymffurfiad â gweithredoedd allweddol yn y polisiau diogelu data unigol. Mae ysgolion yn cychwyn defnyddio'r ddogfen hon fel teclyn monitro.</p> | <p>Bydd y Swydddog Diogelu Data Ysgolion yn canolbwyntio ar allu ysgolion unigol i dystiolaethu eu bod wedi bod yn monitro eu cydymffurfiad â'r polisiau diogelu data yn ystod ymweliadau archwilio 2024 (h.y., gwirio a yw ysgolion wedi bod yn defnyddio'r <i>Rhestr Wirio Polisiau Diogelu Data</i> neu gyfwerth).</p> |
| 2 | <p>Mae angen cwblhau gwaith ar greu DPIAau ar gyfer prosesu penodol a bydd pecyn o gytundebau (DPAau) yn cael ei rannu ag ysgolion i'w lofnodi.</p> | <p>Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cytuno ar Gytundebau Diogelu Data (DPA) ar gyfer apiau a rhaglenni penodol.</p> <p>Mae'r mwyafrif o ysgolion bellach wedi cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r <i>Polisi Prosesu Data Ysgolion</i>.</p> <p>Pan fo ysgolion yn gofyn i gael defnyddio rhaglen newydd, mae'r Gwasanaeth TGCh yn gwirio â'r Swydddog Diogelu Data Ysgolion os oes unrhyw risgiau gyda defnyddio rhaglenni penodol a p'un a oes angen DPA fel rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy.</p> | <p>Parhau i baratoi Cytundebau Diogelu Data lle bo angen ac asesu unrhyw gytundebau y mae ysgolion eisoes wedi'u llofnodi er mwyn cadarnhau eu bod yn cwrdd â disgwyliadau.</p> <p>Oherwydd y nifer o wahanol apiau a rhaglenni a ddefnyddir gan ysgolion a gan fod ysgolion yn dechrau defnyddio rhaglenni newydd yn</p> |

| | | | |
|---|---|--|---|
| | | <p>Mae DPAAu wedi'u creu a'u cytuno ar gyfer 4 rhaglen (rhai mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gwynedd) yn ystod y cyfnod hwn. Mae DPAAu yn y broses o gael eu cytuno am 3 rhaglen bellach ar hyn o bryd.</p> <p>Mae Cytundeb Datgelu Data hefyd wedi'i greu a'i gytuno rhwng ysgolion Ynys Môn a Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y Rhaglen Sgrinio Iechyd Disgyblion. Mae hyn yn ffurfioli rhannu gwybodaeth ar gyfer mesuriadau taldra a phwysau, arolygon deintyddol, brechiadau a rhaglen sgrinio clyw. Mae ysgolion yn anfon rhestr o fanylion disgyblion i BIPBC fel y gallant ddefnyddio'r data ar y cyd â'u rhestrau eu hunain i gadarnhau cywirdeb.</p> | <p>barhaus; bydd y gwaith hwn yn barhaus.</p> |
| 3 | <p>Mae angen cynnal sesiynau hyfforddiant pellach er mwyn sicrhau bod staff a llywodraethwyr pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys rhoi hyfforddiant i staff ysgolion ar gynnwys <i>Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion</i> a <i>Pholisi E-bost Staff Ysgolion</i>.</p> | <p>Mae nifer o sesiynau hyfforddiant wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys darparu sesiynau ar gynnwys y <i>Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion</i> a'r <i>Polisi E-bost Staff Ysgolion</i> (gweler eitem 3.1.2 am ragor o wybodaeth yn ymwneud â hyfforddiant).</p> <p>Mae'r angen i ysgolion unigol gadw rhestr ganolog o ba aelodau o staff sydd wedi mynychu hyfforddiant diogelu data a'r dyddiad y mynychwyd yr hyfforddiant wedi cael eu trafod gyda phenaethiaid/arweinwyr diogelu data yn ystod ymweliadau archwilio diogelu data blynyddol 2023.</p> | <p>Mae angen cynnal sesiynau hyfforddiant pellach fel bod staff a llywodraethwyr pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant diogelu data.</p> <p>Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gofyn i ysgolion dystiolaethu bod ganddynt gofrestr yn manylu ar bresenoldeb mewn hyfforddiant diogelu data yn ystod ymweliadau archwilio 2024.</p> |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | <p>Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond mae gwaith pellach angen ei wneud i sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol, a bod Asesiadau Effaith Diogelu Data'n cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel.</p> | <p>Mae templed DPIA cyffredinol wedi'i greu i ysgolion perthnasol ei addasu ar gyfer eu systemau CCTV. Mae hwn yn cael ei wneud yn derfynol a bydd yn mynd i gyfarfod nesaf y Grŵp Gweithredol Diogelu Data i'w gymeradwyo.</p> | <p>Yn dilyn cymeradwyaeth o'r templed DPIA cyffredinol ar gyfer CCTV, bydd cyfarfodydd yna'n cael eu trefnu a'u cynnal gydag ysgolion unigol i addasu'r DPIA ar gyfer eu hamgylchiadau unigol eu hunain.</p> <p>Bydd datblygiad DPIAau cyffredinol eraill yn cael ei greu a bydd y Swydddog Diogelu Data Ysgolion yn parhau i gefnogi ysgolion gyda chwblhau unrhyw DPIAau eraill fel bo angen.</p> |
| 5 | <p>Er bod cynnydd wedi'i wneud gyda datblygu templed sydd wedi'i boblogi o flaen llaw i ysgolion ei addasu ar gyfer eu hanghenion unigol, mae angen rhannu'r templed fel y gall pob ysgol gael ROPA a Rhestr o Asedau Gwybodaeth cywir a chyfredol.</p> | <p>Mae templed ROPA a Rhestr o Asedau Gwybodaeth ar y cyd sydd wedi'i boblogi o flaen llaw wedi'i ddatblygu i ysgolion cynradd ac uwchradd ei addasu. Mae hwn yn cael ei wneud yn derfynol a bydd yn mynd i gyfarfod nesaf y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion i'w gymeradwyo.</p> <p>Mae'r templedi wedi'u creu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith mapio ynghylch pa systemau, rhaglenni ac apiau mae pob ysgol yn eu defnyddio yn ystod hwyr yn 2021/buan yn 2022. Mae ysgolion hefyd wedi bod yn defnyddio rhaglenni newydd ac mae'r rhain i gyd wedi'u cynnwys yn y templedi.</p> | <p>Yn dilyn cymeradwyaeth o'r templed ROPA a Rhestr o Asedau Gwybodaeth cynradd ac uwchradd, bydd y Swydddog Diogelu Data Ysgolion yn trefnu cyfarfodydd i gefnogi ysgolion i addasu'r templed ar gyfer eu hanghenion unigol.</p> |
| 6 | <p>Mae angen i rai ysgolion gael gwared â dogfennau hanesyddol i sicrhau nad</p> | <p>Mae gwarediad dogfennau hanesyddol a phwysigrwydd cydymffurfio â'r <i>Ddogfen Cyfnodau</i></p> | <p>Swydddog Diogelu Data Ysgolion i barhau i fonitro</p> |

| | | | |
|---|---|--|--|
| | <p>oes gwybodaeth yn cael ei chadw heibio ei chyfnod cadw. Mae'r <i>Ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion</i> wedi'i rhannu ag ysgolion i'w defnyddio.</p> | <p><i>Cadw Ysgolion</i> wedi'u trafod â phenaethiaid/arweinwyr diogelu data yn ystod ymweliadau archwilio diogelu data blynyddol 2023.</p> <p>Rhannwyd y <i>Ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion</i> wedi'i diweddarau ag ysgolion yn Rhagfyr 2022 ac mae llawer o ysgolion wedi bod yn mynd drwy eu dogfennau sydd wedi mynd heibio eu cyfnodau cadw a'u gwaredu.</p> | <p>bod ysgolion yn adolygu eu cofnodion ac yn glynu at y <i>Ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion</i>. Bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod ymweliadau archwilio 2024.</p> |
| 7 | <p>Mae angen datblygu <i>Cynllun Parhad Busnes a Chynllun Adfer Trychineb</i> a'u mabwysiadu gan ysgolion i sicrhau y gellir cael mynediad at ddata personol yn ystod digwyddiad neu drychineb.</p> | <p>Mae <i>Cynllun Parhad Busnes a Chynllun Adfer Trychineb</i> drafft wedi'u creu yn dilyn trafodaethau yn y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion.</p> <p>Bydd angen gwneud y rhain yn derfynol a byddant yn mynd i gyfarfod nesaf y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion i'w cymeradwyo.</p> | <p>Yn dilyn cymeradwyo'r <i>Cynllun Parhad Busnes a'r Cynllun Adfer Trychineb</i>, byddant yn cael eu rhannu ag ysgolion i'w mabwysiadu, a gellir eu haddasu i gwrdd ag anghenion ysgolion unigol. Bydd y Swydddog Diogelu Data Ysgolion yn cefnogi ysgolion ag addasu'r cynlluniau.</p> |
| 8 | <p>Mae angen rhoi mwy o swyddogaethau adrodd a monitro ar waith i fonitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Swydddog Diogelu Data Ysgolion drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i benaethiaid a staff ysgolion roi adborth ar sesiynau hyfforddiant ac ansawdd a defnyddioldeb y gwasanaeth, cyngor ac arweiniad a ddarperir dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.</p> | <p>Mae'r Adolygiad Rheolaeth Ysgol (ARhY) yn parhau i gael ei ddefnyddio fel teclyn monitro. Mae ysgolion unigol yn cadarnhau ar yr ARhY eu bod wedi mabwysiadu polisïau diogelu data unigol yn ffurfiol. Mae 'donut' pwrpasol wedi'i ddatblygu ar y system i'w gwneud yn haws i ysgolion gadarnhau pa bolisïau sydd wedi'u mabwysiadu.</p> <p>Mae ysgolion unigol wedi ateb y cwestiynau mewn perthynas â diogelu data ar yr ARhY i sefydlu gwaelodlin o ble maent yn ystyried y maent wedi</p> | <p>Yn dilyn cymeradwyo'r holiadur hyfforddiant, cychwyn defnyddio hwn i gael adborth ar sesiynau hyfforddiant a ddarperir gan y Swydddog Diogelu Data Ysgolion.</p> <p>Cynnwys swyddogaethau adborth a monitro yn y CLG newydd (o Ebrill 2024).</p> |

| | | |
|--|---|---|
| | <p>cyrraedd yn erbyn y gwahanol elfennau o gydymffurfiaeth diogelu data ar ddechrau'r rhaglen datblygu.</p> <p>Defnyddir y system CRM gorfforaethol bellach i ddogfennu pa gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion a'r amser a dreulir yn darparu'r gefnogaeth (e.e., mae faint o amser a dreulir ar greu DPA yn cael ei ddogfennu yn ogystal â'r amser a dreulir yn darparu hyfforddiant).</p> <p>Mae holiadur wedi'i ddatblygu i benaethiaid, staff ysgolion a llywodraethwyr ddarparu adborth ar hyfforddiant. Bydd angen gwneud hwn yn derfynol a bydd yn mynd i gyfarfod nesaf y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion i'w gymeradwyo.</p> | <p>Parhau i ddefnyddio'r ARhY a'r system CRM gorfforaethol fel teclynnau monitro.</p> |
|--|---|---|

3. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion

3.1. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2022-2023

Mae *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion* ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022-23 wedi'i datblygu (gweler copi o'r strategaeth yn ATODIAD A).

Trafodir yr holl bwyntiau gweithredu yn *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2022-2023* dan y penawdau canlynol neu maent eisoes wedi'u trafod dan eitem 2.2 uchod:

3.1.1. Polisiâu, Canllawiau, Dogfennau a Thempledi

Mae ysgolion wedi derbyn pob polisi diogelu data mandadol ac allweddol (rhannwyd y pecyn terfynol o bolisiâu newydd ag ysgolion ym mis Rhagfyr 2022). Mae'r mwyafrif o ysgolion bellach wedi mabwysiadu'r 14 o bolisiâu diogelu data ac wedi mabwysiadu'r pecyn ffurflen ganiatâd newydd (sy'n cynnwys fersiwn ddiweddar o'r ffurflen ganiatâd ar gyfer cyhoeddi ffotograffau ar lwyfannau amrywiol a'r daflen sydd wedi'i chynhyrchu i egluro sut mae caniatâd *UK GDPR* yn gweithio) a rannwyd hefyd yn Rhagfyr 2022.

Rhannwyd fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion* ag ysgolion i'w fabwysiadu ym mis Mai 2023. Adolygir y polisi hwn yn flynyddol gan ei fod yn bolisi statudol. Adolygir polisiâu anstatudol bob dwy neu tair blynedd.

Mae sesiynau hyfforddiant gyda phenaethiaid a staff ysgolion wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod ysgolion yn deall cynnwys polisiâu a dogfennau, gan ei wneud yn haws i ysgolion allu monitro a thystiolaethu eu cydymffurfriad â'r polisiâu wrth iddynt fod â gwell dealltwriaeth o'r cynnwys.

Mae ysgolion bellach yn adolygu eu cydymffurfriad â'r polisiâu diogelu data ac yn cychwyn defnyddio'r ddogfen *Rhestr Wirio Polisiâu Diogelu Data* sydd wedi'i datblygu. Mae'r ddogfen hon yn cefnogi ysgolion i gadarnhau eu bod wedi gweithredu'r prif ofynion yn yr holl bolisiâu diogelu data, sy'n cefnogi ysgolion i arddangos atebolrwydd a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Nid oes unrhyw bolisiâu newydd ar y gweill i'w cynhyrchu neu eu rhyddhau. Mae'r bwriad i adolygu polisiâu presennol a oedd yn amser eu hadolygu wedi'i ohirio nes caiff y ddeddfwriaeth diogelu data newydd ei rhyddhau (disgwylir iddi ddod i rym yng nghanol 2024). Bydd unrhyw newidiadau i bolisiâu presennol yn cael eu gwneud yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd (*Data Protection and Digital Information Bill (DPDI)*).

3.1.2. Hyfforddiant Diogelu Data

Mae'r hyfforddiant canlynol wedi'i ddarparu i ysgolion gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion rhwng Chwefror 2023 a Thachwedd 2023:

| Natur yr Hyfforddiant | Nifer y Sesiynau a Gynhaliwyd |
|--|---|
| Hyfforddiant diogelu data ar gyfer penaethiaid (gan gynnwys anwytho/ail-gyfarwyddo a chyflwyniad i bolisiâu diogelu data newydd) | 4 (28.02.23, 05.05.23, 03.07.23 & 26.09.23) |
| Hyfforddiant ar gynnwys y <i>Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion</i> a'r <i>Polisi E-bost Staff Ysgolion</i> | Dalgylch - 3 (18.04.23, 07.06.23 & 27.11.23) Ysgol unigol - 3 (24.04.23, 01.09.23 & 28.11.23) |
| Delio â Cheisiadau Gwybodaeth (gan Unigolion a'r Heddlu) a Rhannu Gwybodaeth Bersonol a Sensitif yn Ddiogel | 2 (10.03.23 & 01.09.23) |
| Hyfforddiant diogelu data cyffredinol ar gyfer staff ysgolion | Agored i unrhyw un - 1 (12.06.23) Ysgol unigol - 1 (05.06.23) Sesiwn HMS - 1 (01.09.23) – gyda chyfanswm o 67 cyfrif staff ysgol wedi mewngofnodi i'r sesiwn a mynychwyr o 21 ysgol gynradd (noder efallai bod nifer o staff wedi mynychu ar gyfrif un aelod o staff). |
| Cyfanswm | 15 |

Mae sesiynau hyfforddiant wedi parhau i gael eu cynnal, gyda sesiynau'n cael eu cynnal gyda staff ysgolion ar gynnwys y *Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion* a'r *Polisi E-bost Staff Ysgolion*. Mae mwy o ysgolion wedi trefnu dyddiadau yn hwyrach yn y flwyddyn i gynnal yr hyfforddiant.

Mae cyflwyniad diogelu data wedi'i roi i **6** corff llywodraethol yn ystod y cyfnod hwn (gydag un corff llywodraethol ysgol yn derbyn y cyflwyniad am yr ail dro), sy'n dod â'r nifer o gyrff llywodraethol sydd wedi derbyn y cyflwyniad i **25**. Mae'r cyflwyniad yn amlygu'r prif ofynion a disgwyliadau ar ysgolion mewn perthynas â rhwymedigaethau diogelu data.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn cwblhau'r modiwl diogelu data fel rhan o'u tanysgrifiad i'r rhaglen Educare.

Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cynorthwyo i sicrhau bod pawb o fewn strwythur yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data, a bod hyn wedi cyfrannu at y gwelliant cyffredinol mewn ymarferion diogelu data o fewn ysgolion.

Mae *Cynllun Hyfforddiant Diogelu Data Ysgolion* wedi'i ddatblygu ar gyfer y flwyddyn ysgol 2023-24.

Mae hyn yn cynnwys rhaglen dreigl o hyfforddiant diogelu data, gyda sesiynau'n cael eu rhedeg yn fisol ar gyfer y pynciau hyfforddiant canlynol. Mae'r rhain yn agored i unrhyw un a fyddai'n hoffi mynychu a chânt eu darparu drwy Microsoft Teams:

- Diogelu Data Cyffredinol
- Delio â Cheisiadau Gwybodaeth (gan Unigolion a'r Heddlu) a Rhannu Gwybodaeth Bersonol a Sensitif yn Ddiogel
- Delio â Digwyddiadau Diogelwch Data a Diogelwch Gwybodaeth.

Mae posteri wedi'u rhannu ar gyfer dyddiadau'r sesiynau hyfforddiant ond mae'r nifer o staff ysgol sy'n cofrestru wedi bod yn isel hyd yn hyn.

Mae'r angen i ysgolion unigol gadw rhestr ganolog o ba aelodau o staff sydd wedi mynychu hyfforddiant diogelu data a'r dyddiad y mynychwyd yr hyfforddiant wedi cael eu trafod gyda phenaethiaid/arweinwyr diogelu data yn ystod ymweliadau archwilio diogelu data blynyddol 2023. Bydd hyn yn gwneud adrodd ar y nifer o staff ysgolion sydd wedi mynychu hyfforddiant diogelu data yn haws i'w goladu ac yn cefnogi ysgolion gyda thystiolaethu eu hatebolrwydd drwy sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

3.1.3. Mapio'r Llifiau Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor

Mae gwaith wedi parhau gyda mapio'r llifiau data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor i adnabod lle mae angen cytundeb, ac mae cynnydd wedi'i wneud gyda chreu cytundebau.

3.1.4. Archwiliad Diogelu Data

Yn y cyfnod rhwng Mawrth 2023 a Hydref 2023, ymwelodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion â 44 o'r 45 ysgol unigol i adolygu cydymffurfiaid a threfniadau diogelu data, gan dreulio oddeutu **93 awr** mewn ysgolion. Mae'r ysgol olaf wedi trefnu ymweliad ar gyfer mis nesaf.

Mae ysgolion wedi neu ar fin derbyn adroddiad yn dilyn yr ymweliad, yn manylu ar gynnydd o fewn gwahanol feysydd ac mae sgôr risg cyffredinol wedi'i roi. Mae camau gweithredu sydd angen eu cymryd hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Mae'n amlwg bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud o ran cydymffurfiaeth diogelu data. Mae ysgolion wedi mabwysiadu polisïau diogelu data allweddol ac maent bellach yn y broses o fonitro eu cydymffurfiaeth eu hunain gyda'r polisïau hyn; mae gan ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd trosfwaol, mae ysgolion wedi gwella diogelwch eu gwybodaeth bersonol gorfforol ac electronig ymhellach, mae mwy o staff a llywodraethwyr ysgol wedi derbyn hyfforddiant diogelu data a hyfforddiant diogelu data mwy pwnc-benodol, ac mae gan fwy o ysgolion gytundebau yn eu lle gyda phroseswyr data a ddefnyddir ar gyfer gwahanol apiau a rhaglenni. Mae hyn oll yn gwella cydymffurfiaid ysgolion â diogelu data a gallant arddangos eu hatebolrwydd yn well, sy'n welliant cadarnhaol.

Bydd archwiliad diogelu data yn cael ei gynnal gyda phob ysgol yn flynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn gofynion allweddol ac i ddarparu trosolwg i ysgolion ar feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Trefnir i'r ymweliadau archwilio nesaf ddigwydd rhwng Mawrth a Mehefin 2024.

3.2. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-2024

Mae *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-24* wedi'i datblygu ar gyfer y flwyddyn ysgol bresennol (gweler copi o'r strategaeth yn ATODIAD B).

Mae'r canlynol yn cynnwys manylion ynglŷn â chynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â gweithredoedd sy'n ychwanegol i'r rhai a gynhwysir dan eitemau 3.1 a 2.2:

3.2.1 Rhannu Templed Cynllun Cyhoeddi Newydd

Mae angen adolygu'r templed Cynllun Cyhoeddi presennol a'i ffocysu'n fwy ar ddogfennau a gwybodaeth gwirioneddol y mae ysgolion yn eu cyhoeddi. Mae drafft wedi'i ddatblygu ond mae angen ei rannu â'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion am eu mewnbwn a'u cymeradwyaeth.

Yn dilyn cymeradwyaeth o'r templed, bydd yn cael ei rannu ag ysgolion i'w addasu i adlewyrchu eu hamgylchiadau unigol a bydd angen ei fabwysiadu a'i wneud ar gael yn gyhoeddus (i'w rannu ar wefannau ysgolion neu drwy ffyrdd priodol eraill).

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cynnig cefnogaeth i ysgolion addasu'r templed.

4. **Datblygiadau a Gweithgareddau Cyfredol**

4.1. Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion

Sefydlwyd y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion yn Ebrill 2022 ac mae wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd.

Mae'r grŵp yn fforwm lle gall ysgolion ddarparu mewnbwn ac adborth ar faterion a datblygiadau diogelu data.

Mae cynrychiolydd o bob dalgylch yn ffurfio aelodaeth o'r grŵp, gyda chynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hefyd cynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cadeirio cyfarfodydd, a Rheolwr Contractau a Gwasanaethau'r Gwasanaeth Dysgu a chynrychiolydd o Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth TG yn aelodau.

Mae'r grŵp yn gweithio ar ddarnau penodol o waith a fydd yn cefnogi datblygiadau pellach. Mae'r grŵp hwn yn fforwm pwysig fel bod ysgolion yn rhan o ddatblygiadau a'u bod yn gallu darparu adborth a mewnbwn.

4.2. Diweddariad a Newyddlen Diogelu Data Ysgolion Tymhorol

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn darparu diweddariadau rheolaidd i ysgolion, sy'n cynnwys rhannu newyddlen dymhorol. Hyd yn hyn, mae ysgolion wedi derbyn 7 newyddlen, gyda 3 wedi bod yn ystod y cyfnod adrodd hwn (Ebrill, Mehefin a Medi).

Mae adran diogelu data ysgolion hefyd yn y bwletin llywodraethwyr ysgol.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion hefyd yn cael ei gwahodd yn rheolaidd i fynychu'r Fforwm Strategol Cynradd ac Uwchradd i drafod materion diogelu data sy'n peri pryder, ac mae hefyd yn aelod o Fforwm Pencampwyr Digidol Môn a'r Gweithgor Gwella Prosesau a Systemau.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion hefyd yn darparu diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth yn ymwneud â diogelu data drwy fwletin wythnosol y Gwasanaeth Dysgu.

Mae cynnwys yn parhau i gael ei ychwanegu i'r dudalen diogelu data ar feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu lle mae'r holl bolisïau, arweiniad a thempledi ar gael i ysgolion eu defnyddio.

4.3. Uwchraddiadau a Gwelliannau i Drefniadau TGCh

Mae diweddariadau a gwelliannau TGCh wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn ac yn cael effaith ar y rhaglen diogelu data.

Mae'r holl ysgolion bellach wedi galluogi Dilysu Aml-ffactor (MFA) ar gyfrifon HWB perthnasol staff i wella diogelwch wrth gael mynediad at HWB o adref. Mae hyn hefyd wedi digwydd ar gyfer nifer o gyfrifon HWB ar gyfer llywodraethwyr ysgol. Mae hyn wedi digwydd fel rhan o'r rhaglen genedlaethol gan HWB.

Mae'r holl ysgolion cynradd wedi trosglwyddo i InTune, ac mae gwaith yn cael ei wneud yn yr ysgolion uwchradd ar hyn o bryd. Mae hyn yn gwella diogelwch mynediad ar ddyfeisiau ysgol.

5. Nifer y Digwyddiadau Diogelwch Data, Ceisiadau gan Wrthrych y Data a Chwynion Diogelu Data

Y canlynol yw'r nifer o ddigwyddiadau diogelwch data, ceisiadau gan wrthrych y data a chwynion diogelu data gan ysgolion y mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion ar eu cyfer:

| | Chwefror 2023 – Tachwedd 2023 | Tachwedd 2021 – Ionawr 2023 |
|---|---|---|
| Nifer y digwyddiadau diogelwch data yr adroddwyd | 15 (gyda 3 yn adroddadwy i'r ICO) | 9 (gyda 0 yn adroddadwy i'r ICO) |
| Nifer y ceisiadau gan wrthrych y data | 18 (gyda 9 yn gyngor yn unig a 9 yn cynnwys paratoi/gwirio data) | 9 |

| | | |
|-------------------------------------|----------|----------|
| Nifer y cwynion diogelu data | 0 | 2 |
|-------------------------------------|----------|----------|

Mae mwy o ddigwyddiadau diogelwch data wedi bod yn ystod y cyfnod hwn na'r cyfnod adrodd blaenorol. Gall hyn fod oherwydd bod gan ysgolion gwell dealltwriaeth o'r hyn a ddiffinnir fel digwyddiad diogelwch data a'r angen i hysbysu'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion pan fo digwyddiad yn codi. Mae'r ICO wedi cadarnhau nad oes angen camau gweithredu pellach ar gyfer 2 o'r digwyddiadau diogelwch data yr adroddwyd, ac nid yw'r ICO wedi darparu ei ganfyddiadau ar y trydydd digwyddiad eto.

Mae'r nifer o geisiadau gan wrthrych y data mae ysgolion wedi eu derbyn wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Mae unigolion neu rieni wedi bod yn ymarfer eu hawliau llawer yn fwy ac mae ysgolion wedi bod yn cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Mae rhai ysgolion wedi gofyn am gyngor, a rhai wedi gofyn am gefnogaeth wrth ddarparu'r data personol perthnasol neu wirio bod yr ysgol wedi duo'n gywir neu wedi cymhwyso'r eithriadau cywir yn eu hymatebion.

Nid oes unrhyw gwynion wedi'u derbyn drwy'r ICO yn ystod y cyfnod hwn.

6. Digwyddiad Seiber Ysgolion Uwchradd

Darganfuwyd ar y 23^{ain} o Fehefin 2021 bod achos posib o seiber-ddigwyddiad wedi bod, yn effeithio ar bob un o'r pum ysgol uwchradd sydd ar Ynys Môn - Ysgol Syr Thomas Jones; Ysgol Uwchradd Bodedern; Ysgol Gyfun Llangejni; Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Caergybi.

Comisiynwyd tîm o ymgynghorwyr technoleg seiber arbenigol ar unwaith gan y Cyngor i ymchwilio i'r digwyddiad. Roedd y National Cyber Security Centre (NCSC) hefyd yn rhoi cefnogaeth i ddatrys materion. Ni ddaeth dadansoddiad fforensig o'r digwyddiad seiber o hyd i unrhyw dystiolaeth bod systemau TGCh wedi'u hymdreiddio na'u cyfaddawdu.

Adroddwyd ar y digwyddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) oherwydd y risg posibl i'r cofnodion sensitif iawn a gadwir gan yr ysgolion.

Yn dilyn y digwyddiad, ffurfiwyd rhaglen waith fewnol a oedd yn cynnwys sawl cam adfer pellgyrhaeddol pwysig i fynd i'r afael ag elfennau llywodraethu gwybodaeth technegol amrywiol yr oedd yn ddiffygiol.

Rhannodd yr ICO ei ganlyniad gyda'r Cyngor ym mis Mai 2023, gan gadarnhau nad oedd angen ymyrraeth bellach ganddynt.

Mae'n glir bod gallu'r Cyngor i adnabod beth oedd angen ei fabwysiadu a'i wella yn dderbyniol i'r ICO, a bod hyn wedi atal ymyrraeth bellach. Yn ogystal â hyn, cynhigiodd yr ICO anogaeth i barhau gyda'r gwelliannau technegol a llywodraethu

diogelu data yn yr ysgolion, sydd wedi digwydd drwy'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion a swyddogion Gwasanaeth TGCh y Cyngor.

Am fanylion o'r cynnydd parthed llywodraethiant diogelu data a gwelliannau TGCh ers y digwyddiad, gwelir ATODIAD C.

7. Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – Tachwedd 2023

Ers yr adroddiad diwethaf a gyhoeddwyd yn Ionawr 2023, mae gan ysgolion y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gydymffurfio â gofynion dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae ysgolion wedi mabwysiadu'r mwyafrif o bolisïau yn ffurfiol ac wedi cychwyn y broses o fonitro a thystiolaethu eu cydymffurfiaid â phob polisi diogelu data. Bydd hyn yn cynorthwyo ysgolion i sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol i leihau risgiau diogelu data a chefnogi ysgolion i dystiolaethu eu hatebolrwydd a'u cydymffurfiaid.

Mae'r **ymarferion** rheoli gwybodaeth dyddiol yn yr ysgolion wedi parhau i wella. Mae mwy o staff ysgolion wedi derbyn **hyfforddiant** diogelu data yn ystod y cyfnod hwn, ac mae hyn wedi cefnogi ysgolion i wella eu hymarferion. Mae mwy o lywodraethwyr ysgol hefyd wedi derbyn hyfforddiant neu wedi bod yn gynulleidfa i gyflwyniad diogelu data sydd hefyd wedi gwella eu dealltwriaeth o rwymedigaethau'r ysgol dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Mae darnau mwy penodol o waith bellach angen eu cwblhau, gan gynnwys ysgolion yn addasu'r templed ROPA a Rhestr o Asedau Gwybodaeth sydd wedi'i boblogi o flaen llaw, sicrhau bod DPAAu ar waith ar gyfer apiau a rhaglenni a ddefnyddir, creu DPAAu lle mae prosesu risg uchel, a chael *Cynllun Parhad Busnes* a *Chynllun Adfer Trychineb* ar waith.

Mae ysgolion yn parhau i ddangos eu bod yn deall eu **cyfrifoldebau** a'r goblygiadau fel y rheolydd data a'r disgwyliadau cyfreithiol o hynny. Mae ysgolion yn parhau i arddangos fod ganddynt well dealltwriaeth o'u rhwymedigaethau diogelu data ac wedi bod yn rhoi mwy o flaenoriaeth i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i gydymffurfio â gofynion dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Mae ysgolion yn parhau i ymfyn am gyngor ac arweiniad mewn perthynas â materion diogelu data gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

| Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Tachwedd 2023) | Sicrwydd Rhesymol |
|---|-------------------|
| Mae'r mwyafrif o ysgolion bellach wedi mabwysiadu'r polisïau diogelu data allweddol ac yn monitro eu cydymffurfiaid â pholisïau unigol. Mae ymarferion wedi parhau i wella, gyda staff a llywodraethwyr â gwell gwybodaeth o rwymedigaethau diogelu data drwy sesiynau hyfforddiant a chyflwyniadau. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran sicrhau bod gan ysgolion y Cytundebau Diogelu Data gofynnol ar gyfer apiau a rhaglenni a ddefnyddir a gydag uwchraddio diogelwch systemau TGCh a diogelwch cyffredinol o amgylch data corfforol ac electronig. Mae gan y mwyafrif o ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd ac mae cyfathrebu rheolaidd rhwng | |

y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac ysgolion drwy newyddlenni ac ymweliadau archwilio blynyddol. Mae angen ymgymryd â gwaith pellach ar ddarnau penodol o waith i sicrhau bod pob ysgol ar yr un lefel o gydymffurfio ac yn agosach at gydymffurfio'n llawn, a'u bod yn gallu tystiolaethu hyn.

8. Casgliadau a Chamau Nesaf

8.1. Casgliadau

- Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud mewn perthynas â'r gweithredoedd yn y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion* ac mae pob ysgol yn dod i gydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach wedi mabwysiadu'r polisiau diogelu data allweddol ac yn monitro eu cydymffurfiaeth â pholisiau unigol.
- Mae'r mwyafrif o staff ysgolion bellach wedi derbyn hyfforddiant diogelu data o leiaf unwaith, gyda llawer o ysgolion wedi derbyn hyfforddiant mwy thematig. Mae nifer o lywodraethwyr ysgol hefyd wedi derbyn cyflwyniad ac wedi gwella eu dealltwriaeth o rwymedigaethau diogelu data'r ysgol.
- Mae ysgolion yn parhau i gael mewnbwn i ddatblygiadau a darnau o waith yr ymgymryd â hwy i symud y rhaglen diogelu data yn ei blaen drwy'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion.
- Mae cynnydd yn parhau gydag uwchraddio a chryfhau systemau, isadeiledd a diogelwch TGCh, gyda MFA yn cael ei alluogi ar gyfrifon HWB staff a llywodraethwyr a chyflwyniad InTune.
- Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol, gyda'r mwyafrif o ysgolion wedi rhannu'r rhain â rhieni ac wedi rhoi eu fersiynau cyffredinol a phlant a phobl ifanc ar wefan yr ysgol.
- Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi ymgymryd ag ymweliad archwilio i ysgolion unigol i fonitro cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau diogelu data eto eleni, sy'n rhoi mewnwleidiad amhrisiadwy o ble mae ysgolion unigol arni o ran cydymffurfiaeth yn ogystal ag amlygu pa gefnogaeth sydd ei hangen.
- Mae cynnydd pellach wedi'i wneud, ond parhau i adolygu a chreu Cytundebau Prosesu Data addas ar gyfer yr holl apiau a rhaglenni presennol a newydd a ddefnyddir gan ysgolion.

8.2. Camau Nesaf

- Monitro bod ysgolion yn monitro eu cydymffurfiaeth eu hunain gyda phob polisi diogelu data.
- Parhau i greu ac adolygu Cytundebau Prosesu Data ar gyfer apiau a rhaglenni presennol a newydd, gan gynnwys cytundebau ar gyfer apiau a rhaglenni ble mae'r Cyngor hefyd ynghlwm.
- Parhau i ddarparu hyfforddiant diogelu data cyffredinol a phenodol i holl staff a llywodraethwyr ysgol gan fod hyn wedi cyfrannu at sicrhau bod pawb o fewn strwythur yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data.
- Parhau i fonitro bod pob ysgol wedi cael gwared yn ddiogel â dogfennau hanesyddol i sicrhau na chadwir unrhyw wybodaeth heibio ei chyfnod cadw.

- Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond mae angen gwneud gwaith pellach ar sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol, a bod Aseidiadau Effaith Diogelu Data'n cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel.
- Mae templed ROPA a Rhestr o Asedau Gwybodaeth sydd wedi'i boblogi o flaen llaw wedi'i greu ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae angen ei gymeradwyo'n derfynol fel y gall ysgolion ei addasu ar gyfer eu hanghenion unigol. Sesiynau i'w cynnal i gefnogi ysgolion i addasu'r templed.
- Gwneud y *Cynllun Parhad Busnes* a'r *Cynllun Adfer Trychineb* yn derfynol a'u rhannu ag ysgolion i'w mabwysiadu.
- Gwneud swyddogaethau monitro yn derfynol a'u mabwysiadu i fonitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i benaethiaid a staff ysgolion ddarparu adborth ar sesiynau hyfforddi ac ansawdd a defnyddioldeb y gwasanaeth, cyngor ac arweiniad a ddarperir dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.
- Cwblhau darn o waith i gadarnhau pa gofnodion sydd angen eu trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd er mwyn sicrhau bod proses glir ac unffurf i bob ysgol ei defnyddio.
- Creu templed Cynllun Cyhoeddi newydd i ysgolion ei addasu a'i fabwysiadu.
- Adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol ar gyfer y gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024.
- Ail-sgorio'r atebion i'r cwestiynau GDPR ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol er mwyn rhoi darlun presennol yn dilyn gweithredu'r camau gweithredu yn y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion*. Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gynnal sesiynau i ddarparu cefnogaeth i benaethiaid i ail-sgorio'r atebion.
- Paratoi ar gyfer y newidiadau fydd yn digwydd o ganlyniad i'r *Data Protection and Digital Information Bill (DPDI)* yn cael ei basio ac yn disodli *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018*. Gwneud y newidiadau sydd eu hangen i bolisiâu, dogfennau allweddol a hyfforddiant a sicrhau bod ysgolion yn llawn ymwybodol o'r newidiadau ac yn cydymffurfio.

ATODIAD A

STRATEGAETH DATBLYGU DIOGELU DATA YSGOLION YNYS MÔN 2022-2023
Fersiwn Un

Tudalen 34

| Rhif | Polisi, Canllawiau, Dogfennau Allweddol / Gweithgaredd | Dyddiad Cyflwyno i'r Ysgolion i Fabwysiadu / Cychwyn y Gwaith | Hyfforddiant / Codi Ymwybyddiaeth / Cymorth ar Gael | Dyddiad Targed i Gwblhau * |
|------|--|---|---|--|
| 1 | Mapio Llif Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor Mapio'r llif data, 'data flows', rhwng yr ysgolion a'r Cyngor er mwyn adnabod ble mae angen cytundeb a chreu DPA addas. | Medi 2021 | Mapio llif data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor a chreu cytundebau addas ar gyfer unrhyw drefniant sydd ar waith. | Gwaith mapio wedi ei gwblhau erbyn 17.02.23 |
| 2 | Adolygu Trefniadau gyda Phroseswyr Data Adolygu trefniadau rhwng ysgolion unigol a phroseswyr data a chwblhau unrhyw DPA sydd ei angen. | Medi 2021 | Adolygu trefniadau gyda phroseswyr data; cwblhau unrhyw DPA sydd ei angen ac asesu bod cytundebau gan ddarparwyr yn cyrraedd gofynion. Creu llyfrgell o'r holl ddogfennau DPA a chytundebau eraill. | Cael y <u>prif</u> cytundebau ar waith erbyn 17.02.23 (gwaith hwn yn mynd yn ei flaen yn barhaol) |
| 3 | Hyfforddiant Diogelu Data Llywodraethwyr Ysgol | Hydref 2022 | SDDY i gynnal sesiwn hyfforddiant diogelu data gyda llywodraethwyr Ysgol. | Sesiwn yn cael ei chynnal ar 20.10.22 |
| 4 | Rhannu polisiâu i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan y Bwrdd Llywodraethu (Pecyn Cam 5) | Tachwedd 2022 | SDDY i gynnal sesiwn fesul dalgylch er mwyn rhoi hyfforddiant ar gynnwys y pecyn polisiâu a phecyn ffurflenni caniatâd. | Mabwysiadu'r polisiâu a nodi eu bod wedi eu mabwysiadu ar yr ARhY erbyn 17.02.23 |
| 5 | Rhannu Pecyn Ffurflenni Caniatâd | Tachwedd 2022 | SDDY i gynnal sesiwn fesul dalgylch er mwyn rhoi hyfforddiant ar gynnwys y pecyn a phecyn polisiâu Cam 5. | Mabwysiadu'r ffurflenni caniatâd newydd erbyn 17.02.23 |

| | | | | |
|----|---|-------------------------------|---|---|
| 6 | Rhannu Pecyn Cofnodion Gweithgareddau Prosesu a Chofrestr Asedau Gwybodaeth Ysgolion | Rhagfyr 2022 | SDDY i drefnu sesiynau cwblhau ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth gydag ysgolion sydd angen cymorth. | Cael ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth cyflawn a chyfredol a nodi eu bod wedi eu mabwysiadu ar yr ARhY erbyn 31.03.23 |
| 7 | Adolygu Polisi Diogelu Data Ysgolion <i>(hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol)</i> | Rhagfyr 2022 | | Mabwysiadu'r Polisi Diogelu Data Ysgolion diwygiedig a nodi ei fod wedi ei fabwysiadu ar yr ARhY erbyn 17.02.23 |
| 8 | Cyflwyniad Diogelu Data yn y Sesiwn Anwytho/Ail-gyfarwyddo Penaethiaid | Ionawr 2023 | SDDY i roi cyflwyniad diogelu data yn y sesiwn anwytho/ail-gyfarwyddo penaethiaid. | Sesiwn yn cael ei chynnal ar 18.01.23 |
| 9 | Hyfforddiant Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a Pholisi E-byst Staff Ysgolion | Ionawr 2023 | Cynnal sesiynau hyfforddiant gyda staff ysgolion. | Sesiynau wedi eu cynnal erbyn 06.04.23 |
| 10 | Cwblhau Dogfennau DPIA Rhannu templedi cyffredinol DPIA ag ysgolion unigol i'w haddasu. Cychwyn gyda systemau CCTV. | Ionawr 2023 | Rhannu llyfrgell o'r holl dempledi DPIA er mwyn gallu eu haddasu ar gyfer ysgolion unigol. | Ysgolion i gael y <u>prif</u> ddogfennau DPIA ar waith erbyn 06.04.23 (gwaith hwn yn mynd yn ei flaen yn barhaol) |
| 11 | Creu Cynllun Adfer Trychineb a Pharhad Busnes | Ionawr 2023 | Creu cynllun gall ysgolion ei ddilyn os oes trychineb neu ddigwyddiad fel bod parhad busnes o gwmpas cael mynediad at wybodaeth bersonol. | Rhannu'r Cynllun Adfer Trychineb a Pharhad Busnes gydag ysgolion erbyn 06.04.23 |
| 12 | Hyfforddiant Diogelu Data Llywodraethwyr Ysgol | Mawrth 2023 | SDDY i gynnal sesiwn hyfforddiant diogelu data gyda llywodraethwyr ysgol. | Sesiwn yn cael ei chynnal ar 16.03.23 |
| 13 | Archwiliad Diogelu Data Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ymweld â phob ysgol unigol i adolygu trefniadau a chydymffurfiaeth diogelu data. | Mawrth 2023 - Mehefin 2023 | Sesiwn hanner diwrnod gyda phob ysgol unigol. | SDDY wedi cwblhau pob ymweliad unigol i ysgolion erbyn 30.06.23 |

*** Amserlen i'w hadolygu gyda'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion yn dymhorol.**

Gwaith fydd yn digwydd drwy'r flwyddyn ysgol:

- adolygu trefniadau gyda phroseswyr data a chwblhau unrhyw DPA sydd ei angen, ac adeiladu llyfrgell o asesiadau o'r cytundebau DPA;
- cwblhau unrhyw DPIAau sydd angen eu cwblhau ac adeiladu llyfrgell o ddogfennau DPIA;
- monitro pa bryd mae ysgolion wedi mabwysiadu polisïau a monitro cynnydd prif elfennau diogelu data drwy'r Adolygiad Rheolaeth Ysgol (ARhY).

ATODIAD B

STRATEGAETH DATBLYGU DIOGELU DATA YSGOLION 2023-24

DYDDIADAU ALLWEDDOL I YSGOLION WEITHREDU

FERSIWN 1

Tudalen 37

| Mis gweithred yn cychwyn | Gweithred | Dyddiad gweithred angen ei gwblhau erbyn |
|--------------------------|---|--|
| Hydref 2023 | <ul style="list-style-type: none"> • Addasu Templed Cofnodion Gweithgareddau Prosesu (ROPA) a Cofrestr Asedau Gwybodaeth Ysgolion (wedi ei boblogi yn barod) ar gyfer adlewyrchu trefniadau diogelu data penodol yr ysgol. Mi fydd sesiynau grŵp/sesiynau unigol yn cael eu cynnal lle bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn rhoi cymorth i ysgolion addasu'r templed. • (Os yn berthnasol)- Cwblhau DPIA CCTV- i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion gynnal cyfarfodydd gyda ysgolion unigol er mwyn cwblhau DPIA CCTV wedi ei addasu o'r templed DPIA CCTV safonol. | <p>Pob ysgol unigol gyda ROPA a Cofrestr Asedau Gwybodaeth ac wedi cadarnhau hyn ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol erbyn 09.02.24</p> <p>Pob ysgol gyda system CCTV i gyd gyda DPIA CCTV cyfredol ar gyfer eu hysgol unigol nhw erbyn 09.02.24</p> |
| Chwefror 2024 | <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion i fabwysiadu fersiynau diweddaraf o'r polisiau a'r canllawiau diogelu data wedi eu hadolygu: <ul style="list-style-type: none"> ○ Polisi Diogelu Data Ysgolion ○ Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion ○ Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion ○ Canllaw Diogelu Data Corff Llywodraethu Ysgolion ○ Canllaw ar Ddigwyddiadau Diogelwch Data | <p>Ysgolion wedi mabwysiadu ac wedi cadarnhau ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol erbyn 24.05.24</p> |

| | | |
|--|--|---|
| <p>Ebrill 2024</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion i dderbyn y fersiwn newydd o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth am wasanaeth y Swyddog Diogelu Data Ysgolion (cytundeb presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024). • Ail-sgorio Atebion Cwestiynau GDPR ar yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol er mwyn rhoi darlun cyfredol yn dilyn gweithredu ar gweithredoedd o fewn y Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion. Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gynnal sesiynau er mwyn rhoi cymorth i Benaethiaid ail-sgorio yr atebion. | <p>Ysgolion wedi derbyn ac arwyddo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd erbyn 24.05.24</p> <p>Sesiynau wedi eu cynnal a phob ysgol wedi ail-sgorio erbyn 28.06.24</p> |
| <p>Mawrth 2024 - Mehefin 2024</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal Archwiliad Diogelu Data Blynyddol- Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ymweld â phob ysgol unigol i adolygu trefniadau a cydymffurfiaeth diogelu data. I ganolbwyntio os mae ysgolion yn gallu tystiolaethu eu bod yn monitro eu cydymffurfiaeth â'r holl bolisiau diogelu data. | <p>Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi cwblhau pob ymweliad unigol i ysgolion erbyn 28.06.24</p> |

ATODIAD C

Gweithredoedd wedi eu Cwblhau fel Rhan o'r Rhaglen Waith Fewnol yn dilyn Digwyddiad Seiber Ysgolion Uwchradd

1. Trosolwg

Yn dilyn y digwyddiad yn Mehefin 2021, ffurfiwyd rhaglen waith mewnol a oedd yn cynnwys nifer o gamau adfer pwysig phellgyrhaeddol er mwyn cyfarch elfennau technegol a llywodraethu gwybodaeth amrywiol oedd yn ddiffygiol. Mae gwelliannau technegol a llywodraethu gwybodaeth wedi eu harwain gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a swyddogion Gwasanaeth TGCh y Cyngor.

2. Gwelliannau Llywodraethiant Diogelu Data

| Rhif | Gweithredoedd a Gwelliannau | Cynnydd ers Gorffennaf 2021 |
|------|--|---|
| 1 | Diweddarau polisïau diogelu data cyfredol a chreu polisïau newydd. | <p>Mae cyfanswm o 14 polisi diogelu data ar gyfer ysgolion wedi naill ai cael eu diweddarau yn dilyn mabwysiadu <i>UK GDPR</i> neu eu creu fel polisïau newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polisi Diogelu Data Ysgolion • Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion • Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion • Gweithdrefn Rhannu Gwybodaeth gyda Awdurdodau Heddlu'r Deyrnas Unedig (Gwynedd a Môn) • Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion • Polisi Prosesu Data Ysgolion • Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifdy Ynys Môn • Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion • Polisi CCTV Ysgolion • Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion • Polisi E-Ddiogelwch Ysgolion • Polisi E-bost Staff Ysgolion • Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion • Polisi Tynnu Lluniau at Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion. <p>Mae dogfen Rhestr Wirio Polisïau Diogelu Data wedi ei ddatblygu er mwyn cefnogi ysgolion i gadarnhau eu bod wedi gweithredu ar y prif ofynion oddi fewn i'r holl bolisïau diogelu data.</p> |

| | | |
|---|--|--|
| 2 | Sicrhau bod staff a llywodraethwyr ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu data a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cydymffurfiaeth diogelu data. | Mae sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal gyda phenaethiaid, staff ysgolion a llywodraethwyr. Mae cyfanswm o 51 sesiwn hyfforddiant wedi eu cynnal rhwng Gorffennaf 2021 a Thachwedd 2023 ac mae 25 corff llywodraethol wedi bod yn gynulleidfa i gyflwyniad diogelu data. |
| 3 | Defnyddio'r Adolygiad Rheolaeth Ysgol (ARhY) i fonitro cydymffurfiaeth ac i gadarnhau pa bolisiau sydd wedi eu mabwysiadu gan ysgolion. | Defnyddir yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol i gael gwybodaeth gwaelodlin parthed cydymffurfiaeth ac ar gyfer monitro pa ysgolion sydd wedi mabwysiadu pa bolisiau diogelu data. |
Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Ynys Môn a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll mewn cofnodi dyddlyfrau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan [enw'r corff llywodraeth leol a'r grŵp], yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ynys Môn; a
- Chael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y [Pwyllgor Archwilio] ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.
- Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ynys Môn a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
20 Rhagfyr 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4B

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethi. Mae'r Gwasanaethau yr adroddir arnynt isod yn seiliedig ar strwythur sefydliadol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn codi trethi i gwrdd â gwariant yn unol â rheoliadau, gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Ceir darlun o'r sefyllfa o ran trethi yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Tudalen 61

| 2022/23 | | | Gwasanaethau | Nodyn | 2021/22 | | |
|----------------|------------------|------------------|--|---------|----------------|------------------|------------------|
| Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | | | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| £'000 | £'000 | £'000 | | | £'000 | £'000 | £'000 |
| 84,301 | (16,540) | 67,761 | Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau | | 77,543 | (18,415) | 59,128 |
| 48,246 | (13,242) | 35,004 | Gwasanaethau Oedolion | | 46,593 | (16,887) | 29,706 |
| 22,207 | (7,088) | 15,119 | Gwasanaethau Plant | | 18,826 | (6,201) | 12,625 |
| 8,168 | (7,187) | 981 | Tai | | 8,214 | (6,484) | 1,730 |
| 33,479 | (9,921) | 23,558 | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | 31,252 | (9,192) | 22,060 |
| 16,910 | (9,691) | 7,219 | Rheoleiddio ac Economaidd | | 14,734 | (9,333) | 5,401 |
| 7,509 | (340) | 7,169 | Trawsnewid | | 6,653 | (291) | 6,362 |
| 27,838 | (16,803) | 11,035 | Adnoddau | | 31,969 | (22,723) | 9,246 |
| 2,347 | (217) | 2,130 | Busnes y Cyngor | | 2,337 | (427) | 1,910 |
| 3,384 | (723) | 2,661 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 2,996 | (781) | 2,215 |
| 673 | - | 673 | Rheolaeth Corfforaethol | | 588 | - | 588 |
| 93 | - | 93 | Costau heb eu ddsbarthu | | 26 | - | 26 |
| 14,982 | (19,942) | (4,960) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 16,029 | (19,457) | (3,428) |
| 270,137 | (101,694) | 168,443 | Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau | | 257,760 | (110,191) | 147,569 |
| | | 15,570 | Gwariant gweithredu arall | 10 | | | 17,076 |
| | | 10,990 | Cyllido ac incwm a gwariant buddsoddi | 11a | | | 9,559 |
| | | (189,647) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | 12 | | | (180,266) |
| | | 5,356 | (Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | | | | (6,062) |
| | | 10,822 | Colledion amhariad ar asedau anghyfredol sydd wedi eu rhoi yn erbyn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn | 9b | | | 1,924 |
| | | (12,139) | Gwarged ar ailbrisio asedau anghyfredol | 9b | | | (31,870) |
| | | (19,814) | Dileu Ased Pensiwn Net | 9c & 34 | | | - |
| | | (116,642) | Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net | 9c & 34 | | | (72,063) |
| | | (137,773) | Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | | | (102,009) |
| | | (132,417) | Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | (108,071) |

DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

Nod y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid (DGaC) yw dangos gwir effaith perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau'r Cyngor. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC) yn cynnwys llawer o addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant ac addasiadau pensiwn, na chaniateir iddynt, yn ôl y gyfraith, gael eu cyllido gan y Dreth Gyngor. Nid yw'r rhain yn gostau gwirioneddol sy'n effeithio ar falansau defnyddiadwy'r Cyngor. Er mwyn sicrhau nad yw'r costau cyfrifyddu hyn yn effeithio ar dalwyr y dreth gyngor a chronfeydd y Cyngor, caiff y costau hyn eu canslo yn yr DGaC ac fe'u dangosir hefyd yn y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn (DSCWG) a Nodyn 6.

Tudalen 62

| 2022/23 | | | Gwasanaethau | 2021/22 | | |
|--|--|--|---|--|--|--|
| Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A = C - B £'000 | Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B £'000 | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - C £'000 | | Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A = C - B £'000 | Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B £'000 | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - C £'000 |
| 60,297 | 7,464 | 67,761 | Cyfarwyddwr Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau | 49,554 | 9,574 | 59,128 |
| 31,720 | 3,284 | 35,004 | Gwasanaethau Oedolion | 26,279 | 3,427 | 29,706 |
| 13,388 | 1,731 | 15,119 | Gwasanaethau Plant | 10,899 | 1,726 | 12,625 |
| 354 | 627 | 981 | Tai | 1,144 | 586 | 1,730 |
| 16,305 | 7,253 | 23,558 | Priffydd, Eiddo a Gwastraff | 14,505 | 7,555 | 22,060 |
| 4,917 | 2,302 | 7,219 | Rheoleiddio a Economaidd | 2,954 | 2,447 | 5,401 |
| 5,883 | 1,286 | 7,169 | Trawsnewid | 5,123 | 1,239 | 6,362 |
| 10,353 | 682 | 11,035 | Adnoddau | 8,437 | 809 | 9,246 |
| 1,853 | 277 | 2,130 | Busnes y Cyngor | 1,558 | 352 | 1,910 |
| 3,430 | (769) | 2,661 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2,219 | (4) | 2,215 |
| 695 | (22) | 673 | Rheolaeth Corfforaethol | 567 | 21 | 588 |
| - | 93 | 93 | Costau heb eu dosbarthu | - | 26 | 26 |
| (1,404) | (3,556) | (4,960) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 357 | (3,785) | (3,428) |
| 147,791 | 20,652 | 168,443 | Cost Net Gwasanaethau | 123,596 | 23,973 | 147,569 |
| (144,605) | (18,482) | (163,087) | Incwm a Gwariant Arall | (141,616) | (12,015) | (153,631) |
| 3,186 | 2,170 | 5,356 | (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (18,020) | 11,958 | (6,062) |
| (58,000) | | | Balans agoriadol y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 1 Ebrill | (39,980) | | |
| 3,186 | | | Llai Gwarged ar falans y Gronfa Cyffredinol a'r CRT yn y flwyddyn | (18,020) | | |
| (54,814) | | | Balans cau y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 31 Mawrth | (58,000) | | |
| (42,707) | Yn cynnwys: | | | (45,667) | Yn cynnwys: | |
| (12,107) | Cronfa'r Cyngor | | | (12,333) | Cronfa'r Cyngor | |
| | CRT | | | | CRT | |
| (54,814) | | | | (58,000) | | |

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell (Diffyg) / Gwarged ar ddarparu gwasanaethau'n dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i bwrpas pennu'r Dreth Gyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas pennu rhenti. Mae'r llinell '(Gostyngiad)/Cynnydd Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn' clustnodedig yn dangos y symudiad yn y flwyddyn o falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cyngor wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig.

Tudalen 63

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor (Nodyn 7) £'000 | Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol) £'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 8) £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | Balansau Ysgolion (Nodyn 7) £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio (Nodyn 9) £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (y Cyngor) £'000 |
|--|------------------------------------|--|---|---|--------------------------------------|---|--|--|--|
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | 11,437 | 14,079 | 9,723 | 767 | - | 3,974 | 39,980 | 124,182 | 164,162 |
| Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | |
| Addasiad i'r balans agoriadol | | | | | | | - | | - |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (1,068) | - | 7,130 | - | - | - | 6,062 | - | 6,062 |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | 102,009 | 102,009 |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,068) | - | 7,130 | - | - | - | 6,062 | 102,009 | 108,071 |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6) | 14,129 | - | (3,785) | 1,614 | - | - | 11,958 | (11,958) | - |
| Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | 13,061 | - | 3,345 | 1,614 | - | - | 18,020 | 90,051 | 108,071 |
| Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 7) | (12,220) | 9,102 | (735) | - | - | 3,853 | - | - | - |
| (Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn | 841 | 9,102 | 2,610 | 1,614 | - | 3,853 | 18,020 | 90,051 | 108,071 |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | 12,278 | 23,181 | 12,333 | 2,381 | - | 7,827 | 58,000 | 214,233 | 272,233 |
| Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | |
| Addasiadau i'r balans agoriadol | | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (12,468) | - | 7,112 | - | - | - | (5,356) | - | (5,356) |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | 137,773 | 137,773 |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (12,468) | - | 7,112 | - | - | - | (5,356) | 137,773 | 132,417 |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6) | 9,956 | - | (7,338) | (448) | - | - | 2,170 | (2,170) | - |
| Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | (2,512) | - | (226) | (448) | - | - | (3,186) | 135,603 | 132,417 |
| Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | 4,273 | (3,544) | - | (25) | 407 | (1,111) | - | - | - |
| (Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn | 1,761 | (3,544) | (226) | (473) | 407 | (1,111) | (3,186) | 135,603 | 132,417 |
| Balans ar Mawrth 2023 | 14,039 | 19,637 | 12,107 | 1,908 | 407 | 6,716 | 54,814 | 349,836 | 404,650 |

Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2023

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Cyngor. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ond ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheini na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu, lle byddai'r arian ond ar gael i ddarparu gwasanaethau petai'r asedau'n cael eu gwerthu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn) a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, llinell 'Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo A Sail Gyllido Dan y Rheoliadau'.

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|-------|-------------------------|-------------------------|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 13 | 487,064 | 466,935 |
| Asedau Treftadaeth | 15 | 2,431 | 2,283 |
| Eiddo Buddsoddi | 16 | 6,579 | 6,117 |
| Asedau Anniriaethol | | 357 | 472 |
| Dyledwyr tymor hir | 18 | 1,234 | 1,076 |
| Asedau tymor hir | | 497,665 | 476,883 |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | | 1,065 | 672 |
| Rhestrau stoc | | 392 | 297 |
| Dyledwyr tymor byr | 18 | 38,855 | 42,997 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 35a | 22,500 | 7,500 |
| Arian a chywerthoedd arian | 19 | 19,740 | 44,478 |
| Asedau Cyfredol | | 82,552 | 95,944 |
| Benthyca tymor byr | 35b | (4,111) | (4,564) |
| Credydwyr tymor byr | 20 | (34,569) | (34,573) |
| Darpariaethau tymor byr | 21 | (702) | (505) |
| Derbyniadau grantiau ymlaen llaw | 30 | (4,735) | (11,615) |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | | (44,117) | (51,257) |
| Credydwyr tymor hir | 20 | (158) | (162) |
| Darpariaethau tymor hir | 21 | (4,335) | (4,411) |
| Benthyca tymor hir | 35b | (121,557) | (122,677) |
| Derbyniadau grantiau tymor hir ymlaen llaw | 30 | (5,400) | (888) |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 34 | - | (121,199) |
| Rhwymedigaethau tymor hir | | (131,450) | (249,337) |
| Asedau net | | 404,650 | 272,233 |
| Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio | MIRS | 54,814 | 58,000 |
| Cronfeydd wrth gefn nad na ellir eu defnyddio | 9 | 349,836 | 214,233 |
| Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn | | 404,650 | 272,233 |

DATGANIAD LLIF ARIAN – AM Y FLWYDDYN A DDAETH i BEN 31 MAWRTH 2023

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian parod a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol. Dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio arian parod a chywerthoedd arian trwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a gyllidir trwy drethiant ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r all-llif arian ar gyfer adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld yr hawl a fydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

Tudalen 65

| | Nodyn | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|-------|------------------|------------------|
| Gwarged /(Diffyg) Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | (5,356) | 6,062 |
| Eitemau di-arian a godir ar gyfrifon Incwm a Gwariant | 22 | 45,148 | 52,531 |
| Eitemau arian ni chodir ar gyfrif Incwm a Gwariant | 22 | (11,388) | (10,283) |
| Symudiad mewn Asedau Cyfredol net | 22 | 1,634 | 5,770 |
| Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwaged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu cyllido | 22 | (20,815) | (22,633) |
| Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu | | 9,223 | 31,447 |
| Llif arian net o Weithgareddau Buddsoddi | 23 | (32,387) | (16,534) |
| Llif arian net o Weithgareddau Cyllido | 24 | (1,574) | 825 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd Net mewn Arian Parod a Chywerthoedd Arian | | (24,738) | 15,738 |
| Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar gychwyn y flwyddyn ariannol | | 44,478 | 28,740 |
| Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol | 19 | 19,740 | 44,478 |

NODIADAU I'R CYFRIFON**NODYN 1 – NODYN AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO****2022/23**

| Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf | Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn | Gwahaniaethau statudol eraill | Cyfanswm Addasiadau |
|--|---|---|--------------------------------------|----------------------------|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg, Pobl ifanc a Sgiliau | 4,328 | 2,783 | 353 | 7,464 |
| Gwasanaethau Oedolion | 558 | 2,674 | 52 | 3,284 |
| Gwasanaethau Plant | 322 | 1,387 | 22 | 1,731 |
| Tai | 125 | 501 | 1 | 627 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 5,916 | 1,355 | (18) | 7,253 |
| Rheoleiddio a Economaidd | 1,040 | 1,271 | (9) | 2,302 |
| Trawsnewid | 446 | 839 | 1 | 1,286 |
| Adnoddau | 16 | 709 | (43) | 682 |
| Busnes y Cyngor | - | 286 | (9) | 277 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 1 | (770) | - | (769) |
| Rheolaeth gorfforaethol | - | - | (22) | (22) |
| Costau Na Ddosbarthwyd | - | 93 | - | 93 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | (4,465) | 905 | 4 | (3,556) |
| Cost net Gwasanaethau | 8,287 | 12,033 | 332 | 20,652 |
| Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido | (21,706) | 3,224 | - | (18,482) |
| Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddiffyg | (13,419) | 15,257 | 332 | 2,170 |

2021/22

| Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf | Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn | Gwahaniaethau statudol eraill | Cyfanswm Addasiadau |
|--|---|---|--------------------------------------|----------------------------|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Dysgu Gydol Oes | 6,372 | 3,064 | 138 | 9,574 |
| Gwasanaethau Oedolion | 550 | 2,931 | (54) | 3,427 |
| Gwasanaethau Plant | 145 | 1,527 | 54 | 1,726 |
| Tai | 58 | 526 | 2 | 586 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 5,957 | 1,502 | 96 | 7,555 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 942 | 1,602 | (97) | 2,447 |
| Trawsnewid | 455 | 774 | 10 | 1,239 |
| Adnoddau | 16 | 797 | (4) | 809 |
| Busnes y Cyngor | - | 355 | (3) | 352 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 531 | (535) | - | (4) |
| Rheoli Corfforaethol | - | - | 21 | 21 |
| Costau Na Ddosbarthwyd | - | 26 | - | 26 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | (4,571) | 777 | 9 | (3,785) |
| Cost net Gwasanaethau | 10,455 | 13,346 | 172 | 23,973 |
| Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido | (15,669) | 3,654 | - | (12,015) |
| Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddiffyg | (5,214) | 17,000 | 172 | 11,958 |

NODYN 2 – SAFONAU CYFRIFO SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI EU MABWYSIADU HYD YMA

Yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 (y Côt), mae'n rhaid datgelu effaith ddisgwyliedig unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi eu mabwysiadu hyd yma.

Y safonau newydd neu ddiwygiedig sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi eu mabwysiadu hyd yma yw: -

- Diffiniad o amcangyfrifon cyfrifeg (diwygiadau i SCRh8) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021;
- Datgelu polisïau cyfrifeg (diwygiadau i ddatganiad ymarfer SCRh1 ac SAARh 2), Chwefror 2021.

Ni ddisgwylir i unrhyw un o'r safonau newydd neu ddiwygiedig o fewn Cod 2022/23 gael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, bydd yr uchod yn arwain at adroddiadau gwell.

Mae gweithredu SAARh 16 – Prydlesi, wedi'i ohirio hyd at y flwyddyn ariannol 2024/25. Bydd SAARh 16 yn cyflwyno newidiadau sylweddol i gyfrifyddu ar gyfer prydlesi. Yn benodol, ar gyfer eiddo, a chyfarpar, offer ac asedau tebyg a brydlesir gan awdurdodau lleol. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi'r holl asedau sylweddol a brydlesir a'u cynnwys ar fantolenni pob awdurdod fel pe bai pob Cyngor yn berchen arno o 1 Ebrill 2024.

NODYN 3 – BARNAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 41, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud barnau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu rheini sydd yn cynnwys ansicrwydd am ddirwyddiadau yn y dyfodol. Y barnau allweddol sydd wedi eu gwneud yn y Datganiad Cyfrifon yw:-

- Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi mewn modd sy'n tybio y bydd y swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Corff llywodraeth leol yw'r Cyngor a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn hinsawdd ariannol anodd, yr un modd â phob awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw arwyddion naill ai o berfformiad ariannol yr Awdurdod na chynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n tanseilio'r farn y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu fel sefydliad hyfyr yn y dyfodol.
- Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw nifer o asedau a ddefnyddir i ddibenion cymdeithasol neu ddatblygu economaidd, stad tyddynnod Cyngor yw'r un mwyaf nodedig yn cael eu dal i bwrpas creu incwm neu gynyddu cyfalaf yn unig ac, o'r herwydd, nid ydynt yn cael eu hystyried fel eiddo buddsoddiad. O ganlyniad, caiff yr asedau hyn eu nodi fel Asedau Anghfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen.

NODYN 4 – RHAGDYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH ANSICRWEYDD YN Y DYFODOL AC AMCANGYFRIFON A FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWEYDD

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcang

yfrif yn seiliedig ar ragdybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon drwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir bennu balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2023 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gangymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod: -

Asedau Anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar (PPE) - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifo. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 13 a nodyn 13b Asedau Seilwaith. Gwerth asedau PPE y Cyngor ar 31 Mawrth 2023 oedd £487.063m (£466.935m at 31 Mawrth 2022).

Darpariaethau – Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaethau sy'n cyfateb i £5.037m (£4.915m ar 31 Mawrth 2022) ar gyfer materion ansicr all arwain at gostau sylweddol mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chostau ôl-ofal ar gyfer safle tirlenwi Penhesgyn a rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o hawliadau yswiriant. Ceir manylion llawn yn Nodyn 21.

Rhwymedigaeth Pensiynau – Mae Actiwari'r Cyngor wedi priso'r Gronfa Bensiwn fel ased o £19.814m. Mae hyn oherwydd newid yn y rhagdybiaethau y mae'r Actiwari wedi'u defnyddio mewn perthynas â'r ffactor disgownt a ddefnyddir i gyfrifo faint fydd rhwymedigaethau pensiwn y dyfodol ar brisiau heddiw fel y gellir ei gymharu â gwerth cyfredol/gwerth y farchnad buddsoddiadau ac asedau. (adroddwyd ar atebolrwydd o £121.199m am y gwerth ar 31 Mawrth 2022). Mae prisiad cyfrifeg y pensiwn yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â chyfraddau disgownt, codiadau cyflog rhagamcanol, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac enillion disgwylidig ar asedau pensiwn. Mae cwmni o actiwariâu ymgynghorol yn cael ei gyflogi gan y Cyngor gweinyddu i roi cyngor arbenigol ar y rhagdybiaethau sydd i'w cymhwyso. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 34 a'r adroddiad naratif. Mae'r nodyn yn cynnwys y gwaged, fodd bynnag, fel yr amlinellir yn yr adroddiad naratif, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y fantolen oherwydd cyfyngiadau a ragnodir gan SCRh19 ac IFRIC14 ar gyfrifo pensiynau.

Lwfans Colli Nam a darpariaethau Dyledion Gwael – Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor falans o £40.089m o ran dyledion net. Awgrymodd adolygiad o'r balans dyledion fod swm amhariad o £8.149m yn briodol ar gyfer dyledion amheus. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigur lwfans colledion amhariad / darpariaeth ar gyfer drwgddyledion wedi ei gynnwys yn y ffigurau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 18.

Mesur Gwerth Teg – Mae y mwyafrif o asedau anghyfredol y Cyngor yn cael eu mesur ar Werth Teg, gyda'r eithriad o isadeiledd sydd werth £68.807m, asedau cymunedol gwerth £259k, asedau sy'n cael eu hadeiladu werth £29.034m ac offer, cerbydau a chyfarpar sydd werth £11.746m. Mae'r rhain i gyd yn cael eu priso ar gost hanesyddol wedi'i ddibrisio. Mae Nodyn 41 adrannau 7 ac 8 yn darparu mwy o wybodaeth ar hyn.

NODYN 4b – ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISIÄU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Nid oedd yna addasiadau cyfnod blaenorol. Mae newidiadau mewn polisiâu cyfrifo neu acamgyfrifon wedi eu nodi ar wahân uchod.

NODYN 5 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng 31 Mawrth 2023 a 30 Mehefin 2023 awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon terfynol i'w gyhoeddi.

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi gwybod am ddigwyddiadau perthnasol sydd wedi digwydd yn dilyn y cyfnod adrodd, sef 31 Mawrth 2023, hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon terfynol archwiliedig ar 19 Rhagfyr 2023.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau, rhwng y cyfnod adrodd a dyddiad cyflwyno'r cyfrifon terfynol archwiliedig i'r Cyngor Llawn a'u llofnodi, lle bu'n rhaid i'r Cyngor addasu'r cyfrifon.

Roedd un digwyddiad perthnasol rhwng 31 Mawrth 2023 a 19 Rhagfyr 2023 ond nid oedd rhaid addasu'r cyfrifon, sef: Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) - mae RAAC yn fath o goncrid ysgafn a oedd yn cael ei ddefnyddio rhwng canol y 1950au a'r 1990au ac sy'n bresennol mewn nifer o adeiladau cyhoeddus. Mae pobl wedi bod yn ymwybodol o wendid RAAC ers y 1990au ac ers 2019 mae'r Cyngor wedi bod yn archwilio ei adeiladu rhag ofn bod RAAC yn bresennol. Cadarnhawyd bod RAAC yn bresennol mewn dwy ysgol: Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Caergybi. Cafodd y risgiau cysylltiedig eu rheoli drwy gynnal archwiliadau rheolaidd yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth. Daeth pob archwiliad i'r casgliad nad oedd unrhyw risgiau neu byderon brys.

Ar 31 Awst 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau newydd ar RAAC mewn lleoliadau addysgol. Roedd hyn o ganlyniad i nifer o ddigwyddiadau dros fisoedd yr haf a oedd wedi dwysau'r risgiau diogelwch yn gysylltiedig â RAAC.

Bu'n rhaid cau'r ddwy ysgol a oedd wedi'i heffeithio ar ddechrau'r tymor academaidd er mwyn caniatáu i archwiliadau diogelwch gael eu cwblhau. Mae rhan fach o Ysgol David Hughes wedi'i heffeithio ac mae'r ardal hon ar gau tra bo gwaith atgyweirio ac atgyfnerthu yn mynd rhagddo. Mae'r holl ddisgyblion yn ôl yn yr ysgol ond ni fyddant yn cael defnyddio'r ardal hon nes bo'r gwaith wedi'i gwblhau. Mae RAAC yn bresennol mewn rhan sylweddol o Ysgol Uwchradd Caergybi a bydd nifer o'r blociau ar gau nes bo'r gwaith gwella a chryfhau wedi'i gwblhau. Trefnwyd gwersi ar-lein yn gyflym iawn o'r 7fed o Fedi 2023 ac ar yr 11eg o Fedi 2023 agorwyd yr ysgol yn rhannol. Mae'r disgyblion yn mynychu'r ysgol ar sail rhan amser bob wythnos, fesul blwyddyn ysgol ac yn cael gwern ar-lein weddill yr amser. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, a bydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol yn llawn amser pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau.

NODYN 6 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFO A SAIL CYLLIDO DAN REOLIADAU

| 2022/23 | Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu ddefnyddio | | | Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio £'000 |
|--|--|--------------------|--------------------------------------|--|
| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cyfrif Refeniw Tai | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | |
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf: | | | | |
| Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| Taliadau am dibrisiant, amhariad ac amorteiddio asedau anghyfredol | 13,600 | 3,070 | - | (16,670) |
| Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | (848) | - | - | 848 |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill) | 2,568 | - | - | (2,568) |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (16,385) | (3,782) | - | 20,167 |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | - | - | - | - |
| Dadgydnabod | 3 | - | - | (3) |
| Swm a gludir o asedau anghyfredol a werthwyd | 109 | - | - | (109) |
| Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer Cyllido Cyfalaf | (1,325) | (129) | - | 1,454 |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Cronfa'r Cyngor a CRT | (2,053) | (7,398) | - | 9,451 |
| Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf: | | | | |
| Elw o werthu asedau anghyfredol | (374) | - | 374 | - |
| Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | - | - | (822) | 822 |
| Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol: | | | | |
| Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (19) | (8) | - | 27 |
| Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn: | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 34) | 25,740 | 905 | - | (26,645) |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (11,388) | - | - | 11,388 |
| Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol | | | | |
| Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr | 328 | 4 | - | (332) |
| Cyfanswm Addasiadau | 9,956 | (7,338) | (448) | (2,170) |

| 2021/22 | Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu ddefnyddio | | | Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio £'000 |
|--|--|--------------------|--------------------------------------|--|
| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cyfrif Refeniw Tai | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | |
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf: | | | | |
| Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| Taliadau am dibrisiant, amhariad ac amorteiddio asedau anghyfredol | 15,589 | 6,088 | - | (21,677) |
| Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | (573) | - | - | 573 |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill) | 94 | - | - | (94) |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (15,326) | (5,380) | - | 20,706 |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 10 | - | - | (10) |
| Dadgydnabod | 3,246 | - | - | (3,246) |
| Swm a gludir o asedau anghyfredol a werthwyd | 804 | - | - | (804) |
| Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer Cyllido Cyfalaf | (2,752) | (784) | - | 3,536 |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Cronfa'r Cyngor a CRT | (1,395) | (4,484) | - | 5,879 |
| Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf: | | | | |
| Elw o werthu asedau anghyfredol | (1,927) | - | 1,927 | - |
| Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | - | - | (313) | 313 |
| Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol: | | | | |
| Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (27) | (11) | - | 38 |
| Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn: | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 34) | 26,506 | 777 | - | (27,283) |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (10,283) | - | - | 10,283 |
| Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol | | | | |
| Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr | 163 | 9 | - | (172) |
| Cyfanswm Addasiadau | 14,129 | (3,785) | 1,614 | (11,958) |

NODYN 7 – CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODEDIG

| | Balans ar 31/03/2021 £'000 | Trosglwyd diadau Mewn 2021/22 £'000 | Trosglwyd diadau Allan 2021/22 £'000 | Balans ar 31/03/2022 £'000 | Trosglwyd diadau Mewn 2022/23 £'000 | Trosglwyd diadau Allan 2022/23 £'000 | Balans ar 31/03/2023 £'000 |
|---|----------------------------------|---|--|----------------------------------|---|--|----------------------------------|
| Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gwasanaethau llai - llai na £500k* | 6,752 | 4,163 | (3,737) | 7,178 | 2,780 | (3,636) | 6,322 |
| Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gwasanaethau mwy - £500k neu fwy:- | | | | | | | |
| Cronfa wrth gefn Gwastraff / Ailgylchu** | 500 | - | - | 500 | - | (400) | 100 |
| Incwm Proses Ailgylchu i'w fuddsoddi mewn costau a phrosiectau ailgylchu yn y dyfodol | 635 | - | - | 635 | - | (380) | 255 |
| Cronfa wrth gefn Yswiriant | 1,250 | 163 | (72) | 1,341 | 164 | (255) | 1,250 |
| Cyfraniadau refeniw tuag at Gyfalaf nas defnyddiwyd | 1,207 | 2,225 | (1,325) | 2,107 | 3,077 | (2,210) | 2,974 |
| Cyfraniadau A106 Datblygwyr Tai | - | - | - | - | 808 | - | 808 |
| Tai Fforddiadwy | 454 | - | (32) | 422 | 1,099 | (904) | 617 |
| Gwaith Archeolegol yn Wylfa | 625 | - | - | 625 | - | (103) | 522 |
| Adferiad Economaidd Covid NWREF | - | 764 | - | 764 | - | (764) | - |
| Gweinyddu Cefnogi Pobl | 560 | 137 | (141) | 556 | - | (144) | 412 |
| Gwelliannau Hamdden | 762 | - | - | 762 | - | - | 762 |
| Cynlluniau Adfer Covid | 565 | - | - | 565 | - | (565) | - |
| Cyllid Caledi Covid - Casglu'r Dreth Gyngor | 769 | 371 | (356) | 784 | - | (418) | 366 |
| Setliad Refeniw Ychwanegol - Ymateb i Gynnydd mewn Chwyddiant | - | 2,256 | - | 2,256 | 2,065 | (1,144) | 3,177 |
| Pwysau Gofal Cymdeithasol | - | 1,110 | - | 1,110 | 196 | (1,163) | 143 |
| Taliadau Yn ôl Disgresiwn Cynllun Costau Byw | - | 585 | - | 585 | - | (585) | - |
| Addysg Allsirol | - | 500 | - | 500 | - | - | 500 |
| Canolfan Addysg y Bont Gwaith Toi Sylweddol | - | 3,000 | (509) | 2,491 | - | (2,491) | - |
| Cyllid o'r Gronfa wrth gefn Cyffredinol ar gyfer Cronfeydd wrth Gefn Cyfalaf | - | - | - | - | 1,821 | (392) | 1,429 |
| Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd | 14,079 | 15,274 | (6,172) | 23,181 | 12,010 | (15,554) | 19,637 |
| Balansau Ysgolion | 3,974 | 7,904 | (4,051) | 7,827 | 6,487 | (7,598) | 6,716 |
| Cyfanswm | 18,053 | 23,178 | (10,223) | 31,008 | 18,497 | (23,152) | 26,353 |

* Mae'r ffigwr ar gyfer 2021/22 wedi ei ailddatgan fel nad yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn sydd gyda £500k neu fwy erbyn diwedd 2022/23.

**Mae'r teitl ar gyfer y gronfa wrth gefn yma wedi ei gywiro ers Datganiad o Gyfrifon 2021/22

Y cronfeydd wrth gefn mwyaf arwyddocaol yw:

Cronfa wrth gefn Gwastraff / Ailgylchu – defnyddir i gyllido prosiectau rheoli gwastraff yn y dyfodol.

Incwm Proses Ailgylchu – cronfa a glustnodwyd i'w ddefnyddio i ariannu costau a phrosiectau ailgylchu yn y dyfodol.

Cronfa wrth Gefn Yswiriant – ar gyfer ariannu colledion nad oes yswiriant ar eu cyfer a thaliadau dros ben polisïau yswiriant.

Cyfraniadau Refeniw nas Defnyddiwyd ar gyfer Cyfalaf – cronfa wrth gefn yw hon sydd yn cynnwys cyfraniadau refeniw tuag at brosiectau nad ydynt wedi cael eu cwblhau, neu sydd wedi cael eu cyllido gan grant cyffredinol, er mwyn gostwng costau cyllido cyfalaf. Lle mae prosiectau wedi derbyn cyllid arall, mae'n rhyddhau'r cyfraniad refeniw i gyllido prosiect arall yn y dyfodol, unwaith eto i ostwng costau cyllido cyfalaf.

Cyfraniadau A106 Datblygwyr Tai – cyfraniadau a dderbyniwyd gan ddatblygwyr a fydd ync ael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau o fewn termau'r cytundeb.

Tai Fforddiadwy – mae'r gronfa wrth gefn hon ar gyfer ariannu prosiectau fydd yn cynyddu'r stoc o dai fforddiadwy ar Ynys Môn.

Gwaith Archeolegol yn Wylfa – mae hon yn gronfa a sefydlwyd i gwblhau gwaith archeolegol ar y safle, a oedd cyn hynny'n cael ei ddatblygu ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd gan Horizon Nuclear Power Ltd. Cyfyngir hyn i waith y cytunwyd arno rhwng y Cyngor a Horizon.

Adferiad Economaidd Covid NWREF – mae hon yn gronfa sy'n helpu i gyflawni'r economi yng Ngogledd Cymru. Derbyniwyd yr arian yn hwyr yn y flwyddyn ariannol 2021/22 gan Lywodraeth Cymru.

Gweinyddu Cefnogi Pobl – defnyddir y gronfa hon i gyllido costau gweinyddu a rheoli prosiectau cefnogi pobl a gwasanaethau a ddarperir.

Gwelliannau Hamdden – cyllidir y gronfa wrth gefn hon o daliad annisgwyl a dderbyniwyd gan CThEM ar ôl i CThEM gollu achos llys a oedd yn dadlau na ddylai CThEM gasglu TAW ar wasanaethau hamdden. Derbyniodd y Cyngor ad-daliad o bron i £900k gan CThEM. Defnyddir y balans cyfredol o £762k i gyllido gwelliannau i gyfleusterau Hamdden y Cyngor ar Ynys Môn.

Cynlluniau Adfer Covid – defnyddiwyd y gronfa hon i gyfrannu at y cyfnod adfer fel rhan o ymateb y Cyngor i effaith parhaus y pandemig Covid-19.

Cyllid Caledi Covid – Casglu'r Dreth Gyngor – mae'n debyg y bydd effaith ariannol Covid-19 yn effeithio ar drigolion Ynys Môn yn y tymor canolig. Bydd y gronfa wrth gefn hon o £366k yn helpu i gyllido budd-daliadau Treth Gyngor ychwanegol ac yn cynorthwyo gydag unrhyw ddiffyg posib wrth gasglu'r Dreth Gyngor.

Setliad Refeniw Ychwanegol – mae hwn i ariannu pwysau annisgwyl o ganlyniad i chwyddiant yn ystod y flwyddyn ariannol.

Pwysau Gofal Cymdeithasol – diben y gronfa oedd cefnogi awdurdodau lleol â phwysau gofal cymdeithasol o ganlyniad i orwario a phwysau'r gaeaf. Bydd y gronfa hon a glustnodwyd yn ariannu unrhyw orwariant yn y dyfodol yn unol â thelerau'r llythyr cynnig grant

Costau Byw Taliadau Yn ôl Disgresiwn – mae'r gronfa hon yn elfen ddewisol grant llawer mwy. O dan y cynllun dewisol, gall pob awdurdod lleol ddefnyddio'r cyllid i ddarparu cymorth i aelwydydd y mae o'r farn bod angen cymorth arnynt gyda'u costau byw. Gall y cymorth hwn fod ar ffurf taliad i aelwydydd nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y prif gynllun, neu gall dalu cost gwasanaethau hanfodol a ddarperir i aelwydydd.

Addysg Allsirol – defnyddir y gronfa hon i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â'r gyllideb a arweinir gan y galw ac ariannu cynnydd annisgwyl yn ystod y flwyddyn.

Canolfan Addysg y Bont Gwaith Toi Sylweddol – Cronfa a grëwyd yn ystod 2021/22 yn dilyn cymeradwyaeth i ddefnyddio £3m o'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol gan y Cyngor i Ariannu gwaith sydd ei angen i atgyweirio'r to yng Nghanolfan Addysg y Bont. Cwblhawyd y gwaith yn ystod 2022/23.

Cyllid o'r Gronfa wrth gefn Cyffredinol ar gyfer Cronfeydd wrth Gefn Cyfalaf - defnyddir gyllideb sydd heb wi wario i gefnogi prosiectau cyfalaf yn unol â gofynion grant.

Balansau Ysgolion - Cedwir y balansau hyn ar gyfer defnydd pob ysgol yn unol â'u hamcanion addysgol. Ar 31 Mawrth 2023, nid oedd yr un o'r pedwardeg ysgol gynradd gyda balansau mewn diffyg (dim ar 31 Mawrth 2022). Nid oedd yr un o'r pum ysgol uwchradd mewn sefyllfa ddiffygiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (dim ar 31 Mawrth 2022), nid yw'r ysgol arbennig mewn sefyllfa ddiffygiol ar 31 Mawrth 2023. Gwerth cyfunol yr ysgolion mewn diffyg yw £0k (£0k ar 31 Mawrth 2022). Gellir cael copïau o'r Datganiadau Adran 52, y mae'n ofynnol i bob Cyngor ei baratoi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol o dan Adran 52(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan yr Adain Gyfrifeg, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

NODYN 8 – CRONFA WRTH GEFN DERBYNIADAU CYFALAF

Dyma dderbyniadau arian parod o werthu asedau'r Cyngor. Defnyddir rhain i gyllido gwariant cyfalaf yn y flwyddyn neu i ddwyn ymlaen am flynyddoedd yn y dyfodol. Bydd balans o £1.908m yn cael ei ddwyn ymlaen i 2023/24 i helpu cyllido rhaglen gyfalaf flwyddyn nesaf.

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|--|------------------|------------------|
| Balans 1 Ebrill | 2,381 | 767 |
| Derbyniadau Cyfalaf yn y Flwyddyn (net o leihad ar gyfer costau gweinyddu) | 374 | 1,927 |
| | 2,755 | 2,694 |
| Llai: | | |
| Derbyniadau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion | - | - |
| Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd i gyllido | (822) | (313) |
| Eraill | (25) | - |
| Balans ar 31 Mawrth | 1,908 | 2,381 |

NODYN 9 - CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| | 31/03/2023 £'000 | 31/03/2022 £'000 |
|---|---------------------|---------------------|
| a) Cyfrif Addasu Cyfalaf | 179,955 | 162,758 |
| Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (329) | (355) |
| b) Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 173,399 | 175,887 |
| c) Cronfa Wrth Gefn Pensiwn | - | (121,199) |
| ch) Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol | (3,190) | (2,858) |
| Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu Defnyddio | 349,835 | 214,233 |

NODYN 9a – CYFRIF ADDASU CYFALAF

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo defnydd asedau anghyfredol a chyllido'r broses o gaffael, adeiladu, neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chostau megis dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiad sy'n cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a gydag arian a symudwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol.

Credydur y Cyfrif gyda symiau a osodwyd o'r neilltu gan y Cyngor fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu, a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronnus ar Eiddo Buddsoddiad.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisiant cronnus ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crewyd y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i ddal y fath enillion. Mae Nodyn 6 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a symudwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rheini a oedd yn ymwneud â'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

| Cyfrif Addasu Cyfalaf | 2022/23 | | 2021/22 | |
|--|----------|-----------------|----------|-----------------|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ebrill | | 162,758 | | 153,976 |
| Gwyrddroad eitemau yn ymwneud â gwariant cyfalaf wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant, amhariad ac amorteiddiad asedau anghyfredol | (16,670) | | (21,677) | |
| Asedau sydd wedi eu dad-gydnabod | (3) | | (3,246) | |
| Colledion Ailbrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 933 | | 573 | |
| Gwariant reffeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | - | | (10) | |
| Symiau o asedau anghyfredol a ddilëwyd ar waredu neu werthiant (yn cynnwys amhariad) fel rhan o'r enilliad/(colled) ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (195) | | (804) | |
| | | (15,935) | | (25,164) |
| Symiau addasiad a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | | 3,807 | | 3,606 |
| Swm net a ddilëwyd o gost asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | | (12,128) | | (21,558) |
| Cyllido cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn: | | | | |
| Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd | 822 | | 313 | |
| Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf | 2,053 | | 1,395 | |
| Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd wedi ei gymhwyso i gyllido cyfalaf | 20,167 | | 20,706 | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a CRT | 1,453 | | 3,536 | |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a CRT | 7,398 | | 4,484 | |
| | | 31,893 | | 30,434 |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad a godwyd yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | (2,568) | | (94) |
| Balans ar 31 Mawrth | | 179,955 | | 162,758 |

NODYN 9b – CRONFA AILBRISANT WRTH GEFN

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Treftadaeth.

Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronnus yn cael eu: -

- hailbriso i lawr neu fod amhariad arnynt a'r enillion yn cael eu colli;
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant; neu
- gwaredu a gwireddu'r enillion.

Dim ond enillion ailbrisiant a gronwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y Gronfa wrth Gefn, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Wrth Gefn.

Mae enillion cronnus a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfuno i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|------------------|------------------|
| Balans ar 1 Ebrill | 175,887 | 149,546 |
| Ailbriso asedau a cholledion amhariad na chodwyd ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 1,317 | 29,946 |
| Gwahaniaeth rhwng dibrisiant werth teg a dibrisiant gost hanesyddol | (3,670) | (3,169) |
| Balansau ailbriso ar asedau wedi eu sgrapio neu eu gwaredu | (135) | (436) |
| Balans ar 31 Mawrth | 173,399 | 175,887 |

NODYN 9c – CRONFA WRTH GEFN PENSIYNAU

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo am fuddiannau ôl-gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol â darpariaethau statudol.

| Cronfa Wrth Gefn Pensiynau | 2022/23 | | 2021/22 | |
|---|------------------|--|------------------|--|
| | £'000 | | £'000 | |
| Balans ar 1 Ebrill | (121,199) | | (176,261) | |
| Ail-fesur rhwymedigaeth net diffinedig | 156,270 | | 72,088 | |
| Gwyrddroad eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (26,645) | | (27,329) | |
| Taliadau a wnaed | 1,317 | 1,536 |
| Taliadau a dderbyniwyd | 5,338 | 6,585 |
| Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | 490 | 380 |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor | 3,224 | 2,428 |

DIDDORDEBAU MEWN CWMNIAU

Mae gan y Cyngor ddiddordeb yn y cwmnïau canlynol, a Chyngor Gwynedd yw'r aelod arall, ond nid oes ganddo ddylanwad sylweddol dros y cwmni:-

Cwmni Cynnal Cyf

Sefydlwyd y cwmni hwn ar y cyd gan Gyngorau Sir Ynys Môn a Gwynedd ar adeg ad-drefnu llywodraeth leol. Mae'n darparu gwasanaethau cefnogaeth addysg o dan contract i ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod ac i'r awdurdodau addysg lleol, ac mae'n darparu gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Ni ellir ond defnyddio incwm y cwmni er mwyn hyrwyddo ei amcanion. Mae'r cwmni yn gyfyngedig trwy warant, nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliad, ac mae ymrwymiad y Cyngor wedi'i gyfyngu i £1.

Mae taliadau i Cwmni Cynnal Cyf fel a ganlyn:

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|-----------------------------------|--------------------------|--------------------------|
| Taliadau a wnaed | 30 | 843 |
| Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | - | 3 |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor | - | - |

Gweler rhan o'u datganiadau ariannol isod:

| | (Colled) / Ennillion Net cyn treth £'000 | Trosiant £'000 | (Rhwymedigae thau) / Asedau Net £'000 |
|----------------|---|---------------------------|--|
| 31 Mawrth 2022 | 164 | 30 | 843 |
| 31 Mawrth 2021 | 113 | - | - |

Penododd y cwmni hwn Ieuan Williams fel eu Prif Swyddog Gweithredol yn 2017. Mae Ieuan Williams yn gynghorydd i'r Awdurdod ac yn flaenorol bu'n gweithio fel Dirprwy Arweinydd. Roedd Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol y Cyngor, Mr Rhys Howard Hughes hefyd yn Gyfarwyddwr y cwmni.

Daeth y cwmni i ben ar 31 Mawrth 2022 a throsglwyddwyd y staff i Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd o dan reolau TUPE ar 1 Ebrill 2022. Trosglwyddodd contractau'r Cwmni drosodd hefyd, a thalodd y Cyngor £12.5k am y contractau a gafodd. Bydd asedau net y cwmni'n cael eu trosglwyddo i elusen sydd â dibenion elusennol tebyg ar ôl eu diddymu. Dechreuodd dirwyn y cwmni i ben ar 13 Medi 2022 ac mae'r broses hon yn parhau.

Mae gan y Cyngor ddiddordebau yn y cwmnïau canlynol hefyd:-

| Sefydliad | 2022/23 Taliadau a wnaed £'000 | 2021/22 Taliadau a wnaed £'000 |
|------------------|---|---|
| WJEC CBAC LTD | 473 | 229 |
| Menter Môn Cyf | 677 | 453 |

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru - WJEC CBAC Cyf

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Cyf, cwmni elusennol lle mai'r aelodau yw'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru, a'u hamcanion yw darparu gwasanaethau arholi a darparu a hyrwyddo gwasanaethau addysgol a diwylliannol eraill. Mae'r cwmni yn gyfyngedig trwy warant, nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliad, ac mae ymrwymiad y Cyngor wedi'i gyfyngu i £1.

Mae rhan o'r datganiad fel a ganlyn:

| | Symudiad net mewn cyllid £'000 | Trosiant £'000 | (Rhwymedigaethau) / Asedau Net £'000 |
|--------------|---------------------------------------|-----------------------|---|
| 30 Medi 2022 | 31,097 | 55,493 | 87,174 |
| 30 Medi 2021 | 17,113 | 31,385 | 56,077 |

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni gan WJEC CBAC Cyf, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YX. Mae adroddiad yr archwilydd ar gyfrifon y flwyddyn ariannol sy'n diweddu 30 Medi 2022 yn un heb amodau.

Menter Môn Cyfyngedig

Mae'r Cyngor yn aelod o Menter Môn Cyf. Amcan y cwmni yw hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn wledig. Mae'r cwmni yn gyfyngedig trwy warant, nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliad, ac mae ymrwymiad y Cyngor wedi'i gyfyngu i £1.

Mae cyfrifon y cwmni'n dangos y canlynol:

| | (Colled) / Ennillion Net cyn treth £'000 | Trosiant £'000 | (Rhwymedigaethau) / Asedau Net £'000 |
|-----------------|---|-----------------------|---|
| 31 Rhagfyr 2021 | (753) | 5,963 | (2,541) |
| 31 Rhagfyr 2020 | (306) | 5,283 | (3,240) |

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni gan Menter Môn, Neuadd y Dref Llangefni, Sgwâr Buckley, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LR. Mae adroddiad yr Archwilydd ar gyfrifon y flwyddyn ariannol sy'n diweddu 31 Rhagfyr 2021 yn un heb amodau.

Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC Gogledd Cymru)

Sefydlwyd CBC Gogledd Cymru yn ystod 2021/22 ac yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru ynghyd â Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r cydbwyllgor yma'n gyfrifol am waith cynllunio datblygu strategol, gwaith cynllunio trafndiaeth ranbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd Gogledd Cymru. Nid oedd cyllideb wedi ei sefydlu ar gyfer 2021/22. Cyfran Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2022/23 yw £36k. Gellir gweld Datganiad o'r Cyfrifon yma:

[Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd \(llyw.cymru\)](#)

Ysgol Sefydledig Caergeiliog

Mae'r balansau ar gyfer asedau ac ymrwymadau cyfredol a reolir gan Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys yn y cyfrifon hyn ac, felly, mae cronfeydd wrth gefn yr ysgol, fel y nodir yn y Fantolen yma, yn cynrychioli'r asedau cyfredol net yn unig. Mae gan yr ysgol hefyd asedau anghyfredol sydd wedi eu nodi ar Fantolen yr ysgol, sef £687k ar 31 Mawrth 2023 (£730k ar 31 Mawrth 2022), ar gyfuniad o brisiant a chost hanesyddol, llai dibrisiant. Mae'r asedau anghyfredol wedi eu breinio yng Nghorff Llywodraethu'r ysgol ac nid ydynt wedi'u cyfuno ym Mantolen y Cyngor hwn.

NODYN 32 – CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH A CHRONFEYDD ERAILL A WEINYDDIR GAN Y CYNGOR

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth sydd yn elusennau gofrestredig. Mae'r gwaith gweinyddu ariannol ar gyfer y cronfeydd hyn yn cael ei gwblhau gan y Cyngor fel Ymddiriedolwr er bod y wybodaeth a gadwir am bob cronfa yn cael ei hadnabod yn unigol. Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw'r ddwy gronfa fwyaf mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr ar eu cyfer.

| 2022/23 | 2022/23 Incwm £'000 | 2022/23 Gwariant £'000 | 2022/23 Asedau £'000 | 2022/23 Rhwymedigaethau £'000 |
|--|---------------------------|------------------------------|----------------------------|-------------------------------------|
| Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn | 12 | 0 | 705 | - |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn | 702 | 242 | 4,906 | 22 |

| 2021/22 | 2021/22 Incwm £'000 | 2021/22 Gwariant £'000 | 2021/22 Asedau £'000 | 2021/22 Rhwymedigaethau £'000 |
|---|---------------------------|------------------------------|----------------------------|-------------------------------------|
| Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn | 3 | 0 | 694 | - |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - cyfrifon terynol | 137 | 113 | 4,737 | 22 |

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa. Mae hyn yn cynnwys Ystâd Ffermydd a Thyddynnod David Hughes sy'n cael ei rheoli gan dîm Tyddynnod y Cyngor yn yr Adran Eiddo. Mae cronfa David Hughes yn casglu rent gan dyddynnod yn ogystal â llog ar ei fuddsoddiadau eraill. Mae'r ddwy gronfa arall yn ennill incwm gan fuddsoddiadau sy'n cael eu rheoli nad ydynt yn eiddo. Mae incwm net y gronfa yn darparu cymorth ariannol ar gyfer disgyblion hŷn a phobl ifanc cymwys dan 25 oed i'w helpu nhw i gwblhau cyrsiau os ydynt yn wynebu anfantais ariannol.

Gellir gweld y cyfrifon terfynol cyfredol sydd wedi'u harchwilio ar gyfer yr ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i 2021/22 drwy glicio ar y ddolen isod.

[Accounts and annual returns, ANGLESEY FURTHER EDUCATION TRUST FUND - 525254, Register of Charities - The Charity Commission](#)

Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn

Roedd y Gronfa hon yn cae ei rheoli'n flaenorol gan Gyngor Gwynedd a drosglwyddodd asedau'r gronfa i'r Cyngor ym mis Mai 2019. Mae ymgynghorydd yn adolygu'r gronfa ar hyn o bryd gyda'r bwriad o lansio cynllun newydd fydd yn amlinellu diben y gronfa, ei chynllun ar gyfer darparu cymorth elusennol yn ogystal â chreu elusen newydd. Roedd yr asedau net o fewn y gronfa ar 31 Mawrth 2023 yn £705k (£694k yn 2021/22).

Mân Gronfeydd

Mae'r Cyngor hefyd yn ymddiriedolwr ar gyfer nifer o fân gronfeydd addysg, fel y gweler isod.

| Mân Ymddiriedolaethau | 2022/23 Asedau £'000 | 2021/22 Asedau £'000 |
|--|----------------------------|----------------------------|
| Mân Ymddiriedolaethau Addysg | | |
| Amlwch | | |
| Sir Thomas Jones and feeder schools | 1 | 1 |
| Mrs Dilys Evans BA | 2 | 2 |
| Mr Caradoc Evans MSc | 2 | 2 |
| Caergybi | | |
| Stanley Scholarship | 13 | 14 |
| Porthaethwy | | |
| F C Baines AP | 33 | 34 |
| Eraill | | |
| Llanyngghenedl War Heroes | 7 | 7 |
| John Williams-Hughes | 3 | 3 |
| Anwen Williams | 6 | 6 |
| Cyfanswm Mân Ymddiriedolaethau Addysg | 67 | 69 |

Cronfeydd eraill a weinyddir gan y Cyngor

Mae'r Cyngor fel rhan o'i gylch gwaith diogelu a chefnogi pobl agored i niwed hefyd yn gweinyddu nifer o gyfrifon banc cleientiaid y mae'r Cyngor wedi'u penodi i'w rheoli gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) fel Penodai Corfforaethol neu'r Llys Gwarchod fel sy'n berthnasol. Mae hyn ar ran unigolion nad oes ganddynt y gallu i reoli eu materion ariannol eu hunain. Rheolir y rhain gan dîm mewn gwasanaethau Oedolion ac fe'u monitror ddwywaith y flwyddyn gan y Llys Gwarchod. Cyfanswm gwerth y cyfrifon hyn ar 31 Mawrth 2023 oedd £842k (£698k yn 2021/22). Nid yw'r gwerth hwn wedi'i gynnwys yn mantolen y Cyngor gan nad yw'r arian yn perthyn i'r Cyngor.

NODYN 33 – CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei gyfran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon yma maent, felly, yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2022/23, talodd y Cyngor £6.332m i Bensiynau Athrawon yn ymwneud â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 23.63% o dâl pensiynadwy (£5.838m a 23.68% yn 2021/22).

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar gyfer ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a manylir arnynt yn Nodyn 34 isod.

NODYN 34 – CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG LLYWODRAETH LEOL

Buddiannau Ymddeoliad Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith ei swyddogion a'i weithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er nad yw'r buddiannau yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i wneud y taliadau sydd raid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, gan olygu fod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad. Yn ogystal, mae cyfran y Cyngor o'r incwm pensiwn, costau, asedau ac atebolrwydd sy'n ymwneud â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn.

a) Trafodion yn ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddiannau ymddeol yn yr adroddiadau ar gostau'r gwasanaethau pan mae'r gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd raid ei dangos yn erbyn Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn ac, felly, mae gwir gost buddiannau ôl-gyflogaeth / ymddeoliad yn cael eu gwyrddroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn: -

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|--|------------------|------------------|
| Cost y gwasanaeth yn cynnwys: | | |
| Costau cyfredol y gwasanaeth | 23,124 | 23,603 |
| Colledion ar setliadau neu gwtogiadau | 93 | 26 |
| Cyfanswm cost y Gwasanaeth | 23,217 | 23,629 |
| Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi | | |
| Cost llog ar yr ymrwymiad budd diffiniedig | 14,201 | 10,839 |
| Incwm llog ar Asedau'r Cynllun | (10,773) | (7,185) |
| Cyfanswm y buddiannau Ôl-Gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaeth | 26,645 | 27,283 |
| Elw ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio symiau sydd wedi eu cynnwys yn y gwariant llog net) | 16,664 | (29,390) |
| (Elw) a cholledion actiwaiaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (11,417) | (2,830) |
| (Elw) a cholledion actiwaiaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (211,308) | (39,560) |
| Arall | 49,790 | (283) |
| Cyfanswm Ailfesur y rhwymedigaeth o ran buddiannau net diffiniedig | (156,270) | (72,063) |
| Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (129,625) | (44,780) |
| Gwyrddroi'r taliadau net a wnaed ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol â'r côd | 16,179 | 17,000 |
| Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn: | | |
| Cyfraniad y cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun | 10,466 | 10,283 |
| Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 26,645 | 27,283 |

b) Asedau a Rhwymedigaethau Pensiwn a gydnabyddir yn y Fantolen

Mae rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagdybiedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau ac ati. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r rhwymedigaethau o ran Buddiannau Dewisol wedi cael eu hasesu gan Hymans Robertson LLP, cwmni annibynnol o actiwariaid, ac mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2023.

| Mae'r symiau sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen yn codi o ymrwymiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i gynllun buddiannau diffiniedig fel a ganlyn: | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|----------------|------------------|
| | £'000 | £'000 |
| Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun | 383,797 | 397,617 |
| Gwerth Presennol Ymrwymadau'r Cynllun | (363,983) | (518,816) |
| Rhwymedigaeth net yn codi o'r Rhwymedigaethau diffiniedig | 19,814 | (121,199) |

Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun

| | 2022/23 | 2021/22 |
|--|----------------|----------------|
| | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 518,816 | 534,216 |
| Adjustment to opening balance to amend NWEAB 2021/22 | 149 | - |
| Cost gwasanaeth cyfedrol | 23,124 | 23,486 |
| Cost llog | 14,201 | 10,839 |
| Cyfraniadau gan cyfranogwyr y cynllun | 3,144 | 2,796 |
| (Elw) / colledion Ailfesur | (183,988) | (42,673) |
| Costau gwasanaeth blaenorol | 93 | 26 |
| Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido | (923) | (793) |
| Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd | (10,632) | (9,081) |
| Balans ar 31 Mawrth | 363,983 | 518,816 |

Cysoni Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun

| | 2022/23 | 2021/22 |
|--|----------------|----------------|
| | £'000 | £'000 |
| Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun ar 1 Ebrill | 397,617 | 357,955 |
| Adjustment to opening balance to amend NWEAB 2021/22 | 149 | - |
| Incwm Llog | 10,773 | 7,185 |
| Elw ar asedau cynllun (heb gynnwys gwariant llog net) | (16,664) | 29,390 |
| Arall | (11,055) | - |
| Cyfraniadau gan aelodau | 3,143 | 2,796 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 10,466 | 9,372 |
| Cyfraniadau mewn perthynas â buddiannau nad oeddynt yn cael eu cyllido | 923 | 793 |
| Buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido | (923) | (793) |
| Buddiannau a dalwyd | (10,632) | (9,081) |
| Balans ar 31 Mawrth | 383,797 | 397,617 |

c) Gwerth Teg Asedau'r Cynllun

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng 2021/22 a 2022/23 yn y categori ecwiti a buddsoddiadau eraill rhwng y Prisiau a Ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol a Phrisiau nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn Marchnadoedd Gweithredol. Ers 2018/19, mae rheolwyr y cronfeydd Pensiwn wedi dechrau symud buddsoddiadau o'r rhai a ddyfynnir yn y marchnadoedd gweithredol i ddwy gronfa byd-eang ar y cyd ym Mhartneriaeth Pensiynau Cymru (WPP). Mae'r buddsoddiadau hyn yn cael eu dangos o fewn Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Ymddiriedolaeth nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnadoedd agored. Mae rhagor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ei chyfanrwydd ar gael drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: <https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Cartref.aspx>

Cyfran y Cyngor o Asedau'r Cynllun Pensiwn yw: -

| | 2022/23 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 | 2022/23 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 | 2021/22 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd £'000 | 2021/22 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 |
|--|--|---|---|---|
| Arian a chywerthoedd arian | 1,197 | - | 2,084 | - |
| Ecwiti preifat | - | 24,150 | - | 22,734 |
| Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Ymddiriedolaeth | | | | |
| Ecwiti | - | 238,805 | - | 247,932 |
| Isadeiledd | - | 10,891 | - | 9,657 |
| Arall | - | 77,139 | - | 79,038 |
| Eiddo Tiriog | | | | |
| Eiddo yn y DU | - | 31,615 | - | 36,172 |
| Eiddo Tramor | - | - | - | - |
| Cyfanswm Gwerth yr holl Asedau | 1,197 | 382,600 | 2,084 | 395,533 |
| Cyfanswm Gwerth yr Asedau Gweithredol ac Anweithredol | | 383,797 | | 397,617 |

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys y categorïau canlynol, yn ôl y gyfran o'r asedau cyfan a ddelir: -

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|--|----------------|----------------|
| Arian a chywerthoedd arian | 0% | 0% |
| Buddsoddiad Ecwiti (yn ôl math o ddiwydiant) | | |
| Ecwiti Preifat | 6% | 6% |
| Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Ymddiriedolaethol | | |
| Ecwiti | 62% | 64% |
| Isadeiledd | 3% | 2% |
| Arall | 21% | 20% |
| Eiddo Tiriog | | |
| Eiddo yn y DU | 8% | 8% |
| Cyfanswm | 100% | 100% |

ch) Hanes y Cynllun

Dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun: -

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|--|-------------------------|-------------------------|----------------------------|----------------------------|-------------------------|
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun Pensiwn | 383,797 | 397,617 | 357,955 | 274,492 | 312,536 |
| Gwerth Presennol Rhwymedigaeth Budd Diffinedig y Cynllun | (363,983) | (518,816) | (534,216) | (399,012) | (443,266) |
| (Diffyg)/Asedau yn y Cynllun | 19,814 | (121,199) | (176,261) | (124,520) | (130,730) |

Mae'r dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun yn dangos yr ymrwymadau sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddion ymddeol. Gwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio o £363.983m sy'n sylweddol is na'r gwerth arferol oherwydd y ffactor disgownt uwch a ragnodir gan safonau cyfrifeg ac a ddefnyddir gan yr Actiwari. Mae hyn fel y soniwyd yn yr adroddiad naratif yn gysylltiedig â'r gyfradd sylfaenol banc uwch a gwerth bondiau corfforaethol y DU y mae'r ffactor disgownt yn seiliedig arnynt. Gwerth teg asedau yn y cynllun pensiwn yw £383.797m sy'n uwch na'r rhwymedigaethau.

d) Prif Ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari oedd: -

| | 2022/23 | 2021/22 |
|--|--------------|--------------|
| Rhagdybiaethau Marwolaeth: | | |
| <i>Hirhoedledd yn 65 bensiynwyr presennol:</i> | | |
| Dynion | 20.9 mlynedd | 21.3 mlynedd |
| Merched | 23.7 mlynedd | 23.7 mlynedd |
| <i>Hirhoedledd yn 65 bensiynwyr dyfodol:</i> | | |
| Dynion | 22.1 mlynedd | 22.4 mlynedd |
| Merched | 25.5 mlynedd | 25.7 mlynedd |
| Graddfa Cynnydd Chwyddiant / Pensiwn | 2.95% | 3.20% |
| Gradda cynnydd mewn cyflogau | 3.45% | 3.50% |
| Dychweliad disgwylidig ar yr asedau | -1.50% | 10.20% |
| Graddfa ddisgownt ar rhwymedigaethau'r cynllun | 4.75% | 2.70% |
| Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad: | | |
| Gwasaneath i Ebrill 2008 | 50.00% | 50.00% |
| Gwasaneath ar ol Ebrill 2008 | 65.00% | 75.00% |

dd) Dadansoddiad Sensitifrwydd

| Newid Mewn Tybiaethau fel ar 31 Mawrth 2023 | % y Cynnydd yn fras i'r Cyflogwr | Swm Ariannol Bras £'000 |
|--|---|--|
| Lleihad o 0.1% yn y gyfradd ddisgownt real | 2% | 6,939 |
| Cynnydd 1 blwyddyn yn nisgwylid oes aelodau | 4% | 14,554 |
| Cynnydd o 0.1 % yn y gyfradd cynnydd cyflog | 0% | 935 |
| Cynnydd o 0.1 % yn y gyfradd cynnydd pensiwn | 2% | 6,106 |

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau posibl i'r rhagdybiaethau a all, yn rhesymol, ddigwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Ar gyfer pob newid mewn rhagdybiaeth, mae'n cymryd yn ganiataol bod yr holl ragdybiaethau eraill yn parhau'n gyson. Mae'r dadansoddiad o sensitifrwydd yn dangos cynnydd 0.1% yn y gyfradd ddisgownt real oherwydd newidiadau posibl yn y farchnad, a all ostwng rhwymedigaethau'r gronfa o £6.939m. Gallai cynnydd o flwyddyn mewn disgwylid oes aelodau gynyddu atebolrwydd o £14.554m. Yn ymarferol, bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwylid oes yn dibynnu ar strwythur y rhagdybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i raddfeydd goroesi yn berthnasol yn bennaf i oedrannau ieuengach neu hŷn). Gall cynnydd 0.1% yn y gyfradd cynnydd cyflogau, olygu cynnydd o £935k yng nghostau'r gronfa. Gall cynnydd 0.1% yn y gyfradd bensiynau, olygu cynnydd o £6.106m mewn rhwymedigaethau. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi cael eu cyfrifo yn unol â thybiaethau actiwaraid proffesiynol, SCRh 19 a SAARh 102.

Mae hyn yn golygu bod y defnydd o'r rhagdybiaethau 0.1% isod wedi cael eu dewis gan yr actiwari arbenigol yn unol â'i farn/barn broffesiynol ef/hi. Byddai'r Actiwari wedi cymryd i ystyriaeth wybodaeth gyfredol a blaenorol. Byddai gwybodaeth ynghylch hyd oes pobl a gwybodaeth ddemograffig hefyd wedi dylanwadu ar hyn.

e) Yr Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod

Amcan y cynllun yw cadw cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfradd sydd mor gyson a phosib Mae gan y Cyngor strategaeth gydag actiwari'r cynllun i sicrhau lefel gyllido o 100% yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol. Caiff y prisiad tairblwyddol nesaf ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2023.

Bydd angen i'r cynllun gymryd i ystyriaeth y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau Cyhoeddus 2013.

Yn unol â'r Ddeddf, efallai na fydd y CPLIL yn Lloegr a Chymru, a'r prif gynlluniau cyfredol eraill ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn darparu buddiannau ar gyfer gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu Wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 yn achos y prif gynlluniau pensiwn eraill ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus yn Lloegr a Chymru). Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoleiddio'r cynlluniau mewn fframwaith cyffredinol er mwyn sefydlu cynlluniau yn seiliedig ar yr enillion cyfartalog yn ystod gyrfau wedi eu hailbrisio er mwyn talu pensiynau a buddiannau eraill.

Mae'r ased / atebolrwydd net yn dangos ymrwymadau sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y tymor hir i dalu budd-daliadau ôl-gyflogaeth (ymddeol). Mae'r ased net o £19.814m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y'i cofnodwyd yn y fantolen. Mae hwn yn ased cyfrifyddu statudol nad yw'n effeithio ar balansau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r safon cyfrifyddu ar gyfer Pensiynau SCRh19 ac IFRIC14 yn ei gwneud yn ofynnol na ellir cynnwys ased pensiwn net fel ased ar y fantolen, felly mae hyn wedi'i eithrio ac mae gan yr atebolrwydd pensiwn a'r gronfa bensiwn na ellir ei defnyddio hefyd balansau o ddim.

f) Amcangyfrif o'r cyfraniadau i'w talu i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2023/24

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn talu cyfraniad o £9.808m i'r cynllun yn 2023/24. Y swm sy'n ddyledus i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â chyfraniadau CPLIL am 2021/22 ar 31 Mawrth 2023 yw £1.147m ac mae wedi ei gynnwys yn y nodyn datgelu o ran credydwyr tymor byr.

NODYN 35 – OFFERYNNAU ARIANNOL

Cytundebau contractiol rhwng dau neu fwy o bartïon yw offerynnau ariannol yn ymwneud â hawl i dderbyn tâl o ariannol. Byddai gan un parti ased ariannol lle mae arian neu ased ariannol arall yn cael ei roi i'r parti arall, yn gyfnewid am ddychwelyd yr arian neu'r offeryn ariannol, yn aml gyda llog neu enillion ffafriol ar y buddsoddiad. Byddai'r trafodiad yn rhwymedigaeth ariannol i'r parti neu'r partiön eraill. Y cytundeb i ad-dalu'r arian ar yr amser y cytunwyd arno ac i ddychwelyd yr arian yn unol â'r cytundeb fyddai hynny. Er enghraifft, prif asedau ariannol y Cyngor yw ei fuddsoddiadau mewn adneuon banc.

Mae enghreifftiau o asedau ariannol yn cynnwys arian parod, adneuon banc, symiau sy'n ddyledus drwy fasnach (dyledwyr), ecwitiau, bondiau a deilliadau. Mae enghreifftiau o rwymedigaethau ariannol yn cynnwys benthyciadau, symiau sy'n daladwy drwy fasnach (credydwyr) ac unrhyw rwymedigaeth contractiol i ddarparu arian parod neu ased ariannol i endid arall.

NODYN 35a – ASED AU ARIANNOL

Mae'r nodyn yma'n dangos y categorïau gwahanol o asedau ariannol sy'n ofynnol o dan SAARh 9 a gwerth asedau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2023. Mae'n rhoi gwerth asedau anariannol hefyd, sydd yn cynnwys gwerth Tir ac Eiddo ac asedau eraill. Ni all y Cyngor ond ymrwymo i asedau a rhwymedigaethau ariannol yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae'r Strategaeth yn gosod meini prawf caeth, felly, ni all y Cyngor ond buddsoddi mewn asedau ariannol sydd yn hynod o ddiogel ac y gellir cael mynediad atynt pan fydd y Cyngor angen yr arian.

Adneuon banciau yn y DU sy'n bodloni meini prawf statws credyd y Cyngor yw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau, neu fenthyciadau i awdurdodau lleol eraill. Daw'r cyfan ohonynt o dan ddsbarthiad SAARh 9 Asedau Ariannol a fesurir yn ôl cost wedi'i amorteiddio, fel yr amlygir yn Nodyn 35a.

Mae'r tabl isod yn dangos swm cario'r asedau ariannol. Dyma werth yr asedau ariannol yn y fantolen yn seiliedig ar gost wedi ei amorteiddio. Darperir y gwerth teg hefyd; Mae hwn yn werth mwy cyfredol, sef y pris i werthu'r asedau ariannol ar 31 Mawrth 2023.

| Asedau Ariannol | Tymor Byr | | | | Tymor Hir | | | | Cyfanswm | | | |
|--|---------------|---------------|---------------|---------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| | 31/03/2023 | | 31/03/2022 | | 31/03/23 | | 31/03/2022 | | 31/03/2023 | | 31/03/2022 | |
| | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio | | | | | | | | | | | | |
| Arian a chywerthoedd arian | | | | | | | | | | | | |
| Arian a chywerthoedd arian - adneuron | 19,021 | 19,021 | 38,616 | 38,618 | - | - | - | - | 19,021 | 19,021 | 38,616 | 38,618 |
| Arian a chywerthoedd arian eraill | 719 | 719 | 5,862 | 5,862 | - | - | - | - | 719 | 719 | 5,862 | 5,862 |
| Buddsoddiadau tymor byr eraill | 22,500 | 22,500 | 7,500 | 7,501 | - | - | - | - | 22,500 | 22,500 | 7,500 | 7,501 |
| Cyfanswm Buddsoddiadau | 42,240 | 42,240 | 51,978 | 51,981 | - | - | - | - | 42,240 | 42,240 | 51,978 | 51,981 |
| Dyledwyr | | | | | | | | | | | | |
| Rhenti | 317 | 317 | 648 | 648 | - | - | - | - | 317 | 317 | 648 | 648 |
| Benthyciadau i weithwyr | 131 | 131 | 159 | 159 | 14 | 14 | 95 | 95 | 145 | 145 | 254 | 254 |
| Dyledwyr Masnach | 2,327 | 2,327 | 3,242 | 3,242 | - | - | - | - | 2,327 | 2,327 | 3,242 | 3,242 |
| Incwm gohiriedig | - | - | - | - | 1,220 | 1,220 | 967 | 967 | 1,220 | 1,220 | 967 | 967 |
| Gordaliadau budd-daliadau tai | 170 | 170 | 950 | 950 | - | - | - | - | 170 | 170 | 950 | 950 |
| Dyledwyr Eraill | 637 | 637 | 59 | 59 | - | - | - | - | 637 | 637 | 59 | 59 |
| Cyfanswm Dyledwr | 3,582 | 3,582 | 4,940 | 4,940 | 1,234 | 1,234 | 1,062 | 1,062 | 4,816 | 4,816 | 6,002 | 6,002 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Offerynnau Ariannol | 45,822 | 45,822 | 56,918 | 56,921 | 1,234 | 1,234 | 1,062 | 1,062 | 47,056 | 47,056 | 57,980 | 57,983 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Asedau heb eu diffinio fel Offerynnau Ariannol | 36,730 | 36,730 | 39,028 | 39,028 | 496,430 | 496,430 | 475,820 | 475,820 | 533,160 | 533,160 | 514,848 | 514,848 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Asedau | 82,552 | 82,552 | 95,946 | 95,949 | 497,664 | 497,664 | 476,882 | 476,882 | 580,216 | 580,216 | 572,828 | 572,831 |

Mae'r asedau ariannol wedi eu rhannu rhwng buddsoddiadau a dyledwyr. Y buddsoddiadau yw adneuon arian parod i mewn i fanciau y DU ynghyd â'r arian parod ac chywerthoedd arian eraill yn ymwneud â'r symiau a ddelir ar gyfer bancio gweithredol a thalu costau o ddydd i ddydd. Buddsoddodd y Cyngor £10.000m hefyd mewn adneuon cyfnod penodol ar gyfradd llog uwch. Mae'r symiau a ddelir fel arian parod a chywerthoedd arian yng nghyfrifon adneuon banc y DU dros anghenion dydd i ddydd ond bydd eu hangen yn y dyfodol. Mae'r rhain yn ennill llog am y cyfnod a fuddsoddiwyd. Y categori arall o asedau ariannol yw dyledwyr.

Mae'r rhain yn ymwneud â sefydliadau neu unigolion sy'n ddyledus i'r Cyngor. Y mwyaf sylweddol yw dyledwyr masnach sy'n ymwneud â symiau sy'n ddyledus am wasanaethau a dderbynnir. Dangosir benthyciadau cyflogaion hefyd; benthyciadau meddal yw'r rhain sy'n ymwneud yn bennaf â benthyciadau ceir i aelodau o staff sy'n teithio'n fwy helaeth ar fusnes y Cyngor. Darparwyd y benthyciadau ar gyfradd is na gwerth y farchnad oherwydd yr angen am deithio sy'n gysylltiedig â gwaith. Nid yw dyledwyr yn cynnwys trafodion gydag adrannau'r llywodraeth, ac incwm a thaliadau sy'n deillio o drethiant, gan gynnwys y Dreth Gyngor a threthi annomestig.

NODYN 35b – RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL A DDELIR GAN Y CYNGOR

Mae holl Rwymedigaethau Ariannol y Cyngor yn cael eu dosbarthu fel Rhwymedigaethau Ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio. Dangosir hyn yn Nodyn 35b. Mae'r nodyn hefyd yn dangos gwerth rhwymedigaethau anariannol.

Cyfanswm rhwymedigaethau benthycia'r Cyngor oedd £125.668m ar 31 Mawrth 2023. Dyma'r benthyciad a gymerwyd dros y blynyddoedd i gyllido gwariant cyfalaf ar adeiladu neu adnewyddu asedau'r Cyngor. Y benthyciadau tymor byr yw'r symiau sydd i'w had-dalu erbyn 31 Mawrth 2024. Disgwylir i'r benthyciadau hirdymor gael eu talu ymhen mwy na blwyddyn. Prif ddarparwr benthyciadau i'r Cyngor yw'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), sy'n rhan o Adran Trysorlys y Llywodraeth Ganolog.

Cyfrifwyd gwerth teg benthycia'r Cyngor gan ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, Gwasanaethau Asedau Cyswllt. Cyfanswm gwerth teg benthycia'r Cyngor oedd £120.003m, sy'n is na'r gwerth cario ar y fantolen o £125.668m ar 31 Mawrth 2023. Mae gwerth teg yr asedau £5.665m yn is na'r swm cario oherwydd bod y Bwrdd Benthyciadau Cyfalaf yn cynnig gostyngiad net os yw'r Cyngor yn disodli'r benthyciadau hyn gyda benthyciadau newydd. Mae'r Cyngor wedi elwa o fenthyciadau llog is tra bod y gyfradd llog sylfaenol wedi bod yn isel. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod llog ad-daladwy bob blwyddyn yn is na'r blynyddoedd blaenorol pan oedd cyfraddau llog yn uwch. Byddai cynnydd mewn cost llog ad-daladwy blyddynol yn uwch na gwerth cyfanswm gostyngiad PWLB ac ni fyddai'r gost llog flynyddol ar y benthyciadau newydd yn fforddiadwy.

| Rhwymedigaethau Ariannol | Tymor Byr | | | | Tymor Hir | | | | Cyfanswm | | | |
|--|---------------|---------------|---------------|---------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|-----------------------|
| | 31/03/2023 | | 31/03/2022 | | 31/03/2023 | | 31/03/2022 | | 31/03/2023 | | 31/03/2022 | |
| | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg Ailddatgan |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio | | | | | | | | | | | | |
| Benthyciadau | | | | | | | | | | | | |
| PWLB | 3,738 | 3,811 | 4,191 | 4,261 | 117,708 | 112,664 | 119,578 | 162,446 | 121,446 | 116,475 | 123,769 | 166,707 |
| Salix | 373 | 373 | 373 | 456 | 3,849 | 3,155 | 3,099 | 2,410 | 4,222 | 3,528 | 3,472 | 2,866 |
| Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol - Benthyciadau | 4,111 | 4,184 | 4,564 | 4,717 | 121,557 | 115,819 | 122,677 | 164,856 | 125,668 | 120,003 | 127,241 | 169,573 |
| Credydwyr | | | | | | | | | | | | |
| Masnach | 11,650 | 11,650 | 3,037 | 3,037 | - | - | - | - | 11,650 | 11,650 | 3,037 | 3,037 |
| Credydwyr Eraill | 1,177 | 1,177 | 2,642 | 2,642 | - | - | 163 | 163 | 1,177 | 1,177 | 2,805 | 2,805 |
| Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol - Credydwyr | 12,827 | 12,827 | 5,679 | 5,679 | - | - | 163 | 163 | 12,827 | 12,827 | 5,842 | 5,842 |
| Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol | 16,938 | 17,011 | 10,243 | 10,396 | 121,557 | 115,819 | 122,840 | 165,019 | 138,495 | 132,830 | 133,083 | 175,415 |
| Cyfanswm Rhwymedigaethau nad ydynt wedi'u diffinio fel Rhwymedigaethau Ariannol | 27,178 | 27,178 | 41,901 | 41,901 | 9,893 | 9,893 | 125,610 | 125,610 | 37,071 | 37,071 | 167,511 | 167,511 |
| Cyfanswm Rhwymedigaethau | 44,116 | 44,189 | 52,144 | 52,297 | 131,450 | 125,712 | 248,450 | 290,629 | 175,566 | 169,901 | 300,594 | 342,926 |

1

¹ Mae cyfanswm gwerth teg cyfanswm rhwymedigaethau na ddiffinnir fel rhwymedigaethau ariannol wedi cael ei ailddatgan o £157.214m i'r gwerth cywir sef £167.511m gan arwain at gyfanswm gwerth teg diwygiedig ar gyfer 2022/23 o £332.629m i £342.926m.

NODYN 35c – INCWM, GWARIANT, ENILLION A CHOLLEDION

Mae'r tabl isod yn dangos effaith offerynnau ariannol y Cyngor a ddelir ar gyfrif refeniw blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23.

Mae'r tabl yn dangos y codwyd £599k (£416k yn 2021/22) ar y Cyngor am amhariad a dadgydnabyddiaeth o'r asedau ariannol a nodir uchod yn Nodyn 35a. Dangosir taliadau amhariad a dadgydnabyddiaeth yn fanylach yn Nodyn 36a. Mae ased y dyledwyr yn cael ei amharu i ystyried y risg na fydd yr holl ddyledion sy'n weddill yn cael eu talu. Codir tâl am ddad-gydnabod incwm sy'n ddyledus sy'n annhebygol o gael ei dalu. Mae hyn yn lleihau gwerth yr asedau yn ôl y swm hwn ac yn cael ei godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES).

Derbyniodd y Cyngor £963k (£19k yn 2021/22) mewn llog o'i adneuon mewn banciau yn y DU a benthyciadau i awdurdodau lleol eraill. Mae'r llog ar fuddsoddiadau wedi gostwng oherwydd effaith y gyfradd sylfaenol hanesyddol isel a ostyngwyd oherwydd y Pandemig. Mae cyfraddau llog wedi cynyddu ers hynny ac mae'n debygol y byddant yn parhau i gael eu cynyddu ymhellach. Bydd hyn yn cynyddu'r llog sy'n dderbyniadwy ar gyfer 2023/24. Y llog a oedd yn daladwy ar fenthyciadau yn ymwneud â 2022/23 oedd £5.699m (£5.591m yn 2021/22).

| Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion | 2022/23 | | 2021/22 | |
|--|--|--|--|--|
| | Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau £'000 | Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall £'000 | Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau £'000 | Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall £'000 |
| (Enillion)/colledion net ar: | | | | |
| Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio (lwfans amhariad a dadgydnabod) | 599 | - | 416 | - |
| Cyfanswm yr enillion/colledion net | 599 | - | 416 | - |
| Refeniw llog: | | | | |
| Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio | (963) | - | (19) | - |
| Cyfanswm Refeniw Llog | (963) | - | (19) | - |
| Cost llog: | | | | |
| Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio | 5,699 | - | 5,591 | - |
| Cyfanswm Cost Llog | 5,699 | - | 5,591 | - |

NODYN 36 – NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae gwaith y Cyngor yn golygu ei fod yn agored i sawl risg ariannol: -

Risg Credyd – y posibilrwydd bod partïon eraill yn methu â thalu'r symiau sy'n dyledus i'r Cyngor.

Risg Hylifedd – y posibilrwydd na fydd cyllid gan y Cyngor i gwrdd â'i ymrwymadau yng nghyswllt taliadau.

Risg y Farchnad – y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog. Mae'r rheolaeth gyffredinol dros risgiau sylweddol sy'n codi o'r Offerynnau Ariannol yn cael cefnogaeth gan Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a hefyd y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn. Mae'r Cyngor ond wedi buddsoddi mewn banciau DU ac awdurdodau lleol eraill yn ystod y flwyddyn.

Risg Credyd – Mae Risg Credyd yn deillio o adneuoŷn gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal ag amlygiad credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar y Fantolen). Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu ar gyfer colledion credyd posibl o beidio â thalu incwm dyledus i'r Cyngor. Gelwir hyn yn lwfans colli amhariad (ILA). Yn hytrach na seilio colledion posibl ar wybodaeth hanesyddol yn unig, y ma'r Cyngor yn ystyried colledion credyd posibl yn y dyfodol yn gynharach ac mae wedi diwygio'r polisi amhariad i amharu ar golledion credyd posibl ar ddyledwyr mwy cyfredol. Mae'r polisi diwygiedig i'w weld yn Nodyn 41 Polisiâu Cyfrifyddu.

Mae'r Cyngor wedi asesu'r risg credyd o adneuoŷn banc ar y tebygolrwydd o'r banc yn diffygio wrth ad-dalu'r buddsoddiad. Mae risg uwch i'r sector bancio gan Brexi, effaith y Pandemig ac, yn fwy diweddar, effaith y rhyfel yn yr Wcraïn. Fodd bynnag, parheir i ystyried y risg o ddiffyg i fod yn isel. Mae hyn o ganlyniad i wytnwch ariannol uwch gan y banciau yn dilyn deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd yn dilyn argyfwng bancio 2008. Nid yw'r adneuoŷn banc, felly, wedi eu hamharu. Nid ydym yn trefnu adneuoŷn gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod, ar ôl cael eu graddio'n annibynnol, wedi cael graddfa credyd digonol neu lefel o warant llywodraeth, a phenderfynir ar uchafsymiau credyd i bob gwrthbarti. Gosododd y Cyngor nifer o uchafsymiau yn seiliedig ar ansawdd credyd ar gyfer gwahanol math o sefydliadau, gwahanol gyfnodau a symiau, ac mae ganddo bolisi o beidio â benthycu mwy na £10m i unrhyw un sefydliad heblaw am lywodraeth y DU. Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau credyd yn gyson a chaiff rhybudd o unrhyw newidiadau gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Cymerir camau priodol yn sgil unrhyw newid gan ddilyn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Paratoir Adroddiad Trysorlys Blynyddol sy'n manylu ar y gwaith buddsoddi.

Ni aethwyd tu draw i unrhyw uchafswm credydd yn ystod y flwyddyn ariannol ac ni thorwyd unrhyw feini prawf gwrthbariton. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl y bydd unrhyw golledion o ganlyniad i unrhyw un o'i wrthbartion fethu â pherfformio yng nghyswllt adneuoŷn.

Nid yw'r Cyngor fel rheol yn caniatáu credyd i gwsmeriaid; mae ganddo weithdrefnau casglu rhagnodedig ar gyfer symiau dyledus gan gwsmeriaid a gwneir darpariaethau priodol ar gyfer dyledion a allai fod yn rhai drwg. Mewn rhai amgylchiadau, mae'r Cyngor yn cael pridiant cyfreithiol ar eiddo ar gyfer rhai dyledion gohiriedig, megis hunan gyllidwyr mewn cartrefi gofal. Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hirach, sy'n bennaf yn fenthyciadau car i staff a morgeisi gweddilliol o gynllun caeëdig yn cynnig benthyciadau cartrefi i denantiaid ac i aelodau'r cyhoedd. Mae'r morgeisi gweddilliol yn rhai risg isel oherwydd bod y Cyngor yn diogelu'r hawl gyntaf ar yr eiddo morgeisiedig. Ystyrir bod y benthyciadau ceir yn rhai risg isel oherwydd bod modd tynnu ad-daliadau am y benthyciadau ceir o gyflogau'r gweithwyr, mae trefniadau dwyochrog gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer staff sy'n trosglwyddo gyda dyledion ar eu benthyciadau ceir, yswiriant ar gyfer benthyciadau heb eu had-dalu oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth a hefyd trefniadau arferol i ad-ennill dyledion yng nghyswllt gweithwyr sy'n gadael eu swyddi mewn llywodraeth leol.

NODYN 36a - AMHARIAD A DAD-GYDNABOD ASED AU ARIANNOL

Er mwyn sicrhau nad yw incwm y Cyngor yn cael ei orbwysleisio yn y cyfrifon hyn, mae balansau dyledwyr yn cael eu amharu i gyfrif am y risg credyd o dderbyn llai o incwm nag sy'n ddyledus. Mae'r amhariad hwn yn ystyried mwy o ddyledwyr cyfredol yn ogystal â dyledion sy'n ddyledus dros gyfnod hwy o amser. Er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn cydnabod unrhyw incwm na ellid byth ei adennill, ystyrir dileu y dyledion yma, a mae'n rhaid cymeradwyo hyn yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhai a gymeradwywyd i'w dileu yn cael eu tynnu o falans y dyledwyr a'u codi yn erbyn referniw yn adran Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant y CIES.

Mae'r newidiadau yn y lwfans amhariad a'r swm sydd wedi'i ddad-gydnabod i'w weld isod: -

| Dosbarth yr Asedau (cost wedi ei hamorteiddio) | 2022/23 | 2021/22 |
|--|---|---|
| | Colledion credyd disgwylidig dros oes yr ased - heb amhariad credyd £'000 | Colledion credyd disgwylidig dros oes yr ased - heb amhariad credyd £'000 |
| Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2021 | 4,121 | 3,743 |
| Adneuon mewn banciau'r DU | - | - |
| Dyledwyr Masnachol (ac eithrio'r sector cyhoeddus a threthi) | 441 | 389 |
| Benthyciadau Meddal | - | (21) |
| Gordaliadau budd-dal Tai | 34 | (34) |
| Rhenti | 9 | 44 |
| Cyfanswm y lwfans amhariad 31 Mawrth 2022 | 4,605 | 4,121 |
| Asedau Ariannol sydd wedi cael eu dad-adnabod | 39 | 39 |
| Cyfanswm Amhariad a Dad-gydnabod | 523 | 417 |

NODYN 36b – Risg credyd o fuddsoddiadau

Mae'r meini prawf isod yn darparu'r statws credyd isaf ar gyfer sefydliadau y mae'r Cyngor yn buddsoddi ynddynt. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn banciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU ac awdurdodau lleol eraill y DU ar ôl asesu eu gwybodaeth ariannol. Mae'r meini prawf hefyd yn caniatáu ar gyfer offerynnau ariannol Llywodraeth Ganolog y DU a chronfeydd marchnad arian A triphlyg. Mae'r meini prawf hyn wedi'u cynnwys yn Natganiad Blynyddol Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ac mae wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

| Categori | Statws Credyd Tymor Byr (Fitch) | Statws Credyd Tymor Byr (Moody's) | Statws Credyd Tymor Byr (Safon a Gwael) | Statws Credyd Hirdymor (Fitch) | Statws Credyd Hirdymor (Moody's) | Statws Credyd Hirdymor (Safon a Gwael) | Uchafswm Arian Parod | Terfyn Amser |
|---|---------------------------------|-----------------------------------|---|--------------------------------|----------------------------------|--|----------------------|---------------|
| Cymdeithasau Banc ac Adeiladu (heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol) | F1+ | P-1 | A-1+ | AAA | Aaa | AAA | £10m | 5 blwyddyn |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA | Aa2 | AA | £10m | 3 blwyddyn |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA- | Aa3 | AA- | £10m | 364 diwrnod |
| | F1 | P-1 | A-1 | A | A2 | A | £7.5m | 6 mis |
| Banciau'r DU wedi'u Gwladoli / Yn rhannol | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | £10m | 364 diwrnod |
| Banc NatWest (Wedi'i Wladoli'n Rhannol) | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | £30m | 364 diwrnod |
| Llywodraeth Ganolog y DU (waeth beth fo statws credyd) | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | Dim uwchafswm | Dim uwchafswm |
| Awdurdodau Lleol y DU* | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | £10m | 364 diwrnod |
| Cronfeydd y Farchnad Arian | n/a | n/a | n/a | AAA | AAA | AAA | £5m | 6 mis |

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr holl buddsoddiadau a waned gan y Cyngor fel ar 31 Mawrth, a chyfraddau credyd y sefydliadau sy'n cwrdd â gofynion isaf meini prawf y Cyngor. Yn 2022 dechreuodd y Cyngor osod buddsoddiadau mewn cyfrifon cyfnod penodol gyda llog sefydlog sydd yn ddiogel, ond gyda chyfraddau llog uwch. Bydd hyn yn parhau trwy 2022/23 tra mae balansau arian parod yn ddigonol i ganiatau buddsoddiadau ar gyfer cyfnodau penodol.

| Gwrthbarti (Banc) | Statws Credyd Tymor Byr (Fitch) | Statws Credyd Tymor Byr (Moody's) | Statws Credyd Tymor Byr (Safon) | Statws Credyd Hirdymor (Fitch) | Statws Credyd Hirdymor | Statws Credyd Hirdymor (Standard & Poor's) | Gwerth Teg Buddsoddia dau 31.03.23 £'000 | Gwerth Teg Buddsoddia dau 31.03.22 £'000 |
|-----------------------------------|---------------------------------|-----------------------------------|---------------------------------|--------------------------------|------------------------|--|---|---|
| Goldman Sachs International Bank | F1 | P-1 | A-1 | A+ | A1 | A+ | 7,500 | 7,501 |
| Bank of Scotland | F1 | P-1 | A-1 | A+ | A1 | A+ | - | 7,207 |
| Natwest Cash Fixed Term Deposit | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | 10,000 | - |
| Natwest Cash Manager Call Account | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | 11,518 | 24,001 |
| Santander | F1 | P-1 | A-1 | A+ | A1 | A | 7,500 | 7,408 |
| Royal Bank of Scotland | F1 | P-1 | A-1 | A+ | A1 | A | 2 | 2 |
| Cyngor Bwrdeistrefol Sir Wrecsam | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | 5,000 | - |
| | | | | | | | 41,520 | 46,119 |

NODYN 36c - PROFFIL O BA BRYD Y MAE'R CYNGOR I FOD I AD-DALU BENTHYCIADAU

Mae Risg Hylifedd yn isel am nad yw'r Cyngor yn y gorffennol wedi cael unrhyw broblem cael cyllid ac mae'n rhydd i fynd at y Bwrdd Benthycia ar gyfer Gwaith Cyhoeddus (PWLb) fel corff i fenthycia oddi arno ar ôl methu fel arall. Prif nodau'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yw i sicrhau bod yr Awdurdod yn agored i risg isel ac i sicrhau hylifedd. Mae'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cyfrifon adneuoedd mynediad yn syth. Felly, mae llai o risg y bydd yn methu â chodi'r cyllid i gwrdd â'i ymrwymadau dan yr offerynnau ariannol.

Fodd bynnag, yn aml mae risg y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn uchel. Byddai'r cyfraddau llog isel cyfredol yn gostwng cyfraddau llog ar fenthyciadau newydd a gymerir i ad-dalu'r ddyled sy'n aeddfedu. I gynorthwyo i gyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli'r trysorlys allanol.

Dangosir dadansoddiad aeddfedu benthyciadau sy'n sefyll yn Nodyn 36c isod. Mae holl daliadau masnachol a thaliadau eraill yn daladwy mewn llai nablwyddyn.

| | 2022/23 Prifswm Gweddillol £'000 | 2022/23 Llog wedi Cronni £'000 | 2022/23 Costio llai amorteiddiad cronedig £'000 | 2021/22 Prifswm Gweddillol £'000 | 2021/22 Llog wedi Cronni £'000 | 2021/22 Costio llai amorteiddiad cronedig £'000 |
|--|---|---|---|---|---|---|
| >50 blwyddyn | - | - | - | - | - | - |
| 34-50 blwyddyn | 41,476 | - | 41,476 | 49,976 | - | 49,976 |
| 23-33 blwyddyn | 41,738 | - | 41,738 | 45,712 | - | 45,712 |
| 15-22 blwyddyn | 23,219 | - | 23,219 | 11,932 | - | 11,932 |
| 11-14 blwyddyn | 2,422 | - | 2,422 | 2,194 | - | 2,194 |
| 7-10 blwyddyn | 3,816 | - | 3,816 | 4,938 | - | 4,938 |
| 4-6 blwyddyn | 5,620 | - | 5,620 | 4,523 | - | 4,523 |
| 1-3 blwyddyn | 3,266 | - | 3,266 | 3,401 | - | 3,401 |
| Cyfanswm y Benthyciadau Tymor Hir | 121,557 | - | 121,557 | 122,676 | - | 122,676 |
| Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (< 1 blwyddyn) | 2,243 | 1,868 | 4,111 | 2,672 | 1,892 | 4,564 |
| Cyfanswm | 123,800 | 1,868 | 125,668 | 125,348 | 1,892 | 127,240 |

NODYN 36ch – RISG Y FARCHNAD AC AMCANGYFRIF O EFFAITH CYNNYDD UN Y CANT MEWN CYFRADDAU LLOG AR ASED AU ARIANNOL

Risg Cyfraddau Llog – Mae'r Cyngor yn gwynebu risg posibl pan fo symudiadau ymhlith cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor.

Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn: -

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn y treuliau llog a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gostyngiad yn rhwymedigaethau gwerth teg y benthyciadau;
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn yr incwm llog wedi'u gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - bydd gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg gan fod y rhain yn cael eu cario ar Gost Wedi'i Amorteiddio yn unol â chod CIPFA. Felly, ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau nac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau mewn llog sy'n daladwy ac sy'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Gydbwysedd Cronfa'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfradd llog. Polisi'r Cyngor yw benthycu'n bennaf ar gyfraddau sefydlog, gan gael sicrwydd o ran llog sy'n daladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth ei gynghorwyr trysorlys, yn monitro'n barhaus y cyfraddau llog sy'n bodoli a rhagolygon y farchnad. Pe bai risg sylweddol o gynnydd sydyn mewn cyfraddau tymor hir a thymor byr, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hail-arfarnu a'r canlyniad tebygol fyddai y byddai cyllid cyfradd sefydlog yn cael ei dynnu i lawr tra bod cyfraddau llog yn dal i fod yn gymharol rad. Pe bai risg sylweddol o ostyngiad sydyn mewn cyfraddau tymor hir a thymor byr, yna byddai benthyciadau hirdymor yn cael eu gohirio a byddai unrhyw aildrefnu priodol o gyllid cyfradd sefydlog i gyllid cyfradd fer yn cael ei wneud.

Cedwir holl fenthyciadau cyfredol a hir dymor y Cyngor ar gyfraddau sefydlog. Mae hyn yn gymorth i leihau effaith newidiadau i gyfraddau banc ar y Cyngor. Mae Nodyn 36ch yn dangos effaith cynnydd o 1% yn y gyfradd llog ar werth teg Offerynnau Ariannol y Cyngor. Byddai gwerth y benthyciadau yn y Fantolen yn aros yr un fath oherwydd bod y cyfraddau llog yn cael eu pennu. Fodd bynnag, byddai'r gwerth teg yn gostwng. Byddai'r cynnydd yn y gyfradd yn cael effaith gadarnhaol ar adneuon y Cyngor gan y byddai llog ychwanegol o £115k yn cael ei dderbyn pe bai cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog. Fodd bynnag, gan fod buddsoddiadau'r Cyngor yn dueddol o fan yn rhai term penodol sydd yn cynnig enillion uwch, tydi'r effaith cynnydd o 1% ddim yn cael ei gynnwys yn y ffigwr isod.

| Effaith cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | £000 |
|---|---------------|
| Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy o fuddsoddiadau | 115 |
| Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | 115 |
| Gostyngiad yng ngwerth teg ymrwymadau benthyciadau cyfradd sefydlog (dim effaith ar y Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau neu Incwm Cynhwysfawr arall) | 15,393 |

Mae'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth a chyngor rheolaidd am y farchnad, Brexit, Covid-19 ac yn fwy diweddar, y rhyfel yn yr Wcrain gan ei ymgynghorwyr rheoli trysorlys.

Mae gan y Cyngor falansau arian parod digonol ac nid yw wedi cymryd unrhyw fenthyciadau PWLB yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mi wnaeth y Cyngor gymryd dau fenthyciad Salix a oedd yn benodol ar gyfer defnydd mwy effeithiol o ynni.

NODYN 37 – CYD-BWYLLGORAU A CHYLLIDEBAU CYFUN

NODYN 37a – CYD-BWYLLGORAU

Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am redeg y pwyllgor hwn, ac mae'r balansau diwedd blwyddyn wedi eu cynnwys yn eu Mantolen. Gellir edrych ar gyfrifon y pwyllgor drwy'r ddolen ganlynol:-

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Pwyllgor-Polisi-Cynllunio-Ar-y-Cyd.aspx>

GwE

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngorau Gwynedd, Conwy, Sir Y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych yn ran o gyd-bwyllgor GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol).

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am redeg y pwyllgor hwn, ac mae'r balansau diwedd blwyddyn wedi eu cynnwys yn eu Mantolen. Gellir edrych ar gyfrifon y pwyllgor drwy'r ddolen ganlynol: -

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Cyd-bwyllgor-GwE.aspx>

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Mae'r Cyngor yn rhan o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru. Un o rolau allweddol y pwyllgor hwn yw cydgysylltu'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r weledigaeth ar gyfer twf yng Ngogledd Cymru, gan roi pwyslais cychwynnol ar y Fargen Dwf. Mae'r Fargen Dwf yn becyn cyllid gan y Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru, gyda chyllideb o £240m i gyflawni prosiectau ledled Cymru i sicrhau twf cynaliadwy ac economaidd.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y Cydbwyllgor ar wefan Cyngor Gwynedd yn y cyfeiriad/dolen ganlynol ar y we: -

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Bwrdd-Uchelgais-Economaidd-Gogledd-Cymru.aspx>

Parc Adfer (Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru)

Daeth Parc Adfer yn weithredol yn llawn yn ystod 2019/20. Mae'r costau gwasanaeth i'w gweld yn rhan Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cyngor Sir y Fflint sy'n gweithredu fel yr awdurdod arweiniol ar y prosiect yma. Gellir gweld copi o gyfrifon 2021/22 gan ddefnyddio'r isod:-

<https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=300&MIId=5127&Ver=4&LLL=0>

Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn rhan o amryfal drefniadau ar y cyd gyda Chyngorau cyfagos yng Ngogledd Cymru a Llywodraeth Cymru'r Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:-

- Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (Arweinydd: Wrecsam. Partïon: Sir Y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff (Arweinydd: Sir Y Fflint. Partïon: Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol (Arweinydd: Sir Y Fflint, Partion Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Galw Gofal (Arweinydd: Conwy. Partion: Gwynedd, Sir y Fflint);

- O dan reoliad 19 (1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllideb gyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gweler Nodyn 37b);
- Stâd Diwydiannol Penrhos - Trefniant ar y cyd ers 2020/21 gyda Llywodraeth Cymru, lle mae 16% o'r incwm rhent net yn cael ei gadw gan y Cyngor a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Mae'r cam cyntaf wedi'i gwblhau ac mae camau 2 a 3 ar y gweill ar hyn o bryd;
- Tregarnedd - trefniant ar y cyd newydd gyda Llywodraeth Cymru i adeiladu unedau diwydiannol yn Llangefni. Mae'r gwaith adeiladau ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd incwm cyfalaf yn deillio o'r unedau hyn yn cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru.

Y gweithrediadau ar y cyd sy'n ymwneud ag Ynys Môn yn 2022/23, o ganlyniad i argyfwng Covid19, yw: -

- Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu - olrhain cysylltiadau unigolion sydd wedi dal coronafirws i allu ymyrryd â'r lledaeniad o Covid 19 drwy sicrhau bod achosion a'u cysylltiadau yn hunanynysu. Cyngor Sir y Fflint yw'r arweinydd ar gyfer y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Rhan Cyngor Sir Ynys Môn o'r gwariant ar gyfer 2022/23 yw £364k;
- Cynllun Argyfwng Bysiau - wedi ei gyllido gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithredwyr bysiau rhanbarthol. Cyngor Sir y Fflint yw'r asiant ar gyfer y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Caiff yr incwm a gwariant eu rhannu rhwng y chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru ar sail y Grant Cefnogi Gwasanaethau Bws. Derbyniodd Cyngor Sir Ynys Môn £852k yn ystod 2022/23 i'w dyrannu i'r gweithredwyr bysiau.

NODYN 37b CYLLIDBAU CYFUN AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllideb cyfun rhwng chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu llety cartrefi gofal i bobl hŷn. Daeth y trefniant i rym ar 1 Ebrill 2019. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod lletyol yn ystod tymor cychwynnol y cytundeb

Mae'r trafodion ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn unig, sef £5.708m (£5.209m 2021/22), wedi'u cynnwys yn llinell Gwasanaethau Oedolion y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae incwm a gwariant ar gyfer y trefniadau cyllideb gyfun hyn fel a ganlyn. Mae'r cyfraniadau ar gyfer chwarter 4 wedi eu cynnwys er gwybodaeth yn unig a heb eu cronni yn y cyfrifon. Yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth, bydd y taliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ôl-ddyled yn ystod 2023/24: -

| Cyllideb Gyfun Gogledd Cymru ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn | 2022/23 | 2021/22 |
|--|------------------|-----------------|
| | £'000 | £'000 |
| Gwariant | | |
| Costau Cartrefi Gofal | 111,032 | 98,982 |
| Cyfanswm gwariant | 111,032 | 98,982 |
| Cyllido | | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (5,708) | (5,209) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (15,864) | (14,221) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (10,236) | (9,340) |
| Cyngor Sir y Fflint | (10,556) | (10,095) |
| Cyngor Gwynedd | (11,214) | (9,143) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (14,434) | (15,317) |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | (43,020) | (35,657) |
| Cyfanswm a Gyllidwyd | (111,032) | (98,982) |
| | | |
| (Gwarged)/Diffyg a drosglwyddwyd i'r gronfa wrth gefn | - | - |

NODYN 38 – TREFNIADAU ASIANTAETH

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu fel asiant ar gyfer gwahanol gynlluniau ar ran Llywodraeth Cymru.

Troi Tai'n Gartrefi

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu benthyciadau i unigolion i atgyweirio cartrefi gwag er mwyn lleihau y nifer o gartrefi gweigion ar Ynys Môn a chynyddu'r cyfleoedd tai: -

Tai'n Gartrefi £715k (£715k 2021/22);

Gwelliannau i'r Cartref, Cartrefi Gwag £108k (£108k 2021/22);

Cynllun Canol Tref £810k (£875k 2021/22);

Cynllun Adnewyddu Cartrefi Gwag £333k (£333k 2021/22);

Y Pandemig Covid

Yn ystod 2022/23, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru drwy weinyddu ycefnogaeth gwahanol ar gael i breswylwyr a busnesau Ynys Môn yn ystod y pandemig ac yn y cyfnod adfer ar ôl y pandemig.

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau craidd drwy gyfnod y pandemig, yn ogystal ag ymdrîn â gwaith ychwanegol yn ymwneud â'r amgylchiadau, yn benodol trwy weinyddu'r grantiau Covid canlynol:-

- Grantiau Cefnogi Busnes – Grantiau i gefnogi busnesau yn ystod y cyfnodau clo;
- Grantiau Hunan-Ynysu – Taliadau i unigolion oedd yn hunan-ynysu o ganlyniad i fod mewn cyswllt / cyswllt posib i Covid;
- Taliadau Tanwydd Gaeaf – Taliadau i gartrefi cymwys i ddarparu cefnogaeth i dalu eu biliau tanwydd yn ystod y gaeaf;
- Cynllun Gwella'r Taliadau Salwch Statudol (SSP) – Ychwanegu at y SSP i gyflog llawn i weithwyr gofal na na all weithio oherwydd Covid19.

- Taliadau Gofal Cymdeithasol – taliad bonws i weithwyr gofal cymdeithasol fel cydnabyddiaeth o'u gwaith yn ystod y pandemig.

| Teitl y Grant | 2022/23 | | | | 2021/22 | | | |
|---------------------------------|---------------------------|--|--------------------------------------|--|---------------------------|--|--------------------------------------|--|
| | Taliadau a Wnaed £'000 | Grant a Dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru £'000 | Ffi Gweinyddu a Dderbyniwyd £'000 | Balans yn ddyledus (i)/gan Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth £'000 | Taliadau a Wnaed £'000 | Grant a Dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru £'000 | Ffi Gweinyddu a Dderbyniwyd £'000 | Balans yn ddyledus (i)/gan Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth £'000 |
| Grantiau Busnes | - | 2,172 | - | - | 1,119 | (1,119) | (179) | (2,172) |
| Cynllun Hunan-ynysu | 416 | (633) | (23) | - | 522 | (444) | (92) | 452 |
| Taliadau Tanwydd Gaeaf | 1,287 | (1,545) | (46) | 219 | 609 | (212) | (28) | 438 |
| Ychwanegiad Tâl Salwch Statudol | 137 | (162) | - | - | 80 | (69) | - | 41 |
| Cynllun Cymorth Costau Byw | 3,289 | (3,289) | - | - | - | - | - | 3,557 |
| Cynllun Cymorth Biliau Egni | - | (450) | - | - | - | - | - | - |
| Taliadau Gofal Cymdeithasol | 2,890 | - | - | 2,890 | 1,582 | (1,584) | - | (1) |
| Catrefi i Wcrain | 103 | 99 | - | 4 | - | - | - | - |
| Cyfanswm | 8,122 | (3,808) | (69) | 3,113 | 3,912 | (3,428) | (299) | 2,315 |

Nodyn – Mae'r ffigur £3,557k o fewn 2021/22 wedi ei gywiro a'i nodi fel balans yn ddyledus gan Llywodraeth 31 Mawrth 2022 yn hytrach na thaliadau a wnaed.

Cynllun Cymorth Costau Byw

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn o fesurau i helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw. Bwriad y cynlluniau yw darparu cymorth ar unwaith wrth i Gymru adfer o'r pandemig a chefnogi aelwydydd i ddelio ag effaith cynnydd mewn ynni a chostau eraill.

Cynllun Cymorth Biliau Ynni

Cynllun yw hwn i helpu i leihau effaith y cynnydd mewn costau ynni lle darperir £400 i bob cartref tuag at eu biliau ynni.

Cartrefi ar gyfer Wcráin

Roedd elfen asiantaeth y cynllun hwn yn cynnwys taliad diolch o £350 y mis i'r rhai sy'n cynnal teuluoedd sy'n ffoi o'r Wcráin, ac yn cynyddu i £500 ar ôl 12 mis, hyd at uchafswm o ddwy flynedd. Elfennau arall y cynllun hwn yw taliad o £200 i deuluoedd Wcrain i'w helpu i ddechrau bywyd yng Nghymru.

Bwriad y cynlluniau yw i roi cymorth uniongyrchol tra mae Cymru yn adfer o'r pandemig ac i gynorthwyo cartrefi i ymdrin ag effaith cynnydd mewn costau egni a chostau eraill.

NODYN 39 – Y DRETH GYNGOR

Mae incwm y Dreth Gyngor yn deillio o godi ar werth eiddo preswyl, ac mae'r gwerth hwnnw wedi ei rannu'n naw band yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill 2003 i'r pwrpas penodol hwn. Penderfynir ar y taliadau trwy amcangyfrif faint o incwm y bydd raid i'r Cyngor ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ei gael dros y flwyddyn nesaf ac wedyn rhennir y swm gyda'r sylfaen y Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr eiddo ym mhob band prisio gan addasu trwy gyfran a throsi'r nifer i'r hyn sy'n cyfateb i fand D ac addasu ar gyfer disgownt. Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23 oedd £32,042.00 (£31,548.20 yn 2021/22).

Wedyn, mae'r swm i eiddo band D yn 2022/23, £1,738.01 (£1,697.14 yn 2021/22), yn cael ei luosi gan y gyfran a benodir i'r band penodol er mwyn rhoi'r swm dyledus fesul band. Cyfrifir am symiau unigol sy'n ddyledus gan ganiatáu disgownt a budd-dal i'r swm dyledus fesul band.

Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion isod i fandiau A i I: -

| Band | Cyfanswm Anheddau | Lluosydd | Band "D" Cyfatebol |
|-----------------|-------------------|----------|--------------------|
| A* | 12 | 5/9 | 6.39 |
| A | 4,218 | 6/9 | 2,812.00 |
| B | 6,135 | 7/9 | 4,771.47 |
| C | 6,324 | 8/9 | 5,621.11 |
| D | 6,822 | 9/9 | 6,822.00 |
| E | 5,248 | 11/9 | 6,414.53 |
| F | 2,573 | 13/9 | 3,716.56 |
| G | 1,072 | 15/9 | 1,787.08 |
| H | 159 | 18/9 | 318.50 |
| I | 53 | 21/9 | 122.50 |
| Cyfanswm | | | 32,392.14 |

Cyfrifir Sylfaen Treth y Cyngor fel a ganlyn:-

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|------------------|------------------|
| Band D cyfatebol fel yr uchod | 32,392.14 | 31,880.58 |
| Cyfradd Gasglu | 98.50% | 98.50% |
| Band D cyfatebol diwygiedig | 31,906.26 | 31,402.37 |
| Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn – Band D cyfatebol | 135.74 | 145.83 |
| Sylfaen y Dreth Gyngor | 32,042.00 | 31,548.20 |

| Dadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor: | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|------------------|------------------|
| Y Dreth Gyngor Gros | 55,595 | 53,931 |
| Ychwanegu / Llai: darpariaeth ar gyfer diffyg-dalu nid oedd ei angen neu cyfrifwyd amdano o'r blaen | (666) | (585) |
| Y Dreth Gyngor sy'n Gasgladwy | 54,929 | 53,346 |
| Llai Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a roddwyd i breswylwyr | (6,236) | (6,294) |
| Enillion Net o'r Dreth Gyngor | 48,693 | 47,052 |

Yn 2013/14, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gymryd lle'r cynllun budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Dyfarnwyd £6.236m o ostyngiadau'r dreth gyngor yn 2022/23 (£6.294m yn 2021/22).

NODYN 40 – TRETHI ANNOMESTIG (TA)

Fel arfer, asesir eiddo annomestig bob pum mlynedd at ddibenion cyfrifo atebolrwydd ar gyfer NDR. Daeth y rhestr ddiweddaraf i rym ar 1 Ebrill 2017, mae rhestr newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023, a fydd yn effeithio ar 2023/24 ymlaen. Nid yw ailbriso yn codi refeniw ychwanegol yn gyffredinol ond maent yn adlewyrchu newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad eiddo ledled y wlad, gan ailddosbarthu'r un cyfanswm atebolrwydd treth ar gyfer NDR. Bydd rhai biliau ardrethi yn codi a bydd rhai yn gostwng ond dim ond gyda chwyddiant y bydd y bil cenedlaethol cyfartalog yn newid.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu swm ar gyfer y gyfradd - 53.5c yn 2022/23 (53.5c yn 2021/22), a threthi cyflogau busnesau lleol a gyfrifir drwy luosi eu gwerth ardrethol â'r swm hwnnw. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu cyfraddau sy'n ddyledus gan drethdalwyr yn ei ardal ond mae'n talu'r elw i'r gronfa NDR a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Yna mae Llywodraeth Cymru yn aildosbarthu'r symiau a dalwyd i'r gronfa yn ôl i awdurdodau lleol ar sail swm sefydlog fesul pen o'r boblogaeth.

Cyfanswm incwm NDR, ar ôl rhyddhad a darpariaethau (gan gynnwys Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru), oedd £14.061m ar gyfer 2022/23 (£8.207m yn 2021/22) ac roedd yn seiliedig ar werth ardrethol ar ddiwedd y flwyddyn o £41.428m (£40.998m yn 2021/22).

| Dadansoddiad o'r enillion net o drethi annomestig: | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|--|--------------------------|--------------------------|
| Trethi annomestig casgladwy | 14,061 | 8,207 |
| Cost lwfans casglu | (184) | (179) |
| Llog dalwyd ar ordaliadau | - | - |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg | (169) | (1) |
| Cyfraniad i gost rhyddhad trethi elusenol/gwledig | 72 | 74 |
| Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch wedi'i fodloni o'r grant | 1,578 | 6,853 |
| Rhyddhad Manwerthu a'r Stryd Fawr y talwyd trwy grant | - | 1 |
| Taliadau i mewn i'r gronfa genedlaethol | 15,358 | 14,955 |
| | | |
| Aildosbarthu o'r gronfa genedlaethol | 25,493 | 23,480 |

NODYN 41 – POLISIÂU CYFRIFO

Yn yr adran hon, ceir manylion am y polisiâu cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer cwblhau'r cyfrifon.

| Cyfeirnod Polisi | Teitl Polisi |
|------------------|---|
| 1 | Egwyddorion Cyffredinol |
| 2 | Cronni Incwm a Gwariant |
| 3 | Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen |
| 4 | Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd |
| 5 | Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau |
| 6 | Treth ar Werth (TAW) |
| 7 | Mesur Gwerth Teg |
| 8 | Asedau Anghyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar) |
| 9 | Eiddo Buddsoddiad |
| 10 | Asedau Anniriaethol |
| 11 | Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir |
| 12 | Arian Parod a Chywerthoedd Arian |
| 13 | Offerynnau Ariannol |
| 14 | Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn |
| 15 | Cronfeydd Wrth Gefn |
| 16 | Cydnabyddiaeth Refeniw |
| 17 | Llog Mewnol |
| 18 | Prydlesau |
| 19 | Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol - Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) |
| 20 | Grantiau a Chyfraniadau gan y Llywodraeth |
| 21 | Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS) |
| 22 | Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol |
| 23 | Arian Tramor |
| 24 | Buddiannau'r Gweithwyr |
| 25 | Eitemau Eithriadol |
| 26 | Cyfrifo am TA (Trethi Annomestig) |
| 27 | Incwm a Gwariant Asiantaeth |

1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor am flwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2023. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018, a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn, yn bennaf, yw Côt Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 a Chôt Ymarfer CIPFA ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2022/23, ac a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r holl brif bolisiâu cyfrifo wedi cael eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Paratowyd y Datganiad Cyfrifon ar sail "busnes hyfyw".

2. Cronni Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am drafodion yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid pan fydd yr arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn. Mae'r dull hwn o gyfrifo croniadau yn darparu sylfaen fwy cyflawn ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol y Cyngor oherwydd mae'n cynnwys ymrwymiadau'r Cyngor yn y dyfodol i dalu/derbyn arian am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd erbyn 31 Mawrth 2023 ond nas talwyd amdanynt. Caiff incwm a gwariant eu cyfrifo amdanynt yn y flwyddyn y digwyddodd y gweithgaredd y mae'n berthnasol iddynt, nid pan fo arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn, h.y. ar sail gronol. Mae hyn yn golygu fod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill ac nid ar adeg ei dderbyn a gwariant pan mae'n digwydd yn hytrach nag ar adeg ei dalu. Fe gynhwysir incwm am werthu nwyddau yn y cyfrifon pan gwblheir y gwerthiant, nid pan dderbynnir yr arian. Caiff incwm o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan fedr y Cyngor fesur yn ddibynadwy'r ganran o'r trafodyn a gwblhawyd ac, o ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yn cael incwm yn gyfnewid am y gwasanaethau a ddarparwyd. Yn ychwanegol at hyn:-

- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel rhestrau stoc ar y Fantolen;
- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud;
- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac adneuo banc ac sy'n daladwy ar fenthyciadau (gan gynnwys gorddrafftiau banc) yn cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract; a
- Pan fo referniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyledwr neu gredydwr i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan na fydd dyledion o bosib yn cael eu setlo, mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar referniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

3. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Gall pethau ddigwydd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a all gael effaith sylweddol ar ganlyniadau ariannol y flwyddyn honno. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Caiff y Datganiad Cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi pan fydd y Swyddog Adran 151 wedi llofnodi'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio, ar ôl i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Yn unol â'r gyfraith, rhaid cwblhau'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio a'u hawdurdodi erbyn 31 Gorffennaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:-

- y rheini sy'n rhoi tystiolaeth o'r amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau; a
- y rheini sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y flwyddyn ariannol – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau ond, lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'r effaith y disgwyllir iddynt eu cael o safbwynt ariannol.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi'r datganiad ar gyfer ei gyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

4. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Cyngor ar y cyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedau ac o adnoddau'r mentrau yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau y mae'n eu hwynebu. Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei ddebydu gyda'r gwariant hwnnw a'i gredydu gyda'r gyfran o'r incwm y mae'n ei ennill o ganlyniad i weithrediad y fenter.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau o eiddo, offer neu gyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan y Cyngor a mentrau eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwyr. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau a gaiff ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y fenter ar y cyd a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau

Gall addasiadau ar gyfer cyfnod blaenorol ddeillio o newid mewn polisiâu cyfrifo neu o gywiro camgymeriad materol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac yn ystod y blynyddoedd i ddod a fydd yn cael eu heffeithio gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni fydd newidiadau i bolisiâu cyfrifo ond yn cael eu gwneud pan mae hynny'n ofynnol dan arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth sy'n fwy dibynadwy neu berthnasol o safbwynt effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau mewn perthynas â sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni ddywedir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau materol a ganfyddir yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl- weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

6. Treth ar Werth (TAW)

Mae TAW sy'n daladwy ond yn cael ei gynnwys fel traul i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.Mesur Gwerth Teg

7. Mesur Gwerth Teg

Mae Mesur Gwerth Teg SAARh13 yn golygu bod rhaid i'r rhan fwyaf o'r asedau, rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol gael eu prisio ar werth teg, yn aml yn ôl cyfraddau marchnad actif lle mae un ar gael. O safbwynt asedau gweithredol, mae'r safon yn cyflwyno'r cysyniad o werth teg yn seiliedig ar werth cyfredol (yn aml, gwerth mewn defnydd) ar gyfer ailbrizio Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae hyn yn golygu y dylai'r mesur adlewyrchu amodau'r farchnad ar gyfer y gwasanaeth neu'r swyddogaeth ar

ddyddiad cyflwyno'r adroddiad. Mae'r safon yn darparu gwahanol ddulliau prisio teg ar gyfer mathau o asedau gwahanol. Yn achos asedau nad ydynt yn rhai gweithredol, h.y. asedau buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu ac asedau nad oes mwyach eu hangen, caiff y rhain eu prisio ar eu uchaf ac yn ôl y defnydd gorau y gellir ei wneud ohonynt. Mewn achos lle gellid gwneud defnydd arall ohonynt a fyddai o werth teg uwch, dyna'r gwerth teg a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prisio asedau nad ydynt yn rhai gweithredol. O dan y côd hwn, nid oes angen ailbriso asedau isadeiledd yn ôl eu gwerth cyfredol. Yn lle hynny, caiff asedau isadeiledd eu prisio yn ôl y gost hanesyddol dibrisiedig.

Mae'r Awdurdod yn mesur gwerth teg ased neu rwymedigaeth drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau y byddai'r sawl sy'n weithredol yn y farchnad yn eu defnyddio wrth briso ased neu rwymedigaeth, gan dybio y byddai'r rheini yn gweithredu er eu budd economaidd gorau.

8. Asedau nad ydynt yn Gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)

8.1 Cydnabyddiaeth

Mae asedau anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar - yn asedau ffisegol sy'n para am flwyddyn neu ragor ac sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor i gefnogi'r ddarpariaeth o nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi pennu isafswm ar gyfer gwariant ar asedau a fydd yn cael ei gategoreiddio fel gwariant cyfalaf. Y swm de-minimus hwn yw £10k. Caiff gwariant ar brynu, creu neu wella asedau anghyfredol ac sy'n costio £10k neu fwy ei gyfalafu ar sail cronïadau ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r diffiniad uchod o ased anghyfredol. Byddai Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys asedau megis peiriannau, ni fyddai fel arfer yn cynnwys asedau a ddelir i'w gwerthu oherwydd, fel arfer, byddid yn disgwyl cael gwared ar y rhain o fewn 12 mis.

Gall costau'r asedau hyn gynnwys costau cychwynnol eu prynu a'u hadeiladu a chostau dilynol i wella neu i adnewyddu rhan o'r ased. Caiff unrhyw wariant arall a gyfyd yn sgil gynnal a chadw asedau o ddydd i ddydd, yn cynnwys atgyweiriadau a chynnal a chadw, ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r costau hynny godi.

8.2 Mesur

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- y pris prynu;
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr; ac
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno mewn achosion lle mae'n rhaid, er mwyn defnyddio'r ased, ei hail-leoli.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gafaelir mewn modd ac eithrio drwy eu prynu yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r pryniant (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan afaelir ased drwy gyfnwid, cost y pryniant yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:-

- Isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost dibrisiant hanesyddol;
- Tai Cyngor – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH);
- Swyddfeydd y Cyngor – gwerth cyfredol, a bennir gan y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol;
- Adeiladau ysgolion – byddent yn cael eu prisio yn ôl eu gwerth cyfredol wrth gael eu defnyddio ond, oherwydd eu natur arbenigol, fe'u mesurir yn ôl cost amnewiddibrisiant;
- Asedau dros ben – y mesur gwerth cyfredol yw gwerth teg, amcangyfrifir ar y defnydd uchaf a gorau o bersbectif rhai sy'n weithgar ar y farchnad;
- Mae'r holl asedau gweithredol eraill wedi cael eu mesur yn unol â'u gwerth presennol yn seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol (EUV). Mae hyn yn golygu mai gwerth cyfredol tir ac adeiladau fyddai'r swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol. Os nad oes marchnad amlwg ar gyfer ased oherwydd ei natur arbenigol neu os nad yw'r math hwnnw o ased yn cael ei werthu'n aml, bydd yr Awdurdod yn amcangyfrif ei werth cyfredol gan ddefnyddio'r dull cost amnewidiol dibrisiedig. Er enghraifft, yn achos eiddo sy'n cynnwys tir ac adeiladau, y gost ddibrisiedig o'i amnewid byddai gwerth marchnad y tir y mae'r adeilad arno ar gyfer ei ddefnydd cyfredol ynghyd â chost gros amnewid yr adeilad llai lwfansau ar gyfer dirywiad ffisegol, darfodedigrwydd ac optimeiddio;
- Caiff asedau a dderbynnir fel rhoddion eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl eu gwerth teg. Caiff y gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw bris a dalwyd ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Trethiant a Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Lle mae amodau ynghlwm wrth unrhyw asedau a gafwyd yn rhodd, caiff yr enillion eu credydu i'r Cyfrif Asedau a gafwyd yn rhodd. Lle mae enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu symud allan o falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn;
- Lle mae rhan neu gydran o ased yn cael ei amnewid, caiff gwerth cario'r hen ran neu gydran ei ddadgydnabod er mwyn osgoi cyfrif dwbl. Caiff gwerth y gydran newydd ei hychwanegu at y swm sy'n cario. Os nad yw'n ymarferol gwneud penderfyniad ynghylch gwerth cario'r rhan sydd wedi ei amnewid, defnyddir cost y rhan newydd fel arwydd o gost y rhan sydd wedi cael ei amnewid; a
- Os nad yw ased yn cael ei ddal i bwrpas cynhyrchu llif arian, tybir bod gwerth mewn defnydd o leiaf yn gyfartal i gost amnewid gwasanaeth potensial o'r ased.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Fel arfer, mae 'oes defnyddiol byr' yn golygu 7 mlynedd neu lai, er gall fod yn hirach am eitemau arbenigol o offer a chyfarpar.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n faterol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn prisio ei asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar ar sail rhaglen dreigl pum mlynedd. Fodd bynnag, caiff asedau sydd â gwerth cario o dros £500k eu hailbrisio bob blwyddyn. Mae cynnydd mewn gwerthoedd asedau'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mewn achosion eithriadol, gellir credydu enillion ailbrisiant i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrddroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano trwy:-

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion sydd wedi cronni); a
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y wasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

8.3 Amhariad

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau sy'n rhoi arwydd y gallai amhariad fod wedi digwydd yn cynnwys:-

- dirywiad sylweddol (h.y. mwy na'r disgwyl o ganlyniad i dreigl amser neu ddefnydd cyffredin) yn swm cario'r ased yn ystod y cyfnod, sy'n benodol i'r ased;
- tystiolaeth o ddarfodiad neu niwed ffisegol i ased;
- ymrwymiad gan y Cyngor i ymgymryd ag ad-drefnu sylweddol; a
- newid andwyol sylweddol yn yr amgylchedd statudol neu reoleiddiol arall y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo.

Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn faterol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased ac, mewn achos lle mae'r swm hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad ar asedau a gawsant eu hailbrisio, cyfrifir amdanynt trwy:-

- pan mae balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus);

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo colled amhariad yn cael ei wrthdroi wedyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydabod. Nodir unrhyw beth dros ben yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

Pan mae'r amhariad yn ymwneud ag ased na chafodd ei hailbriso (h.y. ased â gwerth cario yn seiliedig ar gost hanesyddol), caiff yr amhariad ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

8.4 Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar er mwyn dyrannu eu symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodol (h.y. tir rhydd-ddaliadol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu). Fodd bynnag, os bydd unrhyw asedau y disgwylir i'w bywydau economaidd defnyddiol fod yn fyrrach neu'n hirach na'r cyfnodau a nodir isod, o ganlyniad i farn broffesiynol neu a ddarperir gan y gweithgynhyrchwr neu a ddangosir fel safon y diwydiant. Gellir codi dibrisiant ar fywyd economaidd defnyddiol y tu allan i'r ffiniau isod.

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:-

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros gyfnodau hyd at 75 mlynedd, fel yr amcangyfrifir gan y Prisiwr;
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnodau hyd at 45 mlynedd
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros 5 i 15 mlynedd.

Mewn achos lle mae gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Ni chodir dibrisiant yn y flwyddyn y prynir yr ased.

Pan fo gan eitem o Eiddo, Peiriannau ac Offer (Ased Nad yw'n Gyfredol) gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr eitem, mae'r cydrannau'n cael eu dibrisio ar wahân.

Mae cymhwyso hyn yn ymarferol yn gofyn am asesiad yn erbyn y meini prawf isod, er mwyn canfod a yw:-

- Mae'r bywyd defnyddiol economaidd yn wahanol iawn i elfennau eraill yr ased h.y. 15 mlynedd neu fwy;
- Mae gwerth yr ased yn £2m neu'n fwy ac mae'r gydran dros 25% o gyfanswm gwerth yr ased;
- Mae'r bywyd defnyddiol economaidd yn wahanol iawn ond mae'r gwerth yn cynrychioli llai na 25% o gyfanswm gwerth yr ased; bydd y gydran yn cael ei nodi ar wahân os bernir, ym marn y Prisiwr, ei bod yn berthnasol, e.e. lle mae gwerth cydran, dyweder, yn £3m (10%) o'r ased dibrisio sydd â chyfanswm gwerth o £30m.

Os yw'r ased dibrisio yn rhan o grŵp ehangach a ddelir at yr un diben, er enghraifft, canolfannau hamdden, bydd y polisi a argymhellir hwn ar gydrannau yn cael ei gymhwyso i gyfanswm y grŵp ehangach hwn ac nid i bob unigolyn sy'n dibrisio ased o fewn y grŵp.

8.5 Asedau y ceir gwared arnynt ac Asedau Anghyfredol a delir i'w Gwerthu

Mae'r asedau hyn yn cael eu marchnata'n rhagweithiol ar gyfer eu gwerthu ac mewn achosion ble y mae'r Cyngor yn disgwyl iddynt gael eu gwerthu yn y 12 mis nesaf. Fe nodir yr asedau yma ar wahân oherwydd bydd y gwerth ar y Fantolen yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'r ased yn cael ei ailbriso yn union cyn ei ail-gategoreiddio ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Caiff gwerth teg asedau anghyfredol a delir i'w gwerthu, eu mesur yn unol â'u lefel uchaf a gorau o ddefnydd. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwaged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a delir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau anghyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai y delir i'w gwerthu, addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai a Delir i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau fydd yn cael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu.

8.6 Cael Gwared ar Asedau Anghyfredol

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddigomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (os yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau a delir i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r budd neu'r golled ar adeg gwaredu. Caiff y gost hon ei drosglwyddo wedyn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r budd neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf ac ni feddir ond eu defnyddio wedyn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol y Cyngor i fentyca (y gofyniad Cyllido Cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau'n cael ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau anghyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer Cyllido Cyfalaf. Mae symiau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

8.7 Asedau nad oes eu hangen mwyach

Gwerth teg asedau nad oes eu hangen mwyach yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar adeg mesur. Bydd hyn yn seiliedig ar y defnydd uchaf a gorau a amcangyfrifir gan ddefnyddio mewnbynnau Lefel 1 yn seiliedig ar ddull marchnad / dull prisio tebyg.

8.8 Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r rheini y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth i genedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwydiannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Maent yn cael eu dal gan y Cyngor yn unol â'i amcanion cyffredinol i warchod treftadaeth Ynys Môn.

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o asedau treftadaeth diriaethol megis adeiladau hanesyddol a gwaith celf.

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth weithredol (h.y. rheini sydd, ynghyd â chael eu dal am eu nodweddion treftadaeth, hefyd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor am weithgareddau arall neu i ddarparu gwasanaethau arall) a chyfrif amdanynt fel asedau gweithredol, yn yr un modd ag asedau arall o'r math cyffredinol yna (e.e. adeiladau gweithredol).

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth ar y sail fwyaf priodol a pherthnasol i'r ased unigol neu ddsbarth yr asedau. Lle nad yw'n ymarferol i gael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol, mesurir yr Asedau Treftadaeth ar gost hanesyddol (llai unrhyw dibrisiant cronedig, amorteiddio a cholledion amhariad fel sy'n briodol). Lle mesurir Asedau Treftadaeth ar brisiad, fe fesurir y swm cario yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiadau yn parhau i fod yn gyfredol, ac ar gyfnodau dim mwy na phum mlynedd. Mewn achos lle na fedrir penderfynu ar gost neu werth Ased Treftadaeth heb fynd i gost anghymesur, ni fydd yr asedau'n cael eu cydnabod yn y Fantolen. Yn lle hynny, bydd yr ased yn cael ei datgelu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Pan fo Ased Treftadaeth ag oes benodol, darperir dibrisiant ar yr un sail â chategorïau eraill o asedau (am fanylion, gweler y Polisi Cyfrifo am Ddibrisiant, 8.4 uchod).

Ni ddarperir dibrisiant ar Asedau Treftadaeth sydd ag oes amhenodol a gwerth gweddilliol uchel. Dylid adolygu swm cario Ased Treftadaeth pan fo tystiolaeth o amhariad, er enghraifft, pan mae wedi dioddef dirywiad ffisegol neu wedi cael ei dorri neu pan fo amheuon newydd yn codi ynglŷn â'i ddilysrwydd. Adnabyddir unrhyw amhariad ar yr un sail â dosbarthiadau arall o ased (am fanylion gweler Polisi Cyfrifo 8.3, Amhariad). Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i gaffael mwy o Asedau Treftadaeth, ond mae'n ymateb i gyfleoedd i wella ei bortffolio fel maent yn codi. Cedwir y casgliadau celf yn Oriel Ynys Môn, gyda gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud pan fo'r angen. Rhannau o'r casgliad sy'n cael ei arddangos ar unrhyw adeg, tra gellir trefnu i gael mynediad i'r gweddill. Mae'r Eiddo Treftadaeth yn cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw, wrth ystyried eu nodweddion treftadaeth, fel rhan o bortffolio cyffredinol y Cyngor o dir ac adeiladau.

8.9 Trin Asedau Ysgol

Cymerir yn ganiataol mai awdurdodau lleol sy'n rheoli'r ysgolion y maent yn eu cynnal. O ganlyniad, caiff asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llif arian yr ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor.

Ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff sefydledig sy'n berchen ar, ac yn rheoli, tir ac adeiladau ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig ac, o'r herwydd, ni chânt eu cynnwys ar Fantolen y Cyngor.

Caiff gwariant cyfalaf ar ysgolion cymunedol ei ychwanegu at falansau'r ysgolion hynny. Caiff balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2022 eu cynnwys ym Mantolen y Cyngor oherwydd eiddo'r Cyngor fydd unrhyw gyllidebau datganoledig i'r ysgolion sydd heb eu gwario.

I bwrpas cyfrifo, mae asedau ysgolion dan reolaeth wirfoddol ac ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol fel a ganlyn:-

- Ysgolion Dan Reolaeth Wirfoddol: mae'r tir wedi ei gynnwys ar y Fantolen ond nid yr adeiladau;
- Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol: nid yw'r tir na'r adeiladau wedi eu cynnwys ar y Fantolen; ac
- Yn ychwanegol, nid yw'r tir na'r adeiladau yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys ar y Fantolen oherwydd mae'r asedau hyn wedi eu breinio gydag ymddiriedolwyr yr ysgol.

9. Eiddo Buddsoddiad

Eiddo buddsoddiad yw'r tir a'r adeiladau hynny a ddefnyddir i bwrpas cynhyrchu rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf yn unig. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os ydyw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddiad yn cael eu cydnabod pan mae'n debygol y bydd buddion economaidd cynlluniedig ar gyfer y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur mewn modd dibynadwy gost neu werth teg yr eiddo buddsoddiad hwnnw. Caiff eiddo buddsoddiad eu mesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac, wedyn, yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu ar faint y gellid ffeirio'r ased rhwng partion gwybodus hyd braich. Yn unol â'r Côt, rhaid prisio Eiddo Buddsoddiad yn ôl y defnydd mwyaf a gorau y gellir ei wneud ohonynt, waeth beth fo bwriadau'r Cyngor ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu bod defnydd amgen wedi cael ei ystyried ar gyfer pob eiddo buddsoddiad ac, os byddai modd defnyddio'r eiddo i bwrpas arall a hynny'n codi ei werth teg, yna dylid defnyddio'r gwerth teg hwnnw. Nid yw'r eiddo'n cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff eu hailbriso'n flynyddol yn unol â SAARh13 yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion adeg ailbriso'n cael eu symud i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am eiddo buddsoddiad yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddiad ac yn arwain at gynnydd ym malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, dan drefniadau statudol, ni chaniateir i enillion a cholledion a geir yn sgil ailbriso a gwerthu gael effaith ar falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10k) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

10. Asedau Anniriaethol

| 2. Rhoi materion yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith yn briodol | <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu a diwygio'r broses adolygu gwasanaeth a gwneud yn siŵr ei fod yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Hunanasesiad Corfforaethol • Cwblhau'r broses o baratoi a mabwysiadu Strategaeth Cyfranogi • Darparu hyfforddiant a chanllawiau i swyddogion ar y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol | Trawsnewid Swyddog Monitro / Busnes y Cyngor | <ul style="list-style-type: none"> • Fe all methiant i gydymffurfio olygu craffu pellach gan Lywodraeth Cymru a cholli'n henw da • Methu parhau i wella perfformiad y Cyngor • Ni fydd modd gweld pa welliannau sydd eu hangen o ran darparu gwasanaeth • Fe all arwain at benderfyniadau anwybodus neu fynd tu hwnt i awdurdod cyfreithiol • Risgiau cyfreithiol ac i enw da'r cyngor a pheryglu arferion llywodraethu | Mawrth 2024 |
| 3. Diweddarau fframwaith rheoli risg y Cyngor | <ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadu fframwaith rheoli risg newydd a sicrhau y glynir ato | Adnoddau | <ul style="list-style-type: none"> • Dod i gysylltiad â mwy o risgiau a gwendidau • Colledion ariannol, rhwymedigaethau cyfreithiol, colli ymddiriedaeth y cyhoedd a heriau o ran cwrdd ag amcanion strategol | Mawrth 2024 |
| 4. Mae'r Cyngor angen nodi ei wariant cyfalaf yn unol â Chynllun newydd y Cyngor | <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a mabwysiadu strategaeth gyfalaf ar gfer y Cyngor sy'n cyd-fynd â Chynllun newydd y Cyngor (2023-28) | Prif Weithredwr | <ul style="list-style-type: none"> • Methu blaenoriaethu gwariant cyfalaf yn strategol | Mawrth 2024 |
| 5. Nid yw'r Cyngor yn mapio ei ffynonellau sicrwydd ar hyn o bryd | <ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau ymarfer mapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor | Trawsnewid / Adnoddau | <ul style="list-style-type: none"> • Problemau llywodraethu posib heb eu nodi • Methu gwella perfformiad y Cyngor yn barhaus • Methiant bosib o ran y gwasanaeth • Darpariaeth sicrwydd annigonol neu wedi'i ddyblygu | Mawrth 2024 |

Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym wedi ein cyngori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried fel rhai sy'n addas i bwrpas yn gyson â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn



Llinos Medi
Arweinydd y Cyngor
Rhagfyr 2023



Dylan Williams
Prif Weithredwr
Rhagfyr 2023

Atodiad 1

Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019)

Mae Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA wedi'i gynllunio i gefnogi arfer da yn y maes rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Nid yw'r Côd yn rhagnodol ac mae'n seiliedig ar chwe egwyddor sydd wedi eu cefnogi gan safonau penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau gwytnwch ariannol parhaus Awdurdodau Lleol. Y chwe egwyddor rheolaeth ariannol sy'n sail i'r Côd yw:

- Arweinyddiaeth
- Atebolrwydd
- Tryloywder
- Safonau Proffesiynol
- Sicrwydd
- Cynaliadwyedd

Trosir y chwe egwyddor yn ddwy ar bymtheg o safonau Rheolaeth Ariannol (FM) (a ddynodir o A-Q), wedi'u grwpio'n saith adran. Roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddangos cydymffurfiaeth lawn â'r Cod erbyn 31 Mawrth 2022.

Yn dilyn archwiliad mewnol o cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r cod yn Ebrill 2020, cynhaliwyd archwiliad pellach ar Wydnwch Ariannol ym mis Tachwedd 2022 i geisio ateb y cwestiwn a ganlyn: A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i reoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol i sicrhau y gall barhau i gyflawni ei flaenoriaethau a darparu gwasanaethau o ansawdd?

Dywed yr adroddiad:

“Daeth ein harchwiliad i'r casgliad bod gan y Cyngor fframwaith o fesurau rheoli effeithiol ar gyfer rheoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol, a hynny o fewn cwrpas ei reolaeth. Er hyn, mae'n amlwg bod y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd dros y ddwy flynedd nesaf oherwydd yr hinsawdd economaidd heriol ac anrhagweladwy sydd ohoni.

Codwyd un 'Mater/Risg', a oedd angen sylw rheolwyr er mwyn cryfhau'r trefniadau yn y maes hwn a chytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr.

Materion Llywodraethu Sylweddol

Daeth ein hadroddiad Archwilio Mewnol ein hunain ar gyfer 2022/23 i'r casgliad canlynol –

“Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

Er nad ydw i'n ystyried unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.

Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon..”

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3943A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamed ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

| | |
|---|----|
| Cyflwyniad | 4 |
| Barn archwilio arfaethedig | 4 |
| Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad | 5 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol | 6 |
| Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig | 9 |
| Atodiad 3 – Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed | 13 |

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2022-23 yn yr adroddiad hwn.
- 2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) – Swyddog Adain 151 a'i dîm.
- 3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain.
- 4 Pennwyd lefel perthnasedd o £2.979 miliwn ar gyfer archwiliad eleni.
- 5 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darlennydd ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:
 - Cydnabyddiaeth uwch-swyddogion - £1,000
 - Datgeliadau Partion Cysylltiedig - £10,000 (unigolion)
- 6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni yn sylweddol ond yn amodol ar gwblhau camau gweithdrefn archwilio terfynol. Os bydd unrhyw faterion yn codi o'r gwaith hwn, byddwn yn darparu diweddariad llafar yn y Pwyllgor.
- 7 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chi a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni. Rydym wedi eich hysbysu'n flaenorol ynghylch bygythiad posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd archwilydd sy'n deillio o'r Rheolwr Archwilio gan fod ffrind agos iddi yn cael ei chyflogi gan y Cyngor. Gallwn gadarnhau bod y mesurau diogelu arfaethedig a nodwyd yn ein Cynllun Archwilio wedi gweithredu fel a fwriadwyd.

Barn archwilio arfaethedig

- 8 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 9 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.
- 10 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.
- 11 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

Materion Arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

- 12 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi'u canfod yn y cyfrifon, sy'n dal heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

- 13 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n credu y dylid dwyn y rhain i'ch sylw a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r Archwiliad

- 14 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Nid oedd unrhyw materion yn codi yn y meysydd hyn eleni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Dyddiad

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2022-23

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad ar Gydnyddiaeth Ariannol sy'n cael ei harchwilio) Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 at ddiben mynegi barn ynghlŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

- gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
- mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Sir Ynys Môn ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhodddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhodddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Sylwadau gan Cyngor Sir Ynys Môn

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Cyngor Sir Ynys Môn ar 19 Rhagfyr 2023.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Llofnodwyd gan:

Marc Jones
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) –
Swyddog Adain 151

Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts
Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad:

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad Archwilio Arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 2022-23 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai, Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2023 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn y Datganiad o Gyfrifon, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr Datganiad o Gyfrifon. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Gyngor Sir Ynys Môn a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Ynys Môn a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll mewn cofnodi dyddlyfrau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ynys Môn; a
- Chael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad. Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ynys Môn a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
20 Rhagfyr 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4B

Atodiad 3

Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

Arddangosyn 3: crynodeb o gywiriadau a wnaed

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|--|---|--|
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £19,814,000 aillddosbarthu | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC) Mae'r ased pensiwn net sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'i gyfyngu i'r terfyn asedion (a gyfrifir drwy ystyried cyfraniadau a chostau yn y dyfodol). Cafodd yr addasiad pensiwn sy'n ofynnol i ddileu'r gwarged ei gynnwys yn y llinell Ail-fesuriad o'r Buddion Pensiwn Diffinedig Net yn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall o fewn y DIGC. Gan fod yr addasiad pensiwn yn eitem faterol o Incwm a Gwariant, rydym yn argymhell ei fod naill ai'n cael ei gynnwys o fewn nodyn Eitemau Materol o Incwm a Gwariant neu ei ddatgelu ar wahân ar wyneb y DIGC yn unol â gofynion y cod. Mae'r Cyngor wedi dewis dangos hyn ar wahân ar wyneb y DIGC a pheidio â'i gynnwys o fewn nodyn Eitem Materol o Incwm a Gwariant. Mae'r datgeliad ar wahân hwn ar wyneb y DIGC wedyn yn gyson â'r datgeliad ar wahân ar y nodyn wrth gefn pensiwn, nodyn 9c. | I gydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer ar gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23 (Cod Ymarfer). |
| Datgeliad yn unig | Nodyn 5 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen Mae datgeliadau ychwanegol mewn perthynas â RAAC wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn. | Er mwyn sicrhau bod datgeliadau digwyddiadau ôl-fantolen yn gyflawn. |

| | | |
|--|--|---|
| <p>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: Cynnydd o £287,000 yng nghroniad absenoldeb cronedig a godir i DIGC.</p> <p>Mantolen: Cynnydd o £287,000 yn y Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronnus a Ddigolledwyd.</p> | <p>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC)/ Nodyn 9 Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio/ Nodyn 9ch – Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol</p> <p>Tanddatganwyd y croniad Absenoldeb Cronedig o £287,000 gan na chymerwyd amser TOIL a Hyblyg i ystyriaeth wrth gyfrifo'r croniad.</p> <p>Mae £287,000 ychwanegol wedi'i godi ar y DIGC gydag addasiad cyfatebol i'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronnus a Ddigolledwyd.</p> <p>Gwnaethpwyd datgeliadau ychwanegol yn Nodyn 9 i gydymffurfio â Chod Ymarfer.</p> | <p>I gyfrifo'r croniad absenoldeb cronedig yn gywir ac i sicrhau bod datgeliadau'n cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer.</p> |
| <p>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (addasiad amhariad) Gostyngiad o £11,212,000 i'r DIGC.</p> <p>Gweler camddatganiad REFCUS isod am addasiadau pellach i'r CIES.</p> <p>Mantolen: Gostyngiad o £10,929,000 i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn.</p> | <p>Nodyn 13 Eiddo, Offer a Chyfarpar</p> <p>Nid oedd y Cyngor yn dyrannu gwariant nad oedd yn ychwanegu gwerth (fel nam) yn erbyn yr ased penodol y mae'n ymwneud ag ef. Trwy wneud hyn, nid ydynt wedi gallu sicrhau bod y symudiadau cywir yn cael eu postio yn erbyn y Gronfa Ailbrisio, CIES a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf (CAA).</p> <p>Nod y Cyngor oedd diwygio hyn drwy adolygu eu dyraniad o nam a symudiadau ailbrisio dilynol yn ôl-weithredol, cyn belled ag y bo modd, yn unol â Chod Ymarfer CIPFA a Safon Cyfrifeg Ryngwladol 8. Oherwydd cyfyngiadau o fewn eu cofrestr Asedau Sefydlog, penderfynwyd ei bod yn ymarferol bosibl cywiro o 1/4/2022 ymlaen.</p> <p>Roedd angen diwygiadau i gywiro'r nodiadau uchod. Mae'r cywiriad hwn hefyd yn effeithio ar nifer o nodiadau eraill.</p> | <p>I gyfrif am wariant cyfalaf nad yw'n ychwanegu gwerth yn unol â'r Cod Ymarfer.</p> |
| <p>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Addasiad Amhariad):</p> | <p>Nodyn 17 Gwariant a Chyllido Cyfalaf / Nodyn 13 Eiddo, Offer a Chyfarpar</p> | <p>I gyfrifo yn gywir am REFCUS yn y datganiadau ariannol.</p> |

| | | |
|--|---|---|
| <p>Cynnydd yng ngwariant REFCUS £274,000.</p> <p>Mantolen: Gostyngiad mewn Eiddo, Peiriannau ac Offer £274,000.</p> | <p>Fel rhan o'r adolygiad o'r driniaeth o asedau nad ydynt yn ychwanegu gwerth (uchod) adnabuwyd mater gyda'r driniaeth o wariant REFCUS (Gwariant Refeniw a Ariennir Cyfalaf dan Statud).</p> <p>Roedd angen diwygiadau i gywiro'r nodiadau hyn. Mae'r cywiriad hwn hefyd yn effeithio ar nifer o nodiadau eraill.</p> | |
| <p>Mantolen: Gostyngodd asedau net £299,000.</p> <p>Gostyngodd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn £299,000.</p> | <p>Nodyn 13 Eiddo, Peiriannau ac Offer Defnyddiwyd y mynegai BCIS anghywir i gyfrifo ailbrisiadau wedi'u diweddaru ar gyfer ysgolion gan arwain at ostyngiad o £299,000 i'r prisiad.</p> | <p>Er mwyn sicrhau bod yr asedau a gynhwysir yn y datganiadau ariannol yn cael eu datgelu ar eu gwerth cywir.</p> |
| <p>Datgeliad yn unig: £2,054,000</p> | <p>Nodyn 14 Ymrwymadau Cyfalaf Sylweddol Mae ymrwymadau cyfalaf ychwanegol gwerth £2,054,000 wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn. Mae'r addasiad hwn yn hunangynhwysol i Nodyn 14.</p> | <p>Er mwyn sicrhau bod yr holl ymrwymadau cyfalaf wedi'u datgelu yn y nodyn.</p> |
| <p>Dosbarthiad yn unig: Cynyddodd rhagdaliadau £1,329,000.</p> <p>Gostyngodd Symiau Masnach Dernyniadwy gan £1,329,000.</p> | <p>Nodyn 18 Dyledwyr Mae rhagdaliadau gwerth £1,329,000 wedi'u hailddosbarthu o Symiau Masnachol Derbyniadwy. Mae'r addasiad hwn yn hunangynhwysol i Nodyn 18.</p> | <p>Er mwyn sicrhau dosbarthiad cywir o ragdaliadau.</p> |
| <p>Dosbarthiad yn unig: Gostyngodd Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod £12,500,000.</p> <p>Cynyddodd buddsoddiadau tymor byr £12,500,000.</p> | <p>Nodyn 19 Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod Mae £12,500,000 wedi'i ailddosbarthu o gyferwerth ag arian parod i fuddsoddiadau tymor byr. Mae'r cywiriad hwn hefyd yn effeithio ar Nodyn 35 Offerynnau Ariannol.</p> | <p>Er mwyn sicrhau dosbarthiad cywir o arian parod a chyferwerth ag arian parod a buddsoddiadau tymor byr.</p> |

| | | |
|--|--|--|
| <p>Gwelliannau amrywiol</p> | <p>Note 27 Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion Gwnaethpwyd diwygiadau i'r datgeliadau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bandio tâl dros £60,000: Roedd angen diwygiadau i nifer y staff a ddatgelwyd fesul band cyflog, i gywiro gwallau ac i gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru). Ychwanegwyd 3 gweithiwr ychwanegol a newidiwyd y band ar gyfer 2 weithiwr. • Tabl Tâl Uwch Swyddogion: Mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r troednodiadau. | <p>Er mwyn sicrhau bod y datgeliadau yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod CIPFA.</p> |
| <p>Datgeliad yn unig</p> | <p>Nodyn 29 Ffioedd Archwilio Allanol Mae'r nodyn wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r ffioedd archwilio gwirioneddol fel yr adroddwyd yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2022-23.</p> | <p>Datgelu'r ffioedd archwilio gwirioneddol ar gyfer 2022-23</p> |
| <p>Dosbarthiad yn unig: Cynyddodd grantiau Covid £362,000.</p> <p>Cafwyd gostyngiad o £362,000 mewn grantiau eraill.</p> | <p>Nodyn 30 Incwm grantiau Mae incwm grant rhyddhad ardrethi annomestig o £362,000 wedi'i ailddosbarthu o Grantiau Eraill (Adnoddau) i grantiau Covid. Mae'r addasiad hwn yn hunangynhwysol i Nodyn 30.</p> | <p>Er mwyn sicrhau dosbarthiad cywir o incwm grantiau.</p> |
| <p>Datgeliadau ychwanegol</p> | <p>Nodyn 32 Cronfeydd Ymddiriedolaeth a Chronfeydd Eraill a Weinyddir gan y Cyngor Nid oedd y Cyngor wedi datgelu'n llawn natur a swm y cronfeydd ymddiried lle mae'n gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr yn unol â gofynion Cod Ymarfer.</p> | <p>Er mwyn sicrhau bod datgeliadau yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer.</p> |
| <p>Datgeliadau ychwanegol</p> | <p>Nodyn 38 Trefniadau Asiantaeth Nid oedd y Cyngor wedi datgelu'n llawn natur a swm incwm a gwariant sylweddol yr asiantaeth am y flwyddyn, yn unol â gofynion Cod Ymarfer.</p> | <p>Er mwyn sicrhau bod datgeliadau yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer.</p> |

Gwnaed nifer o addasiadau, aiddosbarthiadau a diwygiadau naratif eraill, llai rwyddocaol, i'r datganiadau ariannol o ganlyniad i'n gwaith.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|--|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Dyddiad: | 7 Rhagfyr 2023 |
| Pwnc: | Adroddiad Blyneddol Atal Twyll, Llwgwobrwyo a Llygredd 2022-23 |
| Pennaeth Gwasanaeth: | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| Awdur yr Adroddiad: | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120). | |

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgaredd Archwilio Mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2022-23 i leihau'r risg o dwyll, llwgwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn ac mae'n dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer lleihau'r risg o dwyll.
- 1.2. Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2022, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).
- 1.3. Hefyd, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sydd yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheolaeth cyfrifeg yn cynnwys mesurau sy'n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a'u canfod.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2022-23 i leihau'r risg o dwyll, llwgwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.

Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-23

Rhagfyr 2023

Tudalen 76



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

| | |
|---|----|
| Cyflwyniad _____ | 2 |
| Beth yw Twyll? _____ | 3 |
| Beth yw Llwgrwobrwyo? _____ | 3 |
| Beth yw Llygredd? _____ | 4 |
| Pam fod Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn Bwysig? _____ | 4 |
| Y Cyd-destun Cyfredol _____ | 5 |
| Asesiad o Drefniadau Atal Twyll yn y Cyngor _____ | 6 |
| Cydnabod Cyfrifoldeb _____ | 6 |
| Nodi risgiau o dwyll a llygredd _____ | 6 |
| Strategaeth Atal Twyll a Llygredd _____ | 6 |
| Darparu Adnoddau _____ | 7 |
| Gweithredu _____ | 7 |
| Achosion o geisio twyllo'r Cyngor yn ystod 2022-23 _____ | 8 |
| Casgliad _____ | 8 |
| Atodiad 1 – Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd _____ | 9 |
| Atodiad 2 – Rhybuddion y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN) _____ | 15 |


Tudalen 77

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod 2022-23 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn Cyngor Sir Ynys Môn ac yn ei erbyn.
2. Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2022 (PSIAS), sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).
3. Hefyd, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sydd yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheolaeth cyfrifeg yn cynnwys mesurau sy'n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a'u canfod.
4. Roedd [adroddiad](#) gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2019 yn datgan nad yw gwerth y colledion yn y sector cyhoeddus oherwydd twyll yn hysbys. Roedd [adroddiad](#) gan Swyddfa'r Cabinet yn 2019 yn nodi bod yr ystod isaf ac uchaf ar gyfer y colledion tebygol yng ngwariant y llywodraeth rhwng 0.5% a 5% o'r gwariant.
5. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn, mae'n awgrymu y gallai colledion yn sgil twyll a chamgymeriadau fod rhwng £1.05 miliwn a £10.5 miliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar [gyllideb](#) refeniw gros y Cyngor ar gyfer 2022-23 sydd werth £209.5 miliwn.
6. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhai o'r meysydd lle mae'r risg o dwyll yn bodoli'n barod a meysydd lle mae'n dechrau dod i'r amlwg ac mae'n dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer lleihau'r risg o dwyll, ynghyd â'r heriau a chyfleoedd yn y dyfodol.

Beth yw Twyll?

7. Mae Deddf Twyll 2006 yn amlinellu tair ffordd y gellir cyflawni'r drosedd:



8. Mewn achosion o dwyll mae'r tramgwyddwr ar ei ennill (yn ariannol fel arfer), tra bod rhywun arall (gan gynnwys sefydliad) ar ei golled, neu mae'n golygu fod rhywun arall yn agored i golled.
9. Er enghraifft, gyda thwyll trwy gynrychiolaeth ffug, mae'r tramgwyddwr yn cyflwyno hawliadau ffug am oramser yn fwriadol neu'n cyflwyno cymwysterau ffug yn ystod y broses recriwtio.
10. Mae enghraifft o dwyll trwy fethu â datgelu gwybodaeth yn cynnwys peidio â datgelu gwybodaeth i farnwr mewn achos cyfreithiol gan olygu fod y sefydliad yn colli'r achos ac yn gorfod talu iawndal.
11. Mae twyll trwy gam-drin grym yn cynnwys enghreifftiau lle mae aelod o staff yn cam-drin ei safle i ddyfarnu contractau i ffrindiau a theulu, neu'n trosglwyddo taliadau credydwr i'w gyfrif personol ei hun.

Tudalen 78

Beth yw Llwgwrwbrwyo?

12. Mae Deddf Llwgwrwbrwyo 2010 yn nodi pedair ffordd o gyflawni'r drosedd:
- Llwgwrwbrwyo naill ai'n uniongyrchol neu trwy drydydd parti
 - Derbynlwgwrwbrwyon
 - Llwgwrwbrwyo swyddog tramor
 - Methiant gan sefydliad masnachol i atal llwgwrwbrwyaeth (trosedd gorfforaethol)
13. Mae llwgwrwbrwyo yn gysyniad eang ac mae'n cynnwys cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall er mwyn cymell rhywun i gyflawni swyddogaeth gyhoeddus neu weithgarwch busnes mewn modd amhriodol neu eu gwobrwyo am wneud hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi ystyriaeth arbennig i feysydd gweithgarwch penodol, yn cynnwys lletygarwch a rhoddion.
14. Enghraifft o hyn yw rhywun yn rhoi mantais i un o weithwyr y Cyngor am beidio â gwneud y gwaith yn briodol. Mae cynnig neu addo llwgwrwbr yn drosedd, nid oes rhaid rhoi taliad neu wobwr; mae derbyn llwgwrwbr yn drosedd, yn ogystal â chytuno i dderbyn llwgwrwbr, neu ofyn am un. Gallai'r fantais gynnwys arian, tocynnau cyngerdd neu unrhyw fath arall o rodd neu letygarwch. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhywun yn cynnig arian yn gyfnewid am:
- Beidio â gwirio a yw cais am fudd-dal yn gywir
 - Darparu gwybodaeth gyfrinachol ynglŷn â phroses dendro
 - Dylanwadu ar un o ganlyniadau'r Cyngor e.e. llobio ar ran cwmnïau preifat.
15. Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i atal llwgwrwbrwyo a gallai wynebu dirwy am beidio â gwneud hynny. Mae'n ddyletswydd ar staff i roi gwybod am unrhyw amheuan sydd ganddynt ynghylch camymddygiad ariannol neu broffesiynol. Y gosb am fod yn gysylltiedig â llwgwrwbrwyo yw hyd at 10 mlynedd yn y carchar a / neu ddirwy ddiderfyn.

Beth yw Llygredd?

16. Mae llygredd, neu rywun sy'n 'llwgr' yn ymwneud ag ymddygiad ac mae'n golygu diffyg uniondeb neu onestrwydd (ac fe all gynnwys llwgrwobrwyo) neu gamddefnyddio statws i sicrhau mantais anghyfreithlon.
17. Defnyddir y term i ddisgrifio rhywun sy'n cymryd rhan mewn twyll, lladrad, gwyngalchu arian ac arferion troseddol neu niweidiol posib eraill lle byddant yn ymddwyn yn groes i ddiddordebau'r Cyngor er mwyn sicrhau mantais iddyn nhw eu hunain neu i eraill.
18. Er enghraifft:
 - Camddehongli gwybodaeth am berfformiad yn fwriadol
 - Derbyd arian neu rodd yn gyfnewid am ddyfarnu contract
 - Dwyn asedau (gliniaduron, offer)
 - Rhoi gwybodaeth sensitif i drydydd parti er mwyn rhoi mantais iddynt mewn proses dendro
 - Peidio â datgelu gwrthdaro buddiannau er mwyn sicrhau mantais ariannol
 - Defnyddio eu dylanwad i gael swydd i ffrind / aelod o'r teulu

Pam fod Atal Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd yn Bwysig?

19. Mae pob punt a gollir oherwydd twyll yn golled i'r pwrs cyhoeddus ac mae'n lleihau gallu'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd eu hangen.
20. Mewn cyfnod pan mae pwysau ariannol yn cynyddu, mae'n bwysicach nac erioed bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n ceisio lleihau'r risg o golledion oherwydd twyll, yn ogystal â chefnogi cynaliadwyedd ariannol.
21. Gall twyll gael effaith ar enw da'r sector cyhoeddus a thanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd ac effeithlonrwydd sefydliadol.
22. Pan fydd cynghorau'n cymryd camau atal twyll effeithiol byddant yn ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd ac yn sicrhau bod arian prin yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
23. Mae'r sector cyhoeddus yn cael ei dargedu'n gynyddol bellach oherwydd bod y trafodion ariannol yn fwy ac mae twyllwyr yn gallu gwneud mwy o elw.
24. Yn y cod ymarfer, *Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption*¹, mae CIPFA yn dadlau:

“Mae cyfrifoldeb ar arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio safonau effeithiol ar gyfer atal twyll a llygredd yn eu sefydliadau eu hunain. Mae hyn yn cefnogi llywodraethiant da ac yn arddangos stiwardiaeth ariannol effeithiol a rheolaeth ariannol gyhoeddus effeithiol.”

¹ [Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption](#), CIPFA, 2014

Y Cyd-destun Cyfredol

25. Yn gyffredinol yn y DU, mae'r risg o dwyll yn cael ei ystyried yn uchel² ac mae'n galonogol fod nifer bellach yn ei gydnabod fel mater difrifol o ran y bygythiadau allanol y maent yn eu hwynebu gan droseddwy cyfundrefnol, yn ogystal â'r bygythiad mewnol gan reolwyr a staff.
26. Er bod ffigyrau diweddaraf yr Arolwg o Droseddau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mehefin 2023 (3.3 miliwn o droseddau twyll) yn dangos gostyngiad o 13% mewn troseddau twyll o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym Mehefin 2022 (3.8 miliwn o droseddau), twyll yw'r drosedd fwyaf cyffredin yng Nghymru a Lloegr heddiw.³
27. Mae'n costio biliynau i'r economi bob blwyddyn.⁴ Roedd amcangyfrifon yr Arolwg o Droseddau yng Nghymru a Lloegr yn dangos fod llai nag un mewn saith o droseddau twyll yn cael eu hadrodd i'r heddlu neu *Action Fraud* (y ganolfan genedlaethol adrodd am dwyll a throseddau seiber ar gyfer y cyhoedd). Mae'r diffyg hwn o ran adrodd am droseddau twyll yn effeithio ar ein dealltwriaeth o'r bygythiad.
28. Yn ogystal â'r sector cyhoeddus, mae dioddefwyr twyll yn cynnwys unigolion bregus, corfforaethau mawr a busnesau bach; collodd busnesau ac unigolion £2.46 biliwn o ganlyniad i dwyll yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.
29. Oherwydd y rhyfel yn Wcráin, cyfraddau chwyddiant uwch nag erioed a'r argyfwng costau byw, ynghyd â risgiau allweddol eraill i fusnesau megis diffyg yn y gadwyn gyflenwi, cadw staff a bygythiadau seiber, mae'r cyfleoedd i dwyllo'n parhau i gynyddu, a bydd twyllwyr yn manteisio ar y sefyllfa gan ddefnyddio arfau mwyfwy soffistigedig i gyflawni troseddau.
30. Mae adroddiad diweddar⁵ gan Zurich UK, yn seiliedig ar ddata Rhyddid Gwybodaeth gan 43 o luoedd yr heddlu yng Nghymru a

Lloegr, wedi amlygu bod cynnydd o un rhan o bump (19%) mewn achosion o ddwyn gan weithwyr yn 2022 wrth i'r cynnydd mewn costau byw sbarduno ton o droseddau yn y gweithle.

31. Dangosodd ffigyrau cenedlaethol fod bron i 6,000 o weithwyr wedi cael eu dal yn dwyn gan eu cyflogwr yn 2022, ac mae hyn yn uwch na'r ffigwr o 5,000 yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn gyfystyr â bron i 500 o ddigwyddiadau bob mis.
32. Cafodd y cynnydd hwn ei ailadrodd yn ardal Heddlu Gogledd Cymru lle gwelwyd cynnydd o 24% yn yr achosion o ddwyn gan weithwyr, sef o 55 achos yn 2021 i 68 yn 2022.
33. Ynghyd ag ardaloedd lluoedd yr heddlu Hampshire, Swydd Gaer a Surrey, roedd ardal llu Heddlu Gogledd Cymru yn y chwarterl uchaf ar gyfer lluoedd lle bu cynnydd yn yr achosion o ddwyn gan weithwyr (13^{eg} cynnydd uchaf).
34. Mae Zurich wedi gweld cynnydd hefyd mewn hawliadau yswiriant am deilwra cymdeithasol, lle mae twyllwyr yn dylanwadu ar weithwyr er mwyn iddynt wneud taliadau neu rannu manylion banc a chyfrineiriau. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae troseddwy wedi hacio cyfrif e-bost uwch swyddog, gan anfon cyfarwyddiadau talu brys sy'n cynnwys manylion banc ffug at aelodau eraill o staff a phartïon allanol.

² [Fraud Barometer 2022: A snapshot of fraud in the UK](#), KPMG, Chwefror 2023

³ ['Crime in England and Wales'](#), ONS, Mehefin 2023

⁴ Mae amcangyfrifon ar gyfer cost twyll yn y DU yn amrywio. Er enghraifft, gw UK Finance, ['Cross-sector action needed as criminal gangs steal more than £1.3 billion'](#) (Awst 2022): ac NCA, ['The threat from fraud'](#)

⁵ [Employee theft jumps by a fifth as cost of living pressures mount](#), Zurich UK, Chwefror 2023

Asesiad o Drefniadau Atal Twyll yn y Cyngor

35. Mae CIPFA yn cymeradwyo set gyffredin o egwyddorion ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella arfer atal twyll sy'n cael eu nodi yn y ddogfen, *Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption*⁶. Gan ddefnyddio'r cod hwn fel meincnod cynhaliwyd asesiad yn erbyn y pum egwyddor a gellir gweld crynodeb lefel uchel o'r canlyniadau isod.

Cydnabod Cyfrifoldeb

36. Mae egwyddor gyntaf y Cod yn argymhell y dylai'r corff llywodraethu gydnabod ei gyfrifoldeb am sicrhau fod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a llygredd yn cael eu rheoli'n effeithiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
37. Mae fframwaith o bolisiau'n bodoli, fel sy'n cael ei argymhell yn y canllawiau, ac mae meddalwedd derbyn polisiau yn monitro a yw staff yn deall ac yn derbyn rhai o'r polisiau. Cyflwynwyd y polisiau a ganlyn i staff er mwyn iddynt gadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ohonynt ac ar 10/10/23 roedd y cyfraddau derbyn fel a ganlyn:

| Polisi | Cyfradd Cydymffurfio | Statws Presennol |
|--|------------------------|-----------------------------------|
| Cod Ymddygiad Swyddogion a Chanllawiau Lleol | 90% (976 o 1,083) | Wedi'i atal dros dro ⁷ |
| Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban | 95% (1,024 o 1,083) | Wedi'i atal dros dro |

38. Fel rhan o'r Strategaeth Atal Twyll ar gyfer 2022-2025 mae rhaglen gynhwysfawr yn cael ei darparu er mwyn diweddarau polisiau, codi ymwybyddiaeth am brosesau atal twyll a chyflwyno pecyn E-ddysgu. Bydd adolygiad archwilio mewnol o'r broses ar gyfer datgan diddordebau'n cael ei gynnal hefyd.

Nodi risgiau o dwyll a llygredd

39. Mae'r ail egwyddor yn argymhell bod adnabod y risg o dwyll yn hanfodol er mwyn deall achosion penodol o fod yn agored i risg, newid ym mhatrymau'r bygythiad o dwyll a llygredd, a'r canlyniadau posib i'r sefydliad a'i ddefnyddwyr gwasanaeth.
40. Mae'r Cod yn cefnogi ystyried risgiau o dwyll a llygredd fel risgiau busnes ac iddynt gael eu rheoli fel rhan o broses rheoli risg y sefydliad. Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli risg aeddfed, ac mae'r risg o dwyll wedi cael ei ystyried fel rhan o'r broses honno.
41. Yn 2021-22 daeth adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau ar gyfer rheoli risg a llygredd i'r casgliad bod gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau i'w ddiogelu rhag y risg o dwyll a llygredd mewn perthynas â gweithgareddau caffael. Fodd bynnag, roedd cyfleoedd i wella'r trefniadau hyn drwy ddiweddarau dogfennau, creu diwylliant sy'n ymwybodol o risg o fewn y gweithlu a datblygu mesurau atal twyll rhagweithiol o fewn y swyddogaeth caffael. Mae'r materion hyn wedi'u cynnwys yn Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd y Cyngor ar gyfer 2022-2025.
42. Roedd yr adolygiad archwilio mewnol hefyd yn nodi y byddai darparu hyfforddiant atal twyll penodol ar gyfer swyddogion sy'n rhan o'r broses gaffael ar ran y Cyngor yn cynorthwyo i wella ymwybyddiaeth o'r risg o dwyll yn y maes hwn. Mae rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi wedi'i datblygu ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu ar gyfer aelodau, rheolwyr a swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau ariannol a chaffael a bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu dros gyfnod o wythnos ym mis Rhagfyr 2023.

Strategaeth Atal Twyll a Llygredd

43. Mae'r drydedd egwyddor yn argymhell bod angen strategaeth atal twyll ar sefydliadau sydd yn nodi ei ddull ar gyfer rheoli risgiau ac yn diffinio cyfrifoldebau am weithredu.

⁶ [Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption](#), CIPFA 2014

⁷ Mae'r meddalwedd derbyn polisiau'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd a bydd modd cael mynediad at y polisiau o 7 Rhagfyr 2023.

44. Mae gan y Cyngor strategaeth sydd wedi'i diffinio'n glir, a gymeradwywyd ar y lefel uchaf (gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ym mis Rhagfyr 2021), sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cymryd y risg o dwyll a llygredd o ddifri.
45. Cyflwynir strategaeth ddiwygiedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2024.
46. Mae [Atodiad 1](#) yn cynnwys manylion am gynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu a gynhwysir yn y Strategaeth.

Darparu Adnoddau

47. Mae'r bedwaredd egwyddor yn argymhell y dylai sefydliadau drefnu adnoddau priodol i gefnogi'r strategaeth atal twyll. Yn y gorffennol, roedd diffyg o ran buddsoddi a defnyddio adnoddau o fewn y Cyngor mewn perthynas â threfniadau atal twyll.
48. Mae materion yn gysylltiedig â chapasiti staff yn y tîm Archwilio Mewnol, fel yng ngwasanaethau eraill y Cyngor, yn golygu fod cynnydd wrth wireddu'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 wedi bod yn araf.
49. Er hynny, yn ystod y flwyddyn dynodwyd aelod o'r Tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg i fod yn gyfrifol am:
 - Gydlynu'r data y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddarparu i'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer yr ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd.
 - Ymchwilio i achosion risg uchel a ganfyddir yn ystod ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol.
 - Rhannu rhybuddion gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol gyda'r swyddogion perthnasol.
 - Mynychu Gweithgor Atal Twyll Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru.
50. Yn ystod 2022-23, treuliodd y Tîm Archwilio Mewnol 28 diwrnod (4%) ar weithgareddau atal twyll, gan gynnwys 8 diwrnod o waith ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol ac 20 diwrnod ar waith atal twyll

rhagweithiol, delio gydag ymholiadau twyll cyffredinol a chynnal ymchwiliadau. Roedd y tîm wedi treulio mwy na 28 diwrnod ar weithgareddau atal twyll erbyn diwedd chwarter 2 yn 2023-24 yn sgil ymchwilio i dwyll mewnol.

Gweithredu

51. Mae'r egwyddor olaf yn argymhell bod sefydliadau yn rhoi polisiau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r strategaeth atal twyll a llygredd ac i gymryd camau i atal, canfod ac ymchwilio i dwyll.
52. Mae'n sefydlu y bydd y gallu i weithredu'n ddibynnol ar faint a natur sefydliad a maint ei gapasiti atal twyll. Fodd bynnag, beth bynnag yw maint gweithgareddau sefydliad, mae angen i'r sefydliad gymryd camau priodol ac adrodd ar y camau hynny i'w gorff llywodraethu.
53. Y ffordd orau o ymladd twyll yw drwy ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Gellir cyflawni hyn drwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Yn ystod 2022-23:
 - Cynhaliodd banc y Cyngor, Nat West, seminar genedlaethol ar Daclo Twyll gyda'n Gilydd – Y Prif Fygythiadau i Awdurdodau Lleol.
 - Rhannodd y tîm Archwilio Mewnol rybuddion gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol gydag adrannau perthnasol yn gyson trwy'r flwyddyn (gweler [Atodiad 2](#)).

Achosion o geisio twyllo'r Cyngor yn ystod 2022-23

54. Ym mis Gorffennaf 2022, cysylltodd aelod o'r cyhoedd â'r Cyngor i gwestiynu taliadau a oedd yn cael eu gwneud i'r Cyngor o gyfrif aelod o'r teulu a oedd wedi marw. Er nad oedd yn ymddangos fod twyll yn cael ei gyflawni yn erbyn y Cyngor, gofynnwyd i'r tîm Archwilio Mewnol ymchwilio i'r mater er mwyn cynorthwyo perthynas yr ymadawedig gyda'u hymholiadau.
55. Datgelodd yr ymchwiliad fod y taliadau'n rhai dilys a bod y person ymadawedig yn llwyr ymwybodol ohonynt. Nid oedd modd rhannu manylion am y taliadau gyda pherthynas y person ymadawedig oherwydd deddfwriaeth Diogelu Data. Fe wnaethom gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i ofyn am gyngor ynghylch y camau nesaf y gallai perthynas yr ymadawedig eu cymryd, a throsglwyddwyd y wybodaeth iddynt.
56. Ym mis Chwefror 2023, cawsom ein hysbysu gan y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod cerdyn tanwydd wedi cael ei ddwyn a'i ddefnyddio'n anghyfreithlon. Digwyddodd hynny ar ôl i un o gerbydau fflyd y Cyngor fod mewn damwain ym mis Hydref 2022, ond dim ond yn ddiweddar yr oedd y gwasanaeth wedi darganfod fod y cerdyn wedi cael ei ddwyn.
57. Daeth yr ymchwiliad cychwynnol i'r casgliad y byddai cynnal ymchwiliad yn annhebygol o arwain at ganlyniad llwyddiannus, oherwydd bod cymaint o amser wedi mynd heibio ers i'r cerdyn fynd ar goll a gallai'r lladrad fod wedi digwydd mewn nifer o wahanol leoedd.
58. Yn lle cynnal ymchwiliad, cynhaliwyd archwiliad mewnol ym mis Ebrill 2023 i ddarparu sicrwydd fod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i reoli ei gardiau tanwydd, amddiffyn rhag y risg o dwyll a lladrad a sicrhau gwerth am arian.
59. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad fod y Cyngor yn rheoli ei gardiau tanwydd yn effeithiol ond, er hynny, roedd rhai cyfleoedd yn bodoli i gryfhau mesurau rheoli a gwella prosesau a chytunwyd ar gynllun rheoli gyda'r rheolwyr, gan godi chwe mater iddynt eu hystyried. Rydym yn parhau i fonitro'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Tudalen 83

Casgliad

60. Mae rhyw lefel o dwyll yn debygol yn y sector cyhoeddus, hyd yn oed yn ystod cyfnodau arferol, ond roedd 2022-23 yn parhau i fod yn flwyddyn o heriau heb eu tebyg. O wybod bod holl elfennau'r triongl twyll delfrydol sy'n caniatáu i dwyll ffynnu (cymhelliant, cyfle a rhesymoli) wedi cynyddu, rhagwelir y bydd twyll yn parhau i fod yn fygythiad ariannol sylweddol i gynghorau, ac nad oes arwydd ei fod yn arafu.
61. Nid yw'r Cyngor yn ddiogel rhag achosion o ddwyn yn y gweithle, sy'n gallu digwydd ar bob lefel ac am flynyddoedd heb gael ei ganfod. Oni bai bod mesurau amddiffyn cywir ar waith gennym, ni fydd gan y Cyngor fawr o siawns o adennill arian neu nwyddau sy'n cael eu dwyn a gallai wynebu costau eraill, megis dirwyon gan reoleiddwyr.
62. Mae rheoli'r risg o dwyll a llygredd yn rhan hanfodol o unrhyw gyngor modern, effeithiol sy'n mynd ati i reoli ei adnoddau'n effeithiol er mwyn sicrhau gwerth am arian. Gall y Cyngor leihau'r risg o ladrata gan weithwyr trwy roi rheolaethau cadarn ar waith ar gyfer gwneud taliadau, cynnal archwiliadau rheolaidd a sefydlu diwylliant gwaith cadarnhaol.
63. Mae'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 yn mynd rhagddo'n dda. Bydd parhau i gyflawni'r Cynllun Gweithredu'n sicrhau fod y Cyngor yn ymladd twyll yn llwyddiannus. Un o'r camau allweddol nesaf fydd datblygu asesiad o'r risg o dwyll ar gyfer y Cyngor cyfan a fydd yn helpu i wella gallu'r Cyngor i nodi achosion posib o dwyll, yn ogystal ag unrhyw wendidau yn ei drefniadau atal twyll neu feysydd lle mae mwy o risg o dwyll. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor dargedau ei adnoddau prin yn well a'i weithgareddau'n briodol, yn enwedig os neu bryd y bydd risgiau newydd yn gysylltiedig â thwyll yn dod i'r amlwg.
64. Yn olaf, mae ymddygiadau a gweithredoedd unigolion yn hanfodol bwysig wrth daclo'r risg o dwyll. Mae'n rhaid i bob un ohonom, yn staff ac aelodau fel ei gilydd, fynd ati i greu diwylliant sy'n elyniaethus i'r risg o dwyll a llygredd a sefydlu llinell glir rhwng yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ac annerbyniol o fewn y Cyngor.

Atodiad 1 – Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Atal Twyll, Llwgwobrwyo a Llygredd

| Mater / Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|---|---|---|-------------|---|
| Mae risg 'bygythiad mewnol' wedi cynyddu dros hanner ers 2021 | Byddwn yn cynnal adolygiad archwiliad mewnol o'r trefniadau ar gyfer datgan gwrthdaro buddiannau posib yn ysgol 2022-23. | Archwilio Mewnol | Mawrth 2023 | Mae'r gwaith ar y gweill. Paratowyd a rhannwyd adroddiad gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid Corfforaethol er mwyn derbyn eu sylwadau. |
| Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi cael eu nodi fel un o'r prif risgiau o dwyll mewn llywodraeth leol gan yr FFCL | Byddwn yn cynnal adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r risgiau o dwyll yn gysylltiedig â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ystod 2023-24. | Archwilio Mewnol | Mawrth 2024 | Mae gwaith maes yn mynd rhagddo. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2024. |
| Twyll tenantiaeth yw'r twyll sy'n tyfu gyflymaf yn y DU | Er bod y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn nodi fod y risg o dwyll tenantiaeth yn isel ar Ynys Môn yn gyffredinol, byddwn yn gweithio gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol i nodi: <ul style="list-style-type: none"> achosion lle mae'n ymddangos fod unigolyn yn byw mewn dau wahanol gyfeiriad, sy'n awgrymu efallai bod tenantiaid yn gosod eu heiddo i rywun arall neu'n dal mwy nag un denantiaeth achosion lle nad yw'r cyngor wedi cael eu hysbysu am farwolaeth tenant gan olygu nad ydynt wedi cael eu tynnu oddi ar y denantiaeth achosion lle mae'n ymddangos fod unigolyn wedi cofrestru ar y rhestr aros gan ddefnyddio cyfeiriad gwahanol i'r un a gofnodir ar y | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol, Gwasanaethau Tai | Mawrth 2023 | Cwblhawyd. Mae data a barwyd gan y Fenter Twyll Cenedlaethol wedi cael ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Tai a'i ymchwilio. Gweler yr Adroddiad ar Ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol 2022-23. Cwblhawyd Archwiliad Mewnol ar Reoli'r Risg o Dwyll Tenantiaeth hefyd ym mis Medi 2023 a ddaeth i'r casgliad fod gan y Gwasanaethau Tai drefniadau priodol ar waith i reoli'r risg o dwyll tenantiaeth, a bod rheolaethau sylfaenol ar waith i atal a lliniaru'r risg o dwyll wedi'u cynnwys ym mholisiau a chontractau'r gwasanaeth. Serch hynny, roedd lle i wella rhai gwendidau cymedrol o ran llywodraethiant a rheolaethau mewnol, a chodwyd pum mater gennym i'r rheolwyr eu hystyried. |

| Mater / Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|--|--|---|-----------------------------|--|
| | system rhenti tai, gan awgrymu nad ydynt wedi hysbysu'r cyngor am newid yn eu hamgylchiadau, neu eu bod wedi darparu gwybodaeth ffug. | | | Bydd Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol y Gwasanaethau Tai yn parhau i ddarparu cymorth i ymgymryd ag opsiynau i gynnal Archwiliad Tenantiaeth. |
| Gostyngiad person sengl y dreth gyngor yw'r ail faes twyll sy'n tyfu gyflymaf yn y DU | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau i gefnogi adolygiadau rheolaidd o ostyngiadau i bobl sengl. Byddwn hefyd yn trosglwyddo canlyniadau'r data a barwyd mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer pobl sengl a'r gofrestr etholiadol fel rhan o ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2022-23. | Y Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau | Ar waith Mawrth 2023 | Mae gwaith yn mynd rhagddo. Trosglwyddwyd y data a barwyd i'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau. Er hynny, oherwydd blaenoriaethau eraill, nid yw'r gwasanaeth wedi ymchwilio i'r data a barwyd. Gweler yr Adroddiad ar Ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol 2022-23. |
| Amcangyfrifir bod consesiynau parcio i'r anabl (Cynllun Bathodynau Glas) yn gyfrifol am 17% o'r holl achosion o dwyll yn y sector cyhoeddus | Byddwn yn gweithio gyda Cyswllt Môn i gryfhau ein gweithgareddau atal twyll yn y maes hwn. Byddwn hefyd yn trosglwyddo canlyniadau data a barwyd ar gyfer consesiynau parcio i'r anabl a phobl a fu farw o ymarfer paru data Menter Twyll Genedlaethol 2022-23. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â Rheolwr Profiad Cwsmeriaid Cyswllt Môn, Trawsnewid Corfforaethol | Ar waith Mawrth 2023 | Cwblhawyd. Gweithio gyda Cyswllt Môn i sicrhau fod prosesau rheoli mewnol yn cael eu cryfhau i sicrhau fod gweinyddwyr 'Bathodynau Glas' yn gallu mynd ati i groesgyfeirio manylion deiliaid bathodynau gyda chofnodion marwolaeth, gan sicrhau fod bathodynau'n cael eu canslo'n brydlon. Cwblhawyd. Gweler yr Adroddiad ar Ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol 2022-23. |
| Caffael oedd un o'r meysydd lle'r oedd y canfyddiad o dwyll ar ei uchaf yn 2019-20 | Byddwn yn gweithio gyda'r Rheolwr Caffael i roi'r cynllun gweithredu ar waith yn dilyn yr adolygiad archwilio mewnol o 'Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd ym maes Caffael' a gynhaliwyd ym mis Awst 2022. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Caffael | Mawrth 2023 | Mae gwaith yn mynd rhagddo. Nid yw pedwar o'r chwe 'Mater/Risg' yn y Cynllun Gweithredu wedi cael eu cwblhau. 1. Roedd oedi wrth adolygu'r Strategaeth a'r Polisi Caffael oherwydd deddfwriaeth newydd |

| Mater / Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|--|--|--|---------------------|---|
| | | | | <p>2. Mae rhaglen o hyfforddiant ar gyfer swyddogion sydd yn ymwneud â chaffael wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2023.</p> <p>3. Ni sefydlwyd y Gweithgor Atal Twyll eto.</p> <p>4. Mae system ar gyfer adrodd, yn gyfrinachol, am dwyll posib neu wirioneddol yn cael ei datblygu gyda Thîm y We a bydd yn gweithio drwy'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmer (CRM). Bwriedir rhoi'r system ar waith ym mis Ionawr 2024.</p> |
| <p>Mae prosesau prynu i dalu yn agored i dwyll oherwydd bod niferoedd y taliadau sy'n cael eu prosesu yn uchel, maent yn cynnwys cyflenwyr amrywiol, mae heriau staffio'n bodoli ac maent yn cynnwys trafodion gwerth uchel</p> | <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Tîm Credydwy'r i nodi ac atal gwallau a thwyll, gan gynnwys trwy ddadansoddi data (monitro parhaus) a chyhoeddi rhybuddion gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN) a rhybuddion twyll eraill.</p> | <p>Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â Rheolwr y Tîm Cyflogau a Thaliadau</p> | <p>Ar waith</p> | <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo. Mae gwaith monitro parhaus wedi digwydd a nodwyd 14 o daliadau dyblyg posib, gwerth cyfanswm o £53k ym mis Ebrill 2023, fel rhan o waith archwilio dilynol yn y maes hwn. Rydym wedi trosglwyddo'r wybodaeth i'r tîm Credydwy'r ac maent yn mynd ati i'w hymchwilio ac adennill unrhyw ordaliadau.</p> <p>Mae ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2022/23 wedi amlygu 8 o daliadau dyblyg posib eraill, gwerth cyfanswm o £13k. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i gynnwys fel rhan o'n hadroddiad ar Ganlyniadau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol.</p> <p>Rhybuddion a gyhoeddwyd gan y Fenter Atal Twyll Genedlaethol - gweler Atodiad 2.</p> |
| <p>Bod â threfniadau cadarn a chefnogaeth y pwyllgor gwaith i sicrhau fod mesurau</p> | <p>Bydd rhoi fframwaith atal twyll corfforaethol ar waith, sy'n darparu ystod lawn o elfennau lefel uchel, yn cyfrannu tuag at sicrhau fod gan y Cyngor strategaeth atal</p> | <p>Pennaeth Archwilio a Risg</p> | <p>Rhagfyr 2023</p> | <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y gwaith o ddiweddarau polisïau wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2023/24. |

| Mater / Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|---|---|---------------------------|--------------|--|
| atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad. | <p>twyll effeithiol. Mae gan y Cyngor fframwaith cadarn o weithdrefnau a pholisïau, a gyda'i gilydd maent yn gweithredu fel rhwystr effeithiol yn erbyn gweithgareddau twyllodrus ac yn darparu ffordd o adrodd am dwyll a llygredd, neu eu canfod. Felly, byddwn yn cynnal:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhaglen gynhwysfawr i ddiweddarau polisiau • gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am atal twyll • pecyn e-ddysgu | | | <ul style="list-style-type: none"> • Mae rhaglen o hyfforddiant yn cael ei darparu dros gyfnod o wythnos ym mis Rhagfyr 2023 • Mae pecyn e-ddysgu'n cael ei ddatblygu gyda'r Tîm AD - Dysgu a Datblygu |
| Nodi, asesu a deall y risgiau o dwyll yw conglfaen trefniadau atal twyll effeithiol | <p>Ar y cyd â gwasanaethau, byddwn yn datblygu tair ffrwd waith allweddol fydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ceisio nodi'r risgiau twyll ar draws y Cyngor • asesu gweithgareddau rheoli twyll a'u heffeithiolrwydd, a • dyrannu digon o adnoddau i ymchwilio a chanfod twyll pan roddir gwybod am hynny <p>Bydd gweithgor atal twyll yn cael ei ddatblygu i helpu i nodi'r risg o dwyll ar draws y Cyngor.</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp i ddatblygu asesiad o'r risg o dwyll i nodi twyll posib y gallai gwasanaethau fod yn agored iddo. Bydd yr asesiad yn amcangyfrif effaith bosib unrhyw dwyll a pha mor debyg ydyw o ddigwydd. Bydd canlyniadau'r asesiadau'n caniatáu'r Cyngor i gael gwell dealltwriaeth o beth yw'r bygythiadau o dwyll y mae'n eu</p> | Pennaeth Archwilio a Risg | Rhagfyr 2023 | Mae sefydlu Gweithgor Atal Twyll yn allweddol i'r weithred hon. Cyflwynir cynnig i'r Tîm Arweinyddiaeth yn gynnar yn 2024 i ofyn am eu cefnogaeth i sefydlu'r grŵp hwn. |


| Mater / Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|--|--|---|--------------|---|
| | hwynebu. Bydd yr asesiadau'n cael eu defnyddio hefyd fel adnodd i gynorthwyo i ganolbwyntio adnoddau ar y risgiau twyll mwyaf perthnasol. | | | |
| Yn aml, atgyfeiriadau ymatebol yw prif ffynhonnell gwaith y Tîm Archwilio Mewnol. | Yn aml mae atgyfeiriadau'n cael eu cynhyrchu gan fod y cyhoedd neu weithwyr yn effro a dyna sy'n caniatáu i'r mater gael ei ganfod. Byddwn yn edrych ar ddarparu adnodd adrodd am dwyll ar gyfer staff a'r cyhoedd er mwyn iddynt adrodd am bryderon. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Tîm TG | Mehefin 2023 | Mae gwaith yn mynd rhagddo. Mae Tîm y We wedi bod yn canolbwyntio ar waith ar y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmer ac felly cafwyd oedi gyda'r gwaith hwn. Mae'r system yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a ragwelir y bydd yn cael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2024. |
| Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnolegau trwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol | Byddwn yn cymryd rhan yn yr ymarferion a gynhelir yn flynyddol a bob dwy flynedd gan y Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n defnyddio data a ddarperir gan tua 1,200 o sefydliadau sy'n cymryd rhan o'r sector cyhoeddus a phreifat, er mwyn atal a chanfod twyll. Mae'r Fenter Twyll Cenedlaethol ynparu data electronig mewn a rhwng gyrff sector cyhoeddus a phreifat ac mae'r gyrff hyn yn cynnwys awdurdodau heddlu, byrddau prawf lleol, awdurdodau tân ac achub, yn ogystal â chynghorau lleol a nifer o gyrff sector cyhoeddus. Mae ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn chwarae rhan bwysig wrth amddiffyn y pwrs cyhoeddus rhag y risg o dwyll. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau | Ar waith | Ar waith. Gweler yr Adroddiad ar Ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol 2022-23. |
| Hyrwyddo diwylliant atal twyll | Byddwn yn hyrwyddo diwylliant atal twyll ar draws y Cyngor trwy roi cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol i effaith twyll ar y Cyngor a'r gymuned | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol | Ar waith | Nid yw'r gwaith wedi cychwyn eto |

| Mater / Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|--|---|--|------------|--|
| Codi Ymwybyddiaeth | Y ffordd orau o atal twyll yw trwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu byddwn felly'n cynnal digwyddiadau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o dwyll, gan gynnwys cyhoeddi cylchlythyron, cynnal sesiynau hyfforddi a sesiynau briffio. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu | Ar waith | Bydd digwyddiadau hyfforddi'n cael eu cynnal dros gyfnod o wythnos ym mis Rhagfyr 2023. |
| Adrodd am Dwyll | Mae angen rhoi gwybod i Archwilio Mewnol am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â thwyll. Byddwn yn cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau a gwersi i'w dysgu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau | Ar waith | Mae gwaith yn mynd rhagddo. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n derbyn gwybodaeth trwy'r Adroddiad Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd Blynnyddol a'r Diweddariadau Archwilio Mewnol sy'n cael eu cyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| Cydweithio, dysgu gwersi a chau'r bwlch | Byddwn yn parhau i gydweithio ar draws rhanbarth gogledd Cymru i yrru gwelliannau mewn gweithgarwch atal twyll, gan gynnwys mynd i'r afael â 15 argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2020. Byddwn hefyd yn parhau i weithio tu hwnt i ffiniau cenedlaethol er mwyn cydweithio gydag Is-Grŵp Atal Twyll Prif Swyddogion Archwilio'r Gogledd Orllewin, er mwyn dysgu gwersi, rhannu arfer dda a chau'r bwlch. | Pennaeth Archwilio a Risg | Ar waith | Mae gwaith yn mynd rhagddo. Mae Grŵp Atal Twyll Prif Swyddogion Archwilio wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu templed i fynd i'r afael â 15 argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y Grŵp yn parhau i gyfarfod i rannu gwybodaeth, rhannu hyfforddiant a thrafod risgiau sy'n dod i'r amlwg. |
| Amddiffyn y Cyngor a'i Breswylwyr | Er mwyn sicrhau fod ein strategaeth atal twyll yn alinio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor i warchod yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau, byddwn yn gweithio'n agos gyda thimau gofal i ddatblygu dulliau ar y cyd i nodi'r arfer orau ar gyfer atal twyll ym maes gofal cymdeithasol. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar waith | Nid yw'r gwaith wedi cychwyn eto. |

Atodiad 2 – Rhybuddion y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN)

Mae NAFN yn sefydliad sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaeth data a gwybodaeth ac ar hyn o bryd mae'n cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Fetropolitan Tameside. Sefydlwyd NAFN yn 1997 gan grŵp o awdurdodau lleol craidd ar draws Cymru a Lloegr er mwyn cydweithio i gyfnewid gwybodaeth er mwyn mynd i'r afael â thwyll ar hyd a lled y wlad. Ar hyn o bryd mae bron i 90% o awdurdodau lleol yn aelodau, ynghyd ag awdurdodau cyhoeddus cysylltiedig, yn cynnwys darparwyr tai cymdeithasol.

Mae NAFN yn darparu pob math o wasanaethau data a gwybodaeth ac fe'i hystyrir yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer data a gwybodaeth sector cyhoeddus. Ynghyd â'n cydweithwyr yn yr adran safonau masnach, rydym yn defnyddio NAFN at bob math o ddibenion. Yn benodol, rydym yn defnyddio gwasanaeth NAFN i rybuddio cydweithwyr ynglŷn ag achosion o dwyll ar draws y sector yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhybuddion hyn wedi bod yn allweddol o ran cynyddu ymwybyddiaeth swyddogion, yn benodol y Tîm Taliadau, ynglŷn ag achosion o dwyll yn y sector. Mae'r graff isod yn dangos amrywiaeth a chwmpas y rhybuddion a dderbyniwyd ac a ddsbarthwyd ledled y Cyngor:



| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | | |
|--|--|---|---|
| Adroddiad ar gyfer: | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | | |
| Dyddiad: | 7 Rhagfyr 2023 | | |
| Pwnc: | Adroddiad ar Ddeilliannau Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 | | |
| Pennaeth Gwasanaeth: | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru | | |
| Awdur yr Adroddiad: | <table border="0"> <tr> <td>Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru</td> <td>Andrew Lewis Uwch Archwilydd AndrewLewis@ynysmon.llyw.cymru</td> </tr> </table> | Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Andrew Lewis Uwch Archwilydd AndrewLewis@ynysmon.llyw.cymru |
| Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Andrew Lewis Uwch Archwilydd AndrewLewis@ynysmon.llyw.cymru | | |
| Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynglŷn â deilliannau cyfredol y Cyngor mewn perthynas ag ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23. | | | |

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd mewn perthynas ac ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2022/23.
- 1.2 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data ledled y DU sy'n helpu i ganfod ac atal twyll. Fe'i cynhelir yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan ei bwerau paru data statudol, a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- 1.3 Yng Nghynllun Gweithredu Atal Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd y Cyngor 2022-2025 mae gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg drwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol wedi'i nodi fel cam gweithredu i leihau'r risg o dwyll, llwgwrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn bod cynnwys yr adroddiad yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn mynd ati'n weithredol i fanteisio ar gyfleoedd drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol i ddefnyddio dadansoddeg data i wella'i drefniadau atal a chanfod twyll.

Adroddiad ar Ddeilliannau Menter Twyll Genedlaethol 2022/23 Rhagfyr 2023



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Andrew Lewis BA (Anrh) IRRV (Dip) ACFTech



Tabl Cynnwys

| | |
|--|---|
| Rhagarweiniad _____ | 1 |
| Trosolwg o'r Broses _____ | 2 |
| Deilliannau Blaenorol yr NFI _____ | 2 |
| Adroddiadau Paru a Ddarparwyd _____ | 3 |
| Y Gyflogres yn erbyn Credydwy'r _____ | 3 |
| Caffael: Y Gyflogres yn erbyn data Tŷ'r Cwmnïau _____ | 3 |
| Tenantiaid Tai yn Erbyn Tenantiaid Tai (o fewn a rhwng cyrff) _____ | 3 |
| Tenantiaid Tai yn erbyn data personau ymadawedig yr Adran Gwaith a Phensiynau _____ | 3 |
| Tenantiaid Tai yn erbyn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor _____ | 3 |
| Y Rhestr Aros Tai yn erbyn Rhestrau Aros Tai (rhwng awdurdodau lleol) _____ | 4 |
| Deiliaid Bathodyn Glas yn erbyn cofnodion personau ymadawedig yr Adran Gwaith a Phensiynau _____ | 4 |
| Credydwy'r _____ | 4 |
| Crynodeb o Arbedion ymarfer NFI 2022/23 _____ | 5 |
| Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-dal Tai _____ | 5 |
| Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn y Gofrestr Etholiadol _____ | 5 |
| Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor (yn neu bron yn 18 oed) _____ | 5 |
| Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn Setiau Data Eraill _____ | 6 |
| Rhestr Wirio Hunan Arfarnu _____ | 6 |
| Casgliadau _____ | 7 |
| Atodiad 1 – Crynodeb o Ddeilliannau ymarfer NFI 2022/23 _____ | 8 |
| Atodiad 2 – Rhestr Wirio Hunan Arfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol _____ | 9 |

Rhagarweiniad

1. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn ymarfer paru data a gynhelir gan y Swyddfa'r Cabinet gyda'r nod o atal twyll a gwallau. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn, ynghyd ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, gymryd rhan.
2. Mae Archwilio Cymru yn cydnabod bod llwyddiant yr NFI yn ddibynnol ar ba mor rhagweithiol ac effeithiol ydi'r cyrff sy'n cymryd rhan o ran ymchwilio i'r pariadau data.
3. Fodd bynnag, mae cymryd rhan yn yr NFI yn cynrychioli dim ond un elfen o unrhyw strategaeth gwrth-dwyll; mae diwylliant gwrth-dwyll cadarn a pholisïau a gweithdrefnau gwrth-dwyll effeithiol hefyd yn angenrheidiol.
4. Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd yr NFI adroddiad ar y deilliannau rhwng 5 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2022. Nodwyd bod twyll a gwallau gwerth cyfanswm o £442 miliwn wedi'u cofnodi ledled y DU.
5. O'r swm yma roedd £417 miliwn ar gyfer Lloegr, £14.9 miliwn ar gyfer yr Alban, £6.5 miliwn ar gyfer Cymru a £4.4 miliwn ar gyfer Gogledd Iwerddon. Daw hyn ag arbedion cronus yr NFI i £2.4 biliwn ers ei sefydlu ym 1996.

Trosolwg o'r Broses

6. Cynhelir yr ymarfer NFI pob dwy flynedd ledled y DU. Fe'i cydlynir yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol ac Archwilio Cymru.
 - Mae'r cyfranogwyr yn cyflwyno data i wefan ddiogel yr NFI ar ddiwedd y flwyddyn galendr ddynodedig.
 - Mae'r system NFI yn paru data mewn cyrff cyhoeddus a rhyngddynt i ganfod anghysondebau.
 - Mae anghysondebau posib, a elwir yn 'bariadau', yn cael eu gwneud yn hysbys i gyfranogwyr er mwyn iddynt eu hadolygu, ymchwilio iddynt a chofnodi'r deilliannau. Nid yw'r pariadau data ynddynt eu hunain yn awgrymu twyll neu wallau, ond maent yn canfod achosion y dylid ymchwilio iddynt ymhellach.
 - Adroddir ar ddeilliannau'r NFI gan gyfranogwyr unigol ac yna'n genedlaethol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ôl eu dwyn ynghyd.
7. Fel rhan o ymarfer NFI 2022/23, ym mis Hydref 2022 fe gyflwynodd y Cyngor ddata mewn perthynas â'r meysydd gwasanaeth a ganlyn:
 - Tai – Tenantiaid Presennol a Rhestr Aros
 - Trwyddedau gyrwyr tacsï
 - Data'r gyflogres
 - Hanes taliadau credydwy a data sefydlog credydwy
 - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
 - Cofrestr y Dreth Gyngor a'r Gofrestr Etholiadol (cyflwyniad blynyddol)
 - Hefyd, cyflwynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fanylion derbynyddion budd-daliadau a chyflwynodd y Gwasanaeth Digidol y Bathodyn Glas fanylion deiliaid Bathodyn Glas.

Deilliannau Blaenorol yr NFI

8. Daeth adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymarfer NFI 2020/21 i'r casgliad a ganlyn:
9. "Er bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru'n dangos ymrwymiad cryf i atal twyll, fe wnaeth 13 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru adnabod 95% o'r deilliannau o ran twyll a gwallau a gyflawnwyd gan y sector. Mae hyn yn awgrymu bod rhai awdurdodau lleol naill ai wedi methu â chydabod pwysigrwydd yr ymarfer neu eu bod yn amharod i ddyrannu digon o adnoddau atal twyll medrus i ymchwilio i bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol."¹
10. Roedd saith maes i gyfrif am bron i 97% o'r £6.5 miliwn o ddeilliannau ledled Cymru yn ystod ymarfer 2020/21:

| Categori | Gwerth y twyll / gwall (£) | Nifer yr achosion |
|-------------------------------------|----------------------------|-------------------|
| Disgowntiau'r Dreth Gyngor | £2.6 miliwn | 1,987 |
| Bathodynau Glas | £1.4 miliwn | 2,717 |
| Rhestrau Aros Tai | £0.8 miliwn | 237 |
| Budd-dal Tai | £0.6 miliwn | 84 |
| Grantiau cymorth busnes COVID-19 | £0.6 miliwn | 43 |
| Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor | £0.2 miliwn | 214 |
| Taliadau credydwy | £0.1 miliwn | 9 |

¹ Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21 (archwilio.cymru)

Adroddiadau Paru a Ddarparwyd

11. Rhwng Ionawr a Mawrth 2023 derbyniodd Cyngor Sir Ynys Môn 66 o adroddiadau a oedd yn cynnwys 2,638 o bariadau unigol.
12. Hyd yma, rydym wedi buddsoddi 8 diwrnod gwaith yn darparu data i Swyddfa'r Cabinet, gan ddadansoddi a gwerthuso parïadau a gweithio gyda gwasanaethau i ymchwilio i bariadau a gwella eu prosesau.
13. Hyd yma, rydym wedi dadansoddi a / neu gydlynw'r gwaith o werthuso'r adroddiadau a ganlyn, ac mae eu deilliannau i'w gweld yn [Atodiad 1](#):

Y Gyflogres yn erbyn Credydwy

14. Mae'r parïadau hyn yn canfod achosion lle'r oedd cyflogwr a chredydwr yn gysylltiedig â'r un cyfrif banc neu'r un cyfeiriad er mwyn canfod gweithwyr â buddiant mewn cwmnïau y mae'r Cyngor yn masnachu â hwy.
15. Fe all parïadau awgrymu buddiannau heb eu datgelu ac achosion posib o dwyll caffael neu aelod staff sydd wedi cofrestru credydwr gan ddefnyddio eu manylion banc eu hunain i dderbyn taliadau nad oes ganddynt hawl i'w derbyn.
16. Er bod nifer o bariadau, ni chanfuwyd unrhyw achos o dwyll neu lygredd. Mae'r enghreifftiau fel arfer yn cynnwys benthyciadau ceir gweithwyr neu gontractwr sy'n byw ar yr un aelwyd â'r gweithiwr. Yr hyn sy'n arwyddocaol, fodd bynnag, yw nad oes unrhyw wrthdaro o ran buddiannau gan nad oes gan weithwyr y Cyngor unrhyw ddylanwad dros benderfyniadau caffael.

Caffael: Y Gyflogres yn erbyn data Tŷ'r Cwmnïau

17. Mae data'r Gyflogres yn cael ei gymharu â'r wybodaeth a gedwir gan Dŷ'r Cwmnïau ac yna â data Credydwy y Cyngor i ganfod unrhyw fuddion posib sydd heb eu datgan a all fod wedi rhoi mantais ariannol. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu rhannu rhwng y rhai sy'n amlygu gweithwyr sydd ymddangos fel petaent wedi cofrestru fel cyfarwyddwyr cwmnïau y mae'r Cyngor wedi masnachu â hwy a'r

gweithwyr sydd yn gysylltiedig â chyfeiriad cyfarwyddwr cwmni neu gwmni.

18. Daeth y parïadau hyn o hyd i enghreifftiau lle'r oedd gweithwyr y Cyngor neu aelod o'r un cartref â hwy wedi cofrestru fel cyfarwyddwyr Grwpiau Cymunedol a / neu Gwmnïau Cyfyngedig Cyhoeddus. Fodd bynnag, ni ddaethpwyd o hyd i achosion gwirioneddol / posib o wrthdaro buddiannau gan nad oedd cyswllt rhwng rôl y gweithwyr hyn â'r sefydliad / busnes.

Tenantiaid Tai yn Erbyn Tenantiaid Tai (o fewn a rhwng cyrff)

19. Mae'r adroddiad tenantiaid yn amlygu tenantiaid sy'n ymddangos fel petaent yn byw mewn dau wahanol gyfeiriad gan awgrymu achosion posib o isosod eiddo neu denantiaethau deuol.
20. Gellir priodoli'r parïadau hyn i denantiaethau sy'n gorgyffwrdd, naill ai o ganlyniad i broses drosglwyddo faith wrth symud o un eiddo i'r llall a / neu denantiaid sy'n dianc rhag trais domestig.

Tenantiaid Tai yn erbyn data personau ymadawedig yr Adran Gwaith a Phensiynau

21. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu achosion lle mae tenant wedi marw, ond bod yr awdurdod lleol heb gael gwybod am hynny, ac felly nid ydynt wedi dileu'r denantiaeth neu newid eu cofnodion.
22. Mae uwch swyddog tai wedi dadansoddi 36 o bariadau a gellir cadarnhau nad oes unrhyw achos o dwyll. Roedd rhai tenantiaethau wedi aros yn enw'r tenant wrth i hawliadau goroessedd / olyniaeth gael eu cadarnhau. Roedd y gwasanaeth yn cydnabod bod rhywfaint o oedi wedi bod wrth ddatrys rhai achosion.

Tenantiaid Tai yn erbyn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

23. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu achosion posib o dwyll tenantiaeth a / neu hawliadau anghywir am ostyngiad yn y dreth gyngor, lle mae'n ymddangos fel petai unigolyn yn byw mewn dau gyfeiriad gwahanol.

24. Nid oes unrhyw faterion y mae'n rhaid i'r Cyngor eu datrys mewn perthynas â'r pariadau hyn. Roedd un enghraifft lle'r oedd enw dau denant yn dal i fod yn gysylltiedig â thenantiaeth, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth flaenorol, er bod un ohonynt bellach yn byw mewn cyfeiriad arall. Roedd pariad arall lle'r oedd manylion y denantiaeth yn gywir ond bod angen i awdurdod lleol cyfagos fynd i'r afael â mater yn ymwneud â gostyngiad yn y Dreth Gyngor gan nad yw'r unigolyn yn byw yn eu hardal hwy mwyach.

Y Rhestr Aros Tai yn erbyn Rhestrau Aros Tai (rhwng awdurdodau lleol)

25. Mae'r adroddiad hwn yn nodi achosion lle mae'n ymddangos fel petai unigolyn wedi cofrestru ar restr aros gan ddefnyddio dau gyfeiriad gwahanol, sy'n awgrymu nad ydynt, o bosib, wedi datgelu bod eu hamgylchiadau wedi newid neu eu bod wedi darparu gwybodaeth anwir.
26. Ar ôl dadansoddi tri o'r pariadau hyn, tynnwyd enw un ymgeisydd oddi ar y rhestr gan nad oedd wedi datgelu bod ei amgylchiadau wedi newid. Rydym yn ymchwilio i wyth pariad arall ar hyn o bryd a bydd yr ymgeiswyr yma'n cael eu tynnu oddi ar restr y Cyngor os ydynt wedi dod o hyd i lety arall neu os ydi eu hanghenion tai wedi newid.

Deiliaid Bathodyn Glas yn erbyn cofnodion personau ymadawedig yr Adran Gwaith a Phensiynau

27. Mae unigolion â 'Bathodyn Glas' yn cael eu paru â chofnodion personau ymadawedig i amlygu achosion lle mae deiliad bathodyn wedi marw, ond bod yr awdurdod lleol heb gael gwybod am hynny.
28. Ar ôl trafod gyda'r uwch swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun 'Bathodyn Glas', canfuwyd bod y 299 o bariadau yn ystod yr ymarfer NFI o ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu rhwng gwasanaethau, h.y., doedd y 'Bathodyn Glas' ddim wedi cael ei gau ar y system gan nad oedd y tîm wedi cael gwybod bod deiliad y bathodyn wedi marw.
29. Ar ôl ymchwilio i'r mater, rydym wedi cael sicrwydd gan reolwyr y bydd y broses rheoli mewnlol yn cael ei chryfhau i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n gweinyddu'r cynllun 'Bathodynau Glas' yn gallu

croesgyfeirio manylion deiliad bathodynau yn erbyn y cofnodion personau ymadawedig, er mwyn sicrhau bod bathodynau'n cael eu canslo'n gyflym.

Credydwyr

30. Mae'r pariadau hyn yn amlygu taliadau dyblyg dros £1,000 o ganlyniad i ddulliau rheoli gwael neu weithgareddau twyllodrus gan gyflenwyr a / neu staff.
31. O ganlyniad i'n dadansoddiad NFI, amlygwyd wyth taliad dyblyg i gredydwyr a oedd heb eu nodi eisoes. Fe wnaeth y pariadau NFI amlygu rhagor o daliadau dyblyg, fodd bynnag roedd y rhain eisoes wedi cael eu canfod drwy fesurau rheoli mewnlol / gwaith monitro ac archwilio parhaus, ac felly nid ydynt yn cael eu cydnabod fel deiliant yn gysylltiedig â'r NFI.
32. Mae'r tîm Taliadau wedi'n cynghori eu bod yn y broses o adennill y taliadau dyblyg hyn.

Crynodeb o Arbedion ymarfer NFI 2022/23

33. Mae'r system NFI yn gofyn i ddefnyddwyr gofnodi'r deilliannau ar gyfer eu hymchwiliadau a phennu gwerth ariannol lle bo modd i adlewyrchu unrhyw ordaliad neu arbedion o ganlyniad i'r cywiriad.
34. Fe all hyn fod yn arbediad ariannol gwirioneddol, er enghraifft yn dilyn cyfrifo gordaliadau budd-dal tai, neu arbediad amcangyfrifedig, er enghraifft pan fydd enw rhywun yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr aros tai, neu pan fydd 'Bathodyn Glas' yn cael ei ganslo.
35. Mewn perthynas â'r 299 o bariadau yn ymwneud â 'Bathodynnau Glas' a oedd heb eu canslo ac a oedd yn dal i gael eu defnyddio ar ôl i ddeiliad y bathodyn farw, mae'r NFI yn amcangyfrif arbediad sylweddol o £194,350, h.y., mae'r NFI yn amcangyfrif colled o £650 ar gyfer pob 'Bathodyn Glas' sy'n dal i gael ei ddefnyddio ar ôl i ddeiliad y bathodyn farw.
36. Mewn perthynas ag un achos o dwyll / gwall yn ymwneud â'r rhestr aros tai (ymgeisydd heb roi gwybod bod eu hamgylchiadau wedi newid), mae'r NFI yn amcangyfrif arbediad gwerth £4,283 ar gyfer eu tynnu oddi ar y rhestr aros.
37. Mewn perthynas â Chredydwyr (cofnodion dyblyg yn ôl swm a chyfeirnod credydwyr), daethpwyd o hyd i wyth taliad dyblyg gwerth cyfanswm o £13,343.21 drwy waith yr NFI.

Tudalen 97

Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-dal Tai

38. Oherwydd gwrthdaro rhwng gwahanol flaenoriaethau (e.e., gweinyddu'r cynlluniau costau byw) a diffyg adnoddau, nid yw'r Tîm Refeniw wedi cael cyfle i ddadansoddi'r pariadau hyn eto.
39. Po fwyaf fo'r oedi wrth ddadansoddi'r pariadau hyn, po fwyaf fo'r risg o ordaliadau sylweddol o ran Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Budd-dal Tai. Fodd bynnag, rydym wedi cael ein cynghori y bydd rhai o'r pariadau'n cael eu gwerthuso.
40. Mae'r Tîm Refeniw hefyd yn derbyn adroddiadau ar wahân, yn flynyddol, mewn perthynas â phariadau yn ymwneud â'r Dreth Gyngor a'r Gofrestr Etholiadol. Mae'r pariadau hyn yn amlygu achosion lle mae trethdalwyr, o bosib, yn derbyn y Disgownt Person Sengl er nad ydynt yn gymwys, naill ai o ganlyniad i dwyll oherwydd eu bod heb ddatgelu bod eu hamgylchiadau wedi newid neu trwy wall.
41. Ar gyfer 2022/23, cafodd yr adroddiadau NFI canlynol ar y Dreth Gyngor eu darparu i'r Cyngor er mwyn iddo gynnal ymchwiliadau pellach:

Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn y Gofrestr Etholiadol

42. Mae'r pariad hwn (1,097 o bariadau) yn amlygu cyfeiriadau lle mae preswlydd yn hawlio disgownt person sengl gan eu bod yn byw ar eu pen eu hun ond bod y gofrestr etholiadol yn awgrymu bod mwy nag un person sy'n 18 oed neu'n hŷn yn byw yn yr eiddo.

Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor (yn neu bron yn 18 oed)

43. Mae'r pariad hwn (116 o bariadau) yn amlygu cyfeiriadau lle mae preswlydd yn hawlio disgownt person sengl y dreth gyngor gan mai hwy yw'r unig berson dros 18 oed yn yr eiddo, ond bod y gofrestr etholiadol yn awgrymu bod rhywun arall yn byw yn yr eiddo sydd yn neu sydd bron yn 18 oed.

Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn Setiau Data Eraill

44. Mae'r pariad hwn (1,052 o bariadau) yn amlygu cyfeiriadau lle mae preswlydd yn hawlio disgownt person sengl y dreth gyngor gan eu bod yn byw ar eu pen eu hun, ond bod gwybodaeth arall gan yr NFI yn awgrymu bod mwy nag un person yn byw yn yr eiddo.
45. Mae'r Tîm Refeniw wrthi'n trafod gyda darparwr allanol sy'n adolygu/dilysu hawliadau Disgownt Person Sengl gan ddefnyddio'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf gan y ganolfan gredyd. Maent yn bwriadu cynnal yr ymarfer cyn diwedd 2023/24. O ganlyniad, er mwyn osgoi dyblygu, mae parïadau'r NFI yn annhebygol o gael eu hymchwilio.

Rhestr Wirio Hunan Arfarnu

46. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynhyrchu dwy restr ar gyfer sefydliadau i hunan arfarnu eu rhan yn yr NFI cyn ac yn ystod yr ymarfer.
47. Mae un rhestr wirio ar gyfer swyddogion sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a rheoli'r ymarfer NFI ac mae'r llall i gynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu a chwilio am sicrwydd drwy herio pa mor effeithlon oedd rhan y Cyngor yn yr ymarfer NFI ac mae ynghlwm yn [Atodiad 2](#).
48. Mae'r rhestr wirio'n rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod y Cyngor yn ceisio sicrhau'r effaith fwyaf posibl wrth gymryd rhan yn yr ymarfer NFI.

Casgliadau

49. Rydym yn ddiolchgar i'r gwasanaethau perthnasol am ddadansoddi pariadau'r ymarfer NFI a/neu ymateb i'n hymholiadau. Fodd bynnag, rydym yn ategu argymhelliad Archwilio Cymru y dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer NFI sicrhau eu bod yn ceisio sicrhau'r buddion mwyaf wrth gymryd rhan ac ystyried a yw'n bosib gweithio'n fwy effeithlon ar y pariadau NFI.
50. Hyd yma, mae Archwilio Mewnol wedi treulio 8 diwrnod yn cymryd rhan yn yr ymarfer, ac mae rhai gwasanaethau, megis Tai, wedi ymrwymo llawer iawn o adnoddau i ddadansoddi'r pariadau. Tra bo'n deilliannau ariannol h.y., y twyll / gordaliadau a /neu wallau a ganfuwyd yn ystod yr ymarfer NFI a'r colledion y bydd yn eu hatal yn y dyfodol yn awgrymu bod yr ymarfer yn cynnig gwerth am arian, mae'n ymddangos bod gwendid yn y fformiwlâu a ddefnyddir gan yr NFI i gyfrifo deilliannau e.e., y ffigwr anhygoel o uchel ar gyfer 'Bathodynau Glas' sy'n dal i gael eu defnyddio a'r incwm y mae'r Cyngor yn ei golli o ganlyniad.
51. Mae'r cyfle i nodi gwendidau mewn mesurau rheoli mewnol a chyfleoedd i drafod ffyrdd o gryfhau prosesau gyda rheolwyr yn un fantais anfesuradwy sydd ddim yn cael ei adlewyrchu yn neilliannau ariannol yr NFI.
52. Wrth symud ymlaen byddwn yn trafod gyda Phenaethiaid Gwasanaeth sut y gallwn gyrraedd y nod o wella'r modd yr ydym yn mynd ati i ddadansoddi ein pariadau er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud hynny'n fwy effeithlon ac effeithlon ac er mwyn sicrhau mwy o werth am arian.
53. Fel y trafodwyd yn flaenorol, nid yw'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi dadansoddi eu pariadau ar y Dreth Gyngor gan eu bod yn bwriadu cynnal adolygiad swmp wedi'i reoli o ddisgowntiau ac eithriadau cyn diwedd 2023/24. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau'r budd mwyaf o'r ymarfer NFI drwy ymchwilio i'r pariadau data mwyaf gwerthfawr².

Tudalen 99

54. Rhaid cydnabod bod y gwallau 'Bathodynau Glas' wedi gwro'r deilliannau ariannol yn sylweddol. Rydym, fodd bynnag, yn disgwyl gweld gostyngiad yn y gwallau 'Bathodynau Glas' yn 2024/25 gan ein bod wedi cryfhau ein mesurau mewnol yn y maes hwn.
55. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Gwasanaeth Tai mewn perthynas â'r pariadau yn ymwneud â'r Budd-dal Tai, Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Thenantiaid Tai.
56. Wrth edrych ymlaen i 2024/25, mae'r NFI wrthi'n edrych ar opsiynau polisi a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i baru data gofal cymdeithasol oedolion, i helpu i ganfod twyll a gwallau posib o fewn y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Roedd yr NFI yn arfer cynnal yr ymarferion paru data hyn ond daeth y gwaith hwn i ben yn 2020 yn sgil newidiadau i'r ddeddfwriaeth iechyd gofal a oedd yn golygu nad oedd modd iddynt barhau i anfon y pariadau data yn ôl i sefydliadau llywodraeth leol.

² Yn ôl Archwilio Cymru, yn y ddogfen Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21

Atodiad 1 – Crynodeb o Ddeilliannau ymarfer NFI 2022/23

Tudalen 100

| Maes adrodd | Nifer y pariadau | Nifer y pariadau risg uchel yn ôl yr NFI | Nifer y pariadau risg canolig yn ôl yr NFI | Nifer y pariadau a ddadans oddwyd | Twyll / Gwall a gadarnhawyd | Disgwyl am gadarnhad | Deilliannau ariannol yr NFI, h.y. cyfanswm y twyll / gordaliadau a / neu wallau a ganfuwyd yn ystod yr ymarfer ac amcangyfrif o'r colledion a ataliwyd |
|-------------------------------------|------------------|--|--|-----------------------------------|-----------------------------|----------------------|--|
| Bathodynau Glas | 394 | 1 | 9 | 323 | 299 | 0 | £194,350.00 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 202 | 12 | 133 | 0 | 0 | 202 | <i>l'w gadarnhau</i> |
| Credydwyr | 1,646 | 0 | 0 | 1,114 ³ | 8 | 0 | £13,343.21 |
| Hawlwr Budd-daliadau Tai | 23 | 7 | 6 | 1 | 0 | 22 | <i>l'w gadarnhau</i> |
| Tenantiaid Tai | 137 | 24 | 36 | 46 | 2 | 41 | <i>l'w gadarnhau</i> |
| Rhestr Aros Tai | 39 | 27 | 9 | 3 | 1 | 8 | £4,283.00 |
| Cyflogres | 195 | 2 | 6 | 113 | 0 | 0 | £0.00 |
| Caffael | 43 | 0 | 0 | 43 | 0 | 0 | £0.00 |
| Cyfanswm | 2,679 | 73 | 199 | 1,643 | 310 | 273 | £211,976.21 |

³ gan ddefnyddio dadansoddiadau data

Atodiad 2 – Rhestr Wirio Hunan Arfarnu’r Fenter Twyll Genedlaethol

| Rhan A: I’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu | Gwir/Anwir/Yn rhannol | Sylwadau Rheolwyr | A oes angen gweithredu? | Gan bwy a phryd? |
|--|-----------------------|--|---|--|
| Llywodraethiant, ymrwymiad a chyfathrebu | | | | |
| 1. Rydym yn ymwybodol o’r risgiau twyll sy’n dod i’r amlwg, e.e. o ganlyniad i COVID-19, ac wedi cymryd camau ataliol ac olrheiniol priodol. | Gwir | <ul style="list-style-type: none"> Perthyn i rwydweithiau a grwpiau proffesiynol ac yn cymryd rhan (Grŵp Atal Twyll Gogledd a Chanolbarth Cymru) Monitro ac ymateb i rybuddion yn ymwneud â thwyll (rybuddion NAFN, rhwydweithiau ehangach, cyfoedion ayb.) Ystyried risgiau twyll sy’n dod i’r amlwg yn y Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd sy’n cael ei adolygu’n flynyddol | Datblygu asesiadau Risg Twyll o fewn gwasanaethau | Y Pennaeth Archwilio a Risg / Gweithgor Gwrth-dwyll (yn dilyn ei sefydlu) Erbyn Mawrth 2024 |
| 2. Rydym wedi ymrwymo i’r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae’r cyngor / bwrdd, y pwyllgor archwilio a’r uwch-reolwyr wedi mynegi eu cefnogaeth i’r ymarfer ac mae hyn wedi ei gyfleu i’r staff perthnasol. | Gwir | <ul style="list-style-type: none"> Mae cymryd rhan yn yr ymarfer NFI wedi’i nodi yn Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd 2022-2025. Cyflwynir adroddiad i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddeilliannau’r NFI | Na | Amh. |

| Rhan A: I'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Gwir/Anwir/Yn rhannol | Sylwadau Rheolwyr | A oes angen gweithredu? | Gan bwy a phryd? |
|--|-----------------------|--|---|---|
| 3. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhan annatod o'n polisiau a'n strategaethau corfforaethol ar gyfer atal a chanfod twyll a gwallau. | Gwir | Fel sydd wedi'i nodi yn ein Strategaeth Atal Twyll, Llwwgrwobrwyo a Llygredd a'r Cynllun Gweithredu, rydym wedi ymrwymo i wneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg i atal twyll a gwallau drwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol. | Na | Amh. |
| 4. Rydym wedi ystyried defnyddio'r gwasanaeth paru data ar adeg ymgeisio a gynigir gan dîm y Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn gwella sicrwydd o ran rheolaethau mewnol ac er mwyn gwella ein dull o reoli risgiau. | Gwir | Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi ystyried defnyddio <i>AppCheck</i> , ond, oherwydd problemau capasiti, roedd o'r farn nad oedd digon o adnoddau ar gael i'w roi ar waith ar yr adeg honno. | Bydd y Gweithgor Atal Twyll yn ystyried a ddylid ei ddefnyddio o fewn y Cyngor. | Gweithgor Atal Twyll Erbyn Mawrth 2024 |
| 5. Mae cynnydd a chanlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i uwch-reolwyr ac aelodau etholedig/bwrdd (e.e. y pwyllgor archwilio neu rywun sy'n cyfateb i hynny). | Gwir | Mae adroddiadau ar hynt a deilliannau'r NFI yn cael eu cyflwyno i'r uwch reolwyr ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | Na | Amh. |
| 6. Pan nad ydym wedi cyflwyno data nac wedi defnyddio'r paru a ddychwelwyd inni, e.e. gostyngiad yn y dreth gyngor i berson sengl, rydym yn fodlon bod trefniadau amgen ar waith ar gyfer canfod twyll ac rydym yn gwybod pa mor llwyddiannus ydynt. | Gwir | Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn ymarfer paru data ar draws pob categori paru data. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn defnyddio cwmni paru data allanol pob hyn a hyn i adolygu Disgowntiau Person Sengl y Dreth Gyngor. | Na | Amh. |

| Rhan A: I'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Gwir/Anwir/Yn rhannol | Sylwadau Rheolwyr | A oes angen gweithredu? | Gan bwy a phryd? |
|--|-----------------------|--|-------------------------|------------------|
| 8. Rydym yn adolygu sut y cododd achosion o dwyll a gwallau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella ein rheolaethau mewnol. | Gwir | Cynhelir ymchwiliad i unrhyw achos o dwyll. Os oedd o ganlyniad i reolaethau gwan, bydd gwaith archwilio mewnol yn cael ei gwblhau i helpu i wella a chryfhau ein rheolaethau atal twyll. Er enghraifft, archwilio Cardiau Tanwydd wedi i un o gardiau tanwydd y Cyngor gael ei ddwyn a'i gamddefnyddio. | Na | Amh. |
| 9. Rydym yn cyhoeddi, fel ataliad, yn fewnol ac yn allanol gyflawniadau ein hymchwilyr twyll (e.e. erlyniadau llwyddiannus). | Gwir | Bydd unrhyw ymchwiliadau twyll llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi. | Na | Amh. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|--|--|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Dyddiad: | 7 Rhagfyr 2023 |
| Pwnc: | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| Pennaeth Gwasanaeth: | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| Awdur yr Adroddiad: | Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| <p>Natur a Rheswm dros Adrodd:</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod.</p> <p>Mae hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022 i ystyried y trefniadau sydd ar waith i sicrhau sicrwydd digonol ar draws ystod lawn o weithrediadau'r corff a'i gydweithrediad ag endidau eraill, yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio fewnol yr awdurdod i oruchwylio ei annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a chydymffurfio â safonau proffesiynol; cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer archwilio mewnol ac i hyrwyddo'r defnydd effeithiol o archwilio mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.</p> | |

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 30 Tachwedd 2023 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 13 Medi 2023, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.

Diweddariad Archwilio Mewnol

Rhagfyr 2023

Tudalen 106



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

| | |
|--|---|
| Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf | 1 |
| Gweinyddu Pensiynau Athrawon (Adolygiad Dilyn i Fyny Cyntaf) | 2 |
| Gwytnwch Sefydliadol (Risg Strategol YM7) | 2 |
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 3 |
| Ymchwiliad - Gordaliad Contract | 3 |
| Ymchwiliad - Twyll Mewnol | 4 |
| Gwaith ar y Gweill | 4 |
| Camau Gweithredu sy'n Weddill | 5 |
| Blaenoriaethau | 5 |
| Capasiti Presennol | 5 |
| Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig | 5 |
| Blaenoriaethau Tymor Hwyl | 5 |

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

- Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Medi 2023, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.
- Rydym wedi cwblhau **pump** darn o waith archwilio sicrwydd mewnol yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod a cheir trafodaeth fanylach arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|--|--------------------|--------------------|--------------------|--------------------|
| Gweinyddu Pensiynau Athrawon (Adolygiad Dilyn i Fyny Cyntaf) | Rhesymol | 0 | 0 | 1 |
| Gwytnwch Sefydliadol (Risg Strategol YM7) | Rhesymol | 0 | 1 | 3 |
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Rhesymol | 0 | 0 | 2 |
| Ymchwiliad - Gordaliad Contract | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Ymchwiliad - Twyll Mewnol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

Gweinyddu Pensiynau Athrawon (Adolygiad Dilyn i Fyny Cyntaf)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|-------------------|------------------|-----------|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 1 | Cymedrol |

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:
A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' a godwyd yn ein hadroddiad ar Weinyddu Pensiynau Athrawon a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, a oedd yn rhoi Sicrwydd Cyfyngedig o ran llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol yn y maes hwn.
4. Mae'r Tîm Cyflogau a Phensiynau wedi gwneud cynnydd da o ran cryfhau trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Pensiynau Athrawon ac mae canlyniadau ein hadolygiad yn gadarnhaol.
5. Mae'r Tîm Cyflogau a Phensiynau wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â dau o'r materion/risgiau a nodwyd yn ystod ein hadolygiad gwreiddiol ac mae camau a gymerwyd i leihau tebygolrwydd y risg bellach yn golygu fod un mater/risg wedi cael ei ail-sgorio fel 'mân risg' o ran difrifolwch. Mae hyn yn golygu fod un mater/risg cymedrol yn parhau i fod ar waith. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo er mwyn cyflwyno adroddiad newydd (MCR), ond mae hyn yn dibynnu ar Bensiynau Athrawon a Zellis yn datrys y problemau presennol.
6. Rydym yn fodlon fod trefniadau i reoli'r risgiau wedi gwella ers i ni gynnal ein hadolygiad gwreiddiol a gallwn godi'r lefel sicrwydd i 'rhesymol'. Byddwn yn parhau i fonitro'r un weithred sy'n weddill, fel rhan o'n system fonitro fewnol, i sicrhau y caiff ei gyflawni'n llwyddiannus a bod y mater/risg cysylltiedig yn derbyn sylw.

Gwytnwch Sefydliadol (Risg Strategol YM7)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|-------------------|------------------|-----------|
| | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 3 | Cymedrol |

7. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:
A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i reoli ac ymateb i newidiadau tu hwnt i'w reolaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau a darparu gwasanaethau o ansawdd?
8. Mae gan y Cyngor fframwaith effeithiol i reoli ac ymateb i newidiadau y tu hwnt i'w reolaeth.
9. Mae hyn yn cynnwys cynnal cysylltiadau rhwydweithio effeithiol gyda chysylltiadau allweddol, prosesau monitro perfformiad sydd wedi hen sefydlu a rheolaeth ariannol gadarn. Er gwaethaf hyn, mae'n glir y gallai'r heriau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor yn y tymor canol, oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, gael effaith ar ei wytnwch cyffredinol. Mae cyfleoedd hefyd i wella fframwaith parhad busnes cyffredinol y Cyngor.
10. Er ein bod wedi codi pedwar Mater/Risg y mae angen i reolwyr roi sylw iddynt, ac er ein bod wedi nodi rhai newidiadau a fyddai'n gwella'r cofnod ar gyfer y maes hwn yn y gofrestr risgiau corfforaethol, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan.
11. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr ac, o fewn cwmpas ein hadolygiad, gallwn roi sicrwydd **rhesymol** o ran llywodraethiant, rheolaeth a rheoli'r risg hwn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|----------------------|------------------|-----------|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 2 | Cymedrol |

12. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:
A oes gan y Cyngor brosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod pob gweithiwr cymwys yn cael cynnig cynllun pensiwn, eu cofrestru ar ei gyfer a'u rheoli'n gywir fel rhan o brosesau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan sicrhau bod y cyfraniadau cywir yn cael eu didynnu a'u credydu i weinyddwr y cynllun pensiwn?
13. Mae gan y Cyngor fesurau rheoli effeithiol ar waith i sicrhau bod pob gweithiwr cymwys yn cael cynnig cynllun pensiwn, eu cofrestru ar ei gyfer a'u rheoli'n gywir fel rhan o brosesau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan sicrhau bod y cyfraniadau cywir yn cael eu didynnu a'u credydu i weinyddwr y cynllun pensiwn.
14. Amlygwyd dau faes i'w gwella gennym, a fyddai'n cryfhau'r trefniadau presennol, sef cysoni'r data sy'n cael ei anfon at weinyddwr y cynllun pensiwn yn gyson a chwblhau gwiriadau ychwanegol ar gyfer gweithwyr newydd.
15. Er ein bod wedi codi dau Fater/Risg sydd angen sylw cymedrol i isel gan reolwyr ar lefel gwasanaeth, roedd canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr ac, felly, o fewn cwrmpas ein hadolygiad, gallwn roi sicrwydd **rhesymol** i lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yn y maes hwn.

Ymchwiliad - Gordaliad Contract

16. Derbyniodd Archwilio Mewnol gais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i gynnal ymchwiliad ar ôl i ordaliad contract gael ei ddarganfod.
17. Rydym wedi cadarnhau bod prosesau gwell bellach wedi'u rhoi ar waith i atal unrhyw fater o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol.
18. Er bod ein hymchwiliad wedi dod i ben, ni allwn rannu unrhyw fanylion pellach gan y gallai fod yn niweidiol i les gorau'r Cyngor. Byddwn yn diweddarau'r Pwyllgor cyn gynted ag y gallwn wneud hynny.

Ymchwiliad – Twyll Mewnol

19. Yn unol â'r Polisi ar gyfer Atal Twyll a Llygredd, cyfeiriwyd achos posib o dwyll mewnol at y Pennaeth Archwilio a Risg gan Bennaeth Gwasanaeth. Cynhaliwyd ymchwiliad gan y Pennaeth Archwilio a Risg a chafodd y gweithiwr ei wahardd o'i waith tra'r oedd yr ymchwiliad yn mynd rhagddo.
20. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg adroddiad i'r Prif Weithredwr, a gofynnodd yntau i'r mater gael ei gyfeirio at Heddlu Gogledd Cymru. Cymeradwywyd hyn gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, yn unol â'r Cyfansoddiad.
21. Ar gais Heddlu Gogledd Cymru, gofynnwyd i'r gweithiwr wneud trefniadau i gael ei gyfweld ganddynt.
22. Yn dilyn hyn, penderfynodd y gweithiwr ymddiswyddo a derbyniodd y Cyngor ei ymddiswyddiad.
23. Ar ôl i'r gweithiwr gael ei gyfweld o dan rybuddiad, pan gyfaddefodd i drosedd o dan Adran 2 Deddf Twyll 2006, derbyniodd y cyn weithiwr Rhybuddiad Amodol gan Heddlu Gogledd Cymru.

Gwaith ar y Gweill


24. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes | Rheswm am yr Archwiliad | Cam |
|---|---|-----------------------|
| Datganiadau o Ddiddordeb | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Gwaith Maes |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Gwaith Maes |
| Cyflogres (Prosesau Gweithwyr Newydd) | Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24 | Adroddiad Drafft |
| Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (YM10) | Sicwydd yn gysylltiedig â'r Gofrestr Risgiau Strategol | Gwaith Maes |
| Gweinyddu Grantiau Cyfleusterau ar gyfer yr Anabl | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Gwaith Maes |
| Rheoli Debyd Uniongyrchol | Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24 | Gwaith Maes |
| Archwiliad – Cael Gwared ar Wastraff (Gwasanaeth Tai) | Cwyn a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Llinos Medi | Gwaith Maes |
| Prosesau Incwm Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol | Cais gan y Prif Weithredwr | Gwaith sefydlu cwmpas |

Camau Gweithredu sy'n Weddill

25. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi sylw i'r holl 'Faterion/Risgiau' a godwyd a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.
26. Ar 30 Tachwedd 2023, mae dau mater/risg cymedrol yn hwyr, gyda'r ddau ohonynt yn y Gwasanaeth Adnoddau.

Materion / Risgiau Hwyr fesul Gwasanaeth



Blaenoriaethau

Capasiti Presennol

27. Yn anffodus, er gwaethaf yr ymarfer recriwtio llwyddiannus yn gynharach eleni, mae ein Uwch Archwilydd newydd wedi gadael ac wedi cael swydd newydd yn y gwasanaeth Adnoddau. Mae hyn yn golygu fod dwy swydd wag ar hyn o bryd, ar lefel Uwch Archwilydd, wedi i'r aelod staff ymddiswyddo a chan fod secondiad tymor hir yn parhau.
28. Rydym yn defnyddio arbedion cyllidebol o ganlyniad i'r swyddi gwag i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol.

Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

29. Mae gwaith yn gysylltiedig â'n Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2023-24 a'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd 2022-2025 yn mynd rhagddo'n dda.
30. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Zurich Risk Engineering UK i gynnal asesiad annibynnol o fframwaith Rheoli Risg y Cyngor, a fydd yn amlygu meysydd o gryfder ac yn argymhell meysydd i'w datblygu ymhellach. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor hwn yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2024.
31. Rydym hefyd yn gweithio gyda Tîm Hyfforddi a Datblygu'r Cyngor ar hyn o bryd i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth atal twyll ar draws y Cyngor, i aelodau a staff, a bydd cyfres o sesiynau hyfforddi'n cael eu darparu dros gyfnod o wythnos ym mis Rhagfyr 2023.

Blaenoriaethau Tymor Hwyr

32. Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Perfformiad i wella gwaith mapio sicrwydd ar draws y Cyngor a chyfrannu at ddatblygu'r Grŵp Llywodraethiant ac Adolygu Perfformiad.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | | |
|---|---|---|--|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | | |
| Dyddiad: | 7 Rhagfyr 2023 | | |
| Pwnc: | Diweddariad Cofrestr Risg Strategol | | |
| Pennaeth Gwasanaeth | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru | | |
| Awduron yr Adroddiad: | <table border="0"> <tr> <td>Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru</td> <td>Julie Jones Rheolwr Risg ac Yswiriant JulieJones@ynysmon.llyw.cymru</td> </tr> </table> | Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Julie Jones Rheolwr Risg ac Yswiriant JulieJones@ynysmon.llyw.cymru |
| Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Julie Jones Rheolwr Risg ac Yswiriant JulieJones@ynysmon.llyw.cymru | | |
| Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae pwyllgorau archwilio'n ffynhonnell bwysig o sicrwydd ynghylch trefniadau sefydliad mewn perthynas â rheoli risg ac mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn galw ar y Pwyllgor i oruchwylio polisi rheoli risg y Cyngor a sut mae'r cael ei roi ar waith yn ymarferol. Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau'r Pwyllgor ar newidiadau i'r gofrestr risg strategol ers yr adroddiad iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ddiwethaf yn Chwefror 2023. | | | |

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1. Mae'r polisi rholi risg y Cyngor yn nodi bod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfrifoldeb am adolygu priodoldeb y prosesau risg a sicrwydd sydd ar waith.
- 1.2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hefyd yn rhoi cyfrifoldebau iddo i geisio sicrwydd ynghylch trefniadau rheoli risg. Yn benodol, mae ganddo gyfrifoldeb i oruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg y Cyngor, a'u gweithredu'n ymarferol. Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau'r Pwyllgor ar newidiadau i'r gofrestr risg strategol ers yr adroddiad iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ddiwethaf yn Chwefror 2023.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y newid mewn perthynas â rheoli risg yn arbennig y gofrestr risg strategol, ac yn cymryd sicrwydd bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod ac yn rheoli'r risgiau i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.



Diweddariad Cofrestr Risg Strategol

Rhagfyr 2023

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS, Pennaeth Archwilio a Risg

Julie Jones, Rheolwr Risg ac Yswiriant



Cynnwys

| | |
|--|----|
| Cyflwyniad _____ | 3 |
| Cofrestr Risg Strategol _____ | 4 |
| Newid i'r Risgiau Strategol _____ | 5 |
| Prif Risgiau Strategol _____ | 7 |
| Atodiad A - Crynodeb o Risgiau (Map Gwres) _____ | 8 |
| Sgôr Risg Cynhenid _____ | 8 |
| Sgôr Risg Gweddilliol _____ | 8 |
| Atodiad B - Matrics Asesu Risg _____ | 9 |
| Atodiad C - Cofrestr Risg Strategol _____ | 10 |

Cyflwyniad

1. Mae polisi rheoli risg y Cyngor yn nodi bod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyfrifoldeb am adolygu priodoldeb y prosesau rheoli risg a sicrwydd sydd ar waith.
2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hefyd yn rhoi cyfrifoldebau iddo i geisio sicrwydd ynghylch trefniadau rheoli risg. Yn benodol, mae ganddo gyfrifoldeb i oruchwyllo polisi a strategaeth rheoli risg y Cyngor, a'u gweithredu'n ymarferol.
3. Yn Chwefror 2023, cyflwynwyd adroddiad ar y gofrestr risg strategol i'r Pwyllgor hwn ac mae'r adroddiad hwn yn diweddarar'r Pwyllgor ar newidiadau i'r gofrestr risg strategol ers yr adroddiad hwnnw.

Cofrestr Risg Strategol

4. Pwrpas y Gofrestr Risg Strategol yw cofnodi'r risgiau a all effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni Cynllun y Cyngor, gan nodi pa fesurau sydd eisoes mewn lle i reoli'r risgiau hynny a pa weithredoedd eraill sydd ar y gweill i leihau'r posibilrwydd o'r risgiau hynny ddigwydd neu'r effaith maent yn debygol o gael pe baent yn digwydd.
5. Gan fod Cynllun y Cyngor newydd yn ei le, bu'r Tîm Arweinyddiaeth gynnal adolygiad o'r gofrestr risg strategol yn ei chyfanrwydd ym mis Gorffennaf 2023, er mwyn sicrhau bod y gofrestr risg strategol yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r risgiau i amcanion strategol y Cyngor.
6. Yn yr un cyfnod, cafodd y sustem sy'n dal y cofrestrau risg (4risk) ei uwchraddio. Ymysg y gwelliannau yw'r gallu i nodi be sy'n debygol o achosi i bob risg ddigwydd â'r effaith pe baent yn digwydd cael eu nodi ar wahân, a meysydd i ddal mwy o fanylder. Mae hefyd newid i'r dull mae'r risgiau yn cael ei sgorio i rifau yn unig, gyda'r risg uchaf bellaf yn 25 yn hytrach na A1.

Mae [Atodiad A](#) yn rhoi crynodeb o'r risgiau strategol (map gwres), sy'n manylu ar nifer y risgiau cynhenid a gweddilliol.

Mae [Atodiad B](#) yn manylu ar y matrices asesu risg sef sail sut mae'r sgorau risg a gynhwysir yn y gofrestr risg yn cael eu penderfynu.

Mae'r gofrestr risg strategol manwl i'w gweld yn [Atodiad C](#).

7. Er hwylustod, disgrifir y termau canlynol fel a ganlyn:
 - **Risg:** effaith ansicrwydd ar amcanion
 - **Rheoli Risg:** gweithgareddau wedi eu cydlyni i roi cyfeiriad i, a rheoli sefydliad o ran risg
 - **Risg Cynhenid:** y sefyllfa waethaf posib lle nad oes rheolaethau effeithiol ar waith neu'r rhai sydd i gyd yn methu
 - **Risg Gweddilliol:** y sefyllfa bresennol
 - **Risg Targed:** y sefyllfa sy'n cael ei ragweld unwaith y bydd yr holl gamau gweithredu a nodwyd wedi'u cwblhau

Newid i'r Risgiau Strategol

8. Ers i'r gofrestr risg strategol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ddiwethaf, mae diffiniad y risgiau canlynol wedi newid. Mae'r tabl isod yn nodi'r diffiniad gwreiddiol, y diffiniad newydd, a'r rheswm am y newid.

| Cyf. Risg | Diffiniad Gwreiddiol | Diffiniad Newydd | Rheswm |
|-----------|--|---|---|
| YM1 | Y risg y byddai gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi ar wasanaethau statudol, blaenoriaethau ddim yn cael eu cyflawni, a phwysau staffio cynyddol | Y risg y byddai gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi ar wasanaethau statudol | Cydnabyddiaeth mai effeithiau yw "blaenoriaethau ddim yn cael eu cyflawni, a phwysau staffio cynyddol". |
| YM5 | Y risg bod ysgolion yr Ynys ddim yn addas i gwrdd â heriau addysgol y dyfodol a bod hyn yn effeithio ar safonau | Y risg o fethu gweithredu newidiadau cenedlaethol i'r gyfundrefn addysg a chwrrd â heriau addysgol y dyfodol | Roedd y risg wreiddiol yn awgrymu bod y risg yn cyfeirio at adeiladau ysgol, yn hytrach na'r addysg oedd yn cael ei ddarparu. |
| YM7 | Y risg bod newid sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau effeithiol a fforddiadwy | Y risg bod y Cyngor ddim digon gwydn i allu darparu gwasanaethau yn sgil newidiadau allanol | Gallu'r Cyngor i ymateb i'r ffactorau allanol yw'r risg yn hytrach na'r ffactorau allanol eu hunain. |
| YM8 | Y risg bod y duedd i bobl iau adael tra bod pobl hyn yn symud i'r ynys yn parhau neu'n cyflymu, a bod hynny'n effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau addas a dwyieithogrwydd cymunedau | Y risg bod newid yn nemograffeg yr Ynys yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau addas a dwyieithogrwydd cymunedau | Cydnabod bod ffactorau eraill yn medru effeithio ar ddemograffeg yr Ynys. |
| YM13 | Y risg na all y Cyngor addasu i fod yn Awdurdod carbon niwtral erbyn 2030 | Y risg bod newid hinsawdd yn effeithio ar yr Ynys a bod y Cyngor ddim yn fudiad sero net erbyn 2030 | Cydnabod bod effeithiau newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar ddarparu gwasanaethau |
| YM14 | Y risg na fydd asedau ffisegol yr Ynys (e.e. adeiladau, ffyrdd, rhwydwaith TG) yn addas at y diben, nac yn cwrdd ag anghenion trigolion, busnesau ac ymwelwyr | Y risg na fydd asedau ffisegol y Cyngor yn addas nac yn cwrdd ag anghenion trigolion, busnesau, ac ymwelwyr i'r dyfodol | Cydnabod mai'r risg yw'r Cyngor yw asedau'r Cyngor ac nid holl asedau'r Ynys. |

9. Yn ogystal bu risg YM4: *Y risg bod ymosodiad seibr yn cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a chefnogol ac arwain at ddirwy sylweddol gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ei gau a'i gynnwys fel rhan o YM3: Y risg bod methiant TG yn amharu yn sylweddol ar ddarparu gwasanaethau . Mae hyn oherwydd bod ymosodiad seibr yn cael ei ystyried fel un peth a all achosi i TG fethu.*
10. Mae dau risg newydd wedi eu hychwanegu i'r gofrestr risg strategol, sef YM15: *Y risg bod trefniadau cyd-weithio a partneriaethol craidd y Cyngor ddim digon cadarn neu eu bod yn torri lawr, a YM16: Y risg bod diffyg adnoddau i ddiweddarau prosesau busnes yn amharu a'r gallu'r Cyngor i foderneiddio, oherwydd y ffocws amlwg sydd ar gyd-weithio a moderneiddio yng Nghynllun y Cyngor.*
11. O ran lefel y risgiau, dim ond un newid sydd, a hynny i risg YM1: *Y risg y byddai gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi ar wasanaethau statudol. Oherwydd y sefyllfa economaidd a'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r sector gyhoeddus, mae tebygolrwydd y risg wedi cynyddu o "Tebygol" i "Bron yn Sicr" ar lefel cynhenid a gweddilliol.*

Prif Risgiau Strategol

12. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi adnabod prif risgiau (coch / tyngedfennol) strategol gweddilliol y Cyngor fel:

- YM1: Y risg y byddai gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi ar wasanaethau statudol. (20)
- YM2: Y risg bod y Cyngor methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu fod y strwythur staffio ddim yn addas. (16)
- YM3: Y risg bod methiant TG yn amharu yn sylweddol ar ddarparu gwasanaethau. (16)
- YM5: Y risg o fethu gweithredu newidiadau cenedlaethol i'r gyfundrefn addysg a chwrrd â heriau addysgol y dyfodol (16)
- YM 9: Y risg bod diffyg tai addas gall trigolion lleol eu fforddio yn eu cymunedau. (20)
- YM11: Y risg bod cynnydd mewn tlodi yn cynyddu'r galw ar wasanaethau'r Cyngor. (20)
- YM14: Y risg na fydd asedau ffisegol y Cyngor yn addas nac yn cwrdd ag anghenion trigolion, busnesau, ac ymwelwyr i'r dyfodol. (16)

Atodiad A – Crynodeb o Risgiau (Map Gwres)

Sgôr Risg Cynhenid

| | | | | | | |
|--------------|---|-------|--------|----------|-----------|-------------|
| Bron yn Sicr | A | | | 1 | 5 | 3 |
| Tebygol | B | | | | 3 | 1 |
| Posib | C | | | | | 1 |
| Annhebygol | D | | | | | |
| Prin | E | | | | | |
| | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | Dinod | Bychan | Cymedrol | Sylweddol | Trychinebus |

Sgôr Risg Gweddilliol

| | | | | | | |
|--------------|---|-------|--------|----------|-----------|-------------|
| Bron yn Sicr | A | | | | 3 | |
| Tebygol | B | | | 3 | 4 | |
| Posib | C | | | 2 | 1 | |
| Annhebygol | D | | | | 1 | |
| Prin | E | | | | | |
| | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | Dinod | Bychan | Cymedrol | Sylweddol | Trychinebus |

Atodiad B – Matrics Asesu Risg

| TEBYGOLRWYDD | O fewn y 3 mis nesaf | Bron yn sicr | 5 | | | | | |
|--------------------|--|--|--|--|--|------|-----------|--|
| | O fewn y 12 mis nesaf | Tebygol | 4 | | | | | |
| | O fewn y 2 flynedd nesaf | Posibl | 3 | | | | | |
| | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Annhebygol | 2 | | | | | |
| | Ddim o fewn y nesaf 25 mlynedd | Prin | 1 | | | | | |
| MÂN | CYMEDROL | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| MAWR | CRITIGOL | | Ansylweddol | Bychan | Cymedrol | Mawr | Sylweddol | |
| Amcanion | Mân oedi cyn cyflawni amcanion | Gostyngiad yng nghwmpas neu ansawdd amcan eilaidd | Mae gostyngiad mewn cwmpas neu ansawdd prif amcan neu gyflawniad amcan eilaidd yn cael ei ohirio'n sylweddol | Cyflawni prif amcan yn cael ei ohirio'n sylweddol neu ni ellir bodloni amcan eilaidd | Ni ellir bodloni prif amcan | | | |
| Enw da | Pryder y cyhoedd wedi'i gyfyngu i gwynion lleol | Ychydig o sylw negyddol lleol / cyhoeddus yn y cyfryngau | Sylw negyddol sylweddol yn lleol neu ychydig yn negyddol yn rhanbarthol neu genedlaethol yn y cyfryngau | Beirniadaeth ranbarthol neu genedlaethol negyddol ddirifol | Condemniad rhanbarthol a chenedlaethol hir | | | |
| Cost ariannol | <£100k | £100k - £500k | £500k - £2m | £2m - £5m | >£5m | | | |
| Iechyd a Diogelwch | Damwain fu bron digwydd neu fân anaf ddim angen unrhyw driniaeth feddygol broffesiynol | Mân anaf angen triniaeth feddygol broffesiynol | Anaf dirifol | Anaf sy'n newid bywyd | Marwolaeth | | | |
| Diogelu | Dim effaith diogelu | Un achos o ddiffyg cydymffurfio â gweithdrefnau | Parhau i beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau | Un achos o ddiogelu | Digwyddiadau diogelu lluosog a chysylltiedig | | | |
| Rheoleiddio | Dim effaith rheoleiddio | Digwyddiad adroddadwy i'r rheoleiddiwr, dim angen dilyn i fyny | Adrodd am dorri rheoliadau i reoleiddiwr sy'n gofyn am gamau unioni ar unwaith | Cosb gan reoleiddiwr sy'n arwain at ddirwyon neu ymyrraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael prosiect i unioni'r sefyllfa | Cosb gan reoleiddiwr sy'n arwain at ddirwyon sylweddol ac/neu ymyrraeth ar raddfa fawr | | | |
| Amgylcheddol | Mân effaith tymor byr | Effaith tymor byr nad oes angen fawr o adnoddau i'w datrys | Effaith tymor byr sy'n gofyn am adnoddau sylweddol i'w datrys | Effaith tymor byr dirifol neu ryw effaith hirdymor | Effaith ddirifol a hirdymor | | | |

EFFAITH

Atodiad C – Cofrestr Risg Strategol

Gwelir atodiad

| | Risg | Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd) | Mesurau Rheoli | Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd) | Gweithredoedd | | | Targed (Effaith x Tebygolrwydd) |
|--------|--|---|--|--|--|------------------------------|--------------------------------|---------------------------------------|
| | | | | | Gweithred | Perchennog | Erbyn | |
| YM0001 | <p>Risg: Y risg y byddai gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi ar wasanaethau statudol</p> <p>Achos: Cyfraddau chwyddiant yn codi Setliad gan LIC yn is na chwyddiant Cyflogau yn codi yn uwch na'r disgwyl Costau ynni yn codi yn uwch na'r disgwyl Grantiau yn cael eu torri neu'n dod i ben Incwm yn lleihau</p> <p>Effaith: Blaenoriaethau ddim yn cael eu cyflawni Buddsoddiadau ddim yn cael eu gwneud Pwysau staffio yn cynyddu Gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor Gwasanaethau yn cael eu torri - darpariaeth ac ansawdd Diswyddo staff neu rewi swyddi gwag Methu moderneiddio</p> <p>Perchennog y Risg: Marc Jones</p> | Allweddol (5:5=25) | <p>Balansau o dros 5% o'r gyllideb flynyddol yn cael ei gadw wrth gefn</p> <p>Cydweithio gyda WLGA o ran sicrhau bod rhanddeiliad yn ymwybodol o'r bygythiadau i wasanaethau</p> <p>Fel rhan o gyllideb 2022/23 cafodd cyllideb ddangosol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 hefyd eu gosod a bydd hyn yn help o ran cynllunio ymlaen</p> <p>Prosesau i fonitro cyllidebau mewn lle ac yn adnabod yn fuan os oes angen gwneud arbedion neu gynllunio am ostyngiad mewn gwasanaethau</p> <p>MTFP – wedi diweddarau ar gyfer 24/25 a 25/26 ac wedi adrodd i'r Aelodau fel rhan o'r proses gosod cyllideb 23/24.</p> | Allweddol (4:5=20) | <p>Cyfarfod gyda'r holl Aelodau i drafod y sefyllfa ariannol a'r cynigion arbedion</p> <p>Adolygu darpariaeth statudol</p> | Marc Jones Marc Jones | 30 Nov 2023 31 Mar 2024 | Allweddol (4:4=16) |
| YM0002 | <p>Risg: Y risg bod y Cyngor methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu fod y strwythur staffio ddim yn addas</p> <p>Achos: Cyflogau Lleoliad daearyddol Anghenion iaith Swyddi sydd angen sgiliau arbenigol Diddordeb mewn rhai meysydd gwaith yn isel Unigolion yn cyrraedd oed ymddeol neu'n awyddus i ymddeol yn fuan</p> <p>Effaith: Costau ychwanegol. Cwynion. Gwasanaeth ddim yn cael ei ddarparu neu i safon is. Effaith ar flaenoriaethau. Effaith andwyol ar lesiant staff. Mwy o absenoldeb salwch. Diswyddiadau. Pwynt unigol o fethiant. Gweithlu llai effeithlon.</p> <p>Perchennog y Risg: Dylan Williams</p> | Allweddol (4:5=20) | <p>Trefn wedi sefydlu o ran recriwtio sydd yn rhan o fusnes arferol yr uned Adnoddau Dynol.</p> <p>Risgiau staffio cychwynnol Gwasanaethau wedi eu hadnabod</p> <p>Cefnogaeth llesiant ac iechyd meddwl ar gael i'r unigolion hynny sydd angen cefnogaeth</p> <p>Gweithio gyda cholegau / addysg bellach yn lleol i ddatblygu a hybu'r gweithlu Gofal</p> <p>Rhaglenni i ddatblygu rheolwyr ar draws y Cyngor</p> <p>Cynlluniau i ddenu gweithwyr newydd i'r Cyngor e.e. Hyfforddai Proffesiynol</p> <p>Mae dull cyson a rhagweithiol ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth i gynllunio'r gweithlu</p> <p>Trefniadau gweithio hyblyg</p> | Allweddol (4:4=16) | Ymestyn gwaith sy'n cael ei wneud gyda cholegau / addysg bellach yn lleol yn y maes Gofal i feysydd eraill | Carys Edwards | 31 Aug 2024 | |

| Cyf | Risg | Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd) | Mesurau Rheoli | Gweddillio (Effaith x Tebygolrwydd) | Gweithredoedd | | | Targed (Effaith x Tebygolrwydd) |
|--------|--|-----------------------------------|---|-------------------------------------|---|----------------|-------------|---------------------------------|
| | | | | | Gweithred | Perchennog | Erbyn | |
| YM0003 | <p>Risg: Y risg bod methiant TG yn amharu yn sylweddol ar ddarparu gwasanaethau</p> <p>Achos: Oed cyfarpar TG Difrod i gyfarpar Rhwydwaith trydanol neu we ddim ar gael Datblygiadau technegol (e.e. uwchraddio sustem) ddim yn gweithio Ymosodiad seibr Diffyg diogeldd TG Defnyddwyr (staff) yn agor e-byst sydd wedi heintio Offer TG y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i bwrpas personol</p> <p>Effaith: Cynnydd yn llwyth gwaith staff TG Methu darparu gwasanaethau Swyddogion methu gweithio Gweithwyr methu cael mynediad i ddogfennau / systemau Cwsmeriaid methu cael mynediad i wasanaethau Oedi Costau trwsio ychwanegol Difrod i enw da Data sensitif yn cael ei ddwyn / ddatgelu yn arwain at adrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth Colli mynediad i ddata yn dilyn llygru data gan Ransomware Colled ariannol (yn arbennig os ydym ni'n gorfod talu pridwerth) Cael ein digysylltu o rwydweithiau partneriaid fel PSN, a bydd hynny'n cael effaith ar hel cymhorthdal budd-daliadau Dirwy a all fod yn sylweddol gan y Comisiynydd Gwybodaeth</p> <p>Perchennog y Risg: Dylan Williams</p> | Allweddol (5:5=25) | <p>Cyfes o becynnau meddalwedd a gweithdrefnau i leihau'r risg o ymosodiad seibr yn erbyn y Cyngor</p> <p>Trefniadau mewn lle i ymateb i ddigwyddiad / adroddiad o ddigwyddiad posib</p> <p>Cydweithio, arfer dda a hyfforddiant</p> <p>Technoleg a phensaernïaeth systemau</p> <p>Capasiti ac Arbenigedd Technegol</p> <p>Diwydrwydd dyladwy (due diligence)</p> <p>Cynlluniau parhad busnes a threfniadau argyfwng mewn lle</p> | Allweddol (4:4=16) | Hybu gwasanaethau i symud systemau i'r cwmwl er mwyn cryfhau gwydnwch a dileu'r angen am ail ganolfan ddata | Mathew Henshaw | 31 Mar 2024 | |
| | | | | | Creu "clusters" ar gwaith cysylltiedig i symud systemau i'w defnyddio | Mathew Henshaw | 30 Apr 2024 | |
| | | | | | Darparu mecanwaith i sicrhau bod polisiau'n cael eu derbyn yn amserol a bod oblygiadau o beidio eu derbyn | Carys Edwards | 31 Mar 2024 | |
| | | | | | Gwella diogeldd TG yn yr ysgolion. | Mathew Henshaw | 31 Aug 2024 | |
| | | | | | Cwblhau symud i InTune | Mathew Henshaw | 31 Dec 2023 | |
| | | | | | Darparu hyfforddiant sgiliau digidol addas i staff sydd gyda mynediad i systemau digidol y Cyngor, gan gynnwys diogeldd seibr | Hyfforddiant | 31 Mar 2024 | |
| | | | | | Archebu gwasanaeth i brofi gwe-rwydo (phishing) newydd | Mathew Henshaw | 30 Nov 2023 | |
| | | | | | Diweddarau'r cynllun adfer TG | Mathew Henshaw | 29 Feb 2024 | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| YM0005 | <p>Risg: Y risg o fethu gweithredu newidiadau cenedlaethol i'r gyfundrefn addysg a chwrrd â heriau addysgol y dyfodol</p> <p>Achos: Diffyg capasiti. Heriau cyllidol. Cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno. Arholiadau newydd i gael eu cyflwyno. Oblygiadau i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn newid. Oblygiadau newydd o ran yr iaith Gymraeg yn cael eu cyflwyno. Datblygiadau cyson yn digwydd o ran dysgu'n ddigidol. Materion annisgwyl yn codi - e.e. RAAC Staff profiadol yn gadael.</p> <p>Effaith: Anghenion disgyblion ddim yn cael eu cwrrd. Safonau dysgu ddim yn codi. Plant a phobl ifanc ddim yn cyflawni eu potential llawn. Effaith negyddol ar lesiant plant, pobl ifanc a staff. Effaith ar ymddygiad. Effaith ar bresenoldeb. Atebolrwydd am blant bregus. Costau ychwanegol. Difrod i enw da.</p> <p>Perchennog y Risg: Marc Hughes</p> | Allweddol (4:5=20) | <p>Safonau addysgol yn cael eu monitro</p> <p>Bwrdd Ansawdd Safonau mewn lle</p> <p>Sianeli cyfathrebu wedi eu sefydlu.</p> <p>Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg wedi ei fabwysiadu.</p> <p>Mae'r Cyngor yn ymateb i'r fframwaith atebolrwydd(?)</p> <p>Bwrdd Cefnogaeth Aml Asiantaethol</p> <p>Arlywy cefnogaeth i ysgolion</p> | Allweddol (4:4=16) | Adolygu'r rhaglen moderneiddio | Marc Hughes | 31 Mar 2024 | |
| | | | | | Gwireddu'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg | Marc Hughes | 31 Mar 2023 | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |

| Cyf | Risg | Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd) | Mesurau Rheoli | Gweddillioi (Effaith x Tebygolrwydd) | Gweithredoedd | | | Targed (Effaith x Tebygolrwydd) |
|--------|---|-----------------------------------|---|--------------------------------------|---|--|---|---------------------------------|
| | | | | | Gweithred | Perchennog | Erbyn | |
| YM0007 | <p>Risg: Y risg bod y Cyngor ddim digon gwydn i allu darparu gwasanaethau yn sgil newidiadau allanol</p> <p>Achos: Pandemic. Chwyddiant. Brexit. Argyfwng costau byw. Rhyfel. Ffactorau economaidd. Ffactorau gwleidyddol. Tywydd eithafol. Pontydd yn cau. Problemau cadwyn gyflenwi. Argyfwng iechyd anifeiliaid. Argyfwng amgylcheddol.</p> <p>Effaith Costau uwch. Oedi. Mwy o gwynion. Dyletswyddi statudol ddim yn cael eu cyflawni. Dadleoli staff. Dyletswyddi ychwanegol heb sicrwydd o adnoddau ychwanegol. Gwahaniaeth rhwng y galw am a medru darparu gwasanaeth.</p> <p>Perchennog y Risg: Rhys Hughes</p> | Allweddol (4:4=16) | <p>Dilyn cyfarwyddiadau sy'n cael eu gosod i'r sectorau cyhoeddus o ran rheoli cyllidebau</p> <p>Prosesau caffael a monitro contractau mewn lle</p> <p>Cyllidebau yn cael eu gosod a'u rheoli yn dyn er mwyn sicrhau arian wrth gefn i ddelio gydag argyfwng</p> <p>Monitro o'r hyn sy'n digwydd mewn sectorau perthnasol o'r economi (e.e. adeiladu) a threfn o uwch gyfeirio pryderon yn Gweithio gyda LIC a Llywodraeth y DU</p> <p>Cynlluniau parhad busnes a threfniadau argyfwng mewn lle</p> <p>Perfformiad yn cael ei fonitro</p> <p>Strwythurau'r Cyngor yn gweithio'n effeithlon ac yn addasu'n hyblyg mewn argyfwng.</p> <p>Sefyllfa sefydlog yn wleidyddol ac arweinyddiaeth strategol</p> | Sylweddol (3:4=12) | Sicrhau bod trefn i asesu'r risgiau sydd ar y gorwel yn cael ei gynnal yn flynyddol | Julie Jones | 31 Dec 2023 | Sylweddol (3:4=12) |
| YM0008 | <p>Risg: Y risg bod newid yn nemograffeg yr Ynys yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau addas a dwyieithogrwydd cymunedau</p> <p>Achos: Pobl ifanc yn symud o'r Ynys Pobl hŷn yn symud i'r Ynys Cyfleon gwaith a chyflogau Prisiau ac argaeledd tai Pobl yn symud i'r Ynys oherwydd y ddarpariaeth sydd ar gael Mewnfudo</p> <p>Effaith: Llai o alw am lefydd ysgol Mwy o alw am ofal Effaith ar y nifer sy'n siarad Cymraeg Gweithlu lleol yn lleihau o ran nifer Effaith ar allu'r Cyngor i greu incwm</p> <p>Perchennog y Risg: Dylan Williams</p> | Sylweddol (3:5=15) | <p>Rhaglen Hyfforddai'r Cyngor yn rhoi cyfle i bobl leol ddatblygu sgiliau a chymhwysio mewn meysydd gwaith sy'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor</p> <p>Monitro o ystadegau UC a diweithdra</p> <p>Adnoddau Dynol yn hyrwyddo cyfleon gwaith gyda'r Cyngor o fewn ysgolion, colegau a'r bwrdd iechyd.</p> <p>Gwaith parhaol yn adolygu'r galw am ofal (oedolion)</p> <p>Data lleol o'r cyfrifiad cenedlaethol diwethaf wedi ei ddadansoddi ac yn cael ei ddefnyddio wrth lunio Cynllun y Cyngor a chynlluniau strategol eraill.</p> <p>Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg wedi ei fabwysiadu.</p> <p>Rhaglen waith Datblygu Economaidd yn hyrwyddo'r Ynys a chreu cyfleon gwaith / busnes i bobl ifanc</p> <p>Gwaith ar y cyd gyda mudiadau eraill i geisio datblygu economi Gogledd Cymru</p> | Sylweddol (3:4=12) | <p>Adolygu effaith mae'r premiwm treth Cyngor yn ei gael</p> <p>Ceisio dylanwadu ar yr economi i greu cyfleon gwaith sy'n ddeniadol i bobl ifanc</p> <p>Datblygu sut mae'r Cyngor yn hel a dadansoddi data, a'r defnydd o ddata fel sail i wneud penderfyniadau</p> | Marc Jones Christian Branch Dylan Williams | 31 Dec 2023 31 Mar 2027 31 Dec 2024 | Sylweddol (3:4=12) |

| Cyf | Risg | Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd) | Mesurau Rheoli | Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd) | Gweithredoedd | | | Targed (Effaith x Tebygolrwydd) |
|--------|---|-----------------------------------|---|--------------------------------------|---|-------------|-------------|---------------------------------|
| | | | | | Gweithred | Perchennog | Erbyn | |
| YM0009 | <p>Risg: Y risg bod diffyg tai addas gall trigolion lleol eu fforddio yn eu cymunedau</p> <p>Achos: Prisiau tai a rhenti Maint y stoc tai Cyflwr y stoc tai Newid ym maint y boblogaeth Pris adeiladu tai</p> <p>Effaith: Pobl yn gadael eu cymunedau ac effaith hynny ar yr economi leol, eu teulu a'r iaith gymraeg Mwy o ail-dai sy'n wag am ganrhan o'r flwyddyn Mwy o alw am dai Cyngor (cymdeithasol) Mwy o digartrefedd Newid yn y demograffeg lleol ac effaith hyn ar alw am wasanaethau cyhoeddus</p> <p>Perchennog y Risg: Marc Jones</p> | Allweddol (4:5=20) | <p>Gwaith parhaol yn adolygu y galw am ofal (oedolion)</p> <p>CSYM a chynghorau eraill wedi rhoi pwysa ar LIC i ymyrryd yn y farchnad dai a LIC wedi ymateb drwy roi pwerau newydd i Gynghorau</p> <p>Arian DHP yn cael ei ddefnyddio i geisio arbed digartrefedd</p> <p>HRA - tai cymdeithasol newydd yn cael ei ddatblygu</p> <p>Mae'r Cyngor a mudiadau tai cymdeithasol eraill yn gweithio gyda adeiladwyr lleol i gynyddu'r stoc dai cymdeithasol.</p> <p>Premiwm ail dai wedi codi i 75% ar gyfer 2023/2024 ac yn creu tua £1.5m o incwm sy'n ariannu prosiectau i helpu trigolion lleol gael tŷ.</p> <p>Premiwm y Dreth Cyngor ar ail dai i geisio lleihau'r nifer o ail-dai</p> | Allweddol (4:5=20) | <p>Cynnal dadansoddiad o'r farchnad dai lleol</p> <p>Cytuno strategaeth o ddefnydd y Cyngor o'r pwerau ychwanegol mae LIC wedi eu cyhoeddi mewn perthynas a'r farchnad dai</p> <p>Paratoi'r Strategaeth Tai ar gyfer 2025 ymlaen.</p> <p>Cwblhau a gweithredu'r Strategaeth Tai</p> <p>Gwireddu bwriad y Pwyllgor Gwaith i gynyddu'r premiwm yn raddol ac i 100% erbyn 2024 a sicrhau bod y rhan helaeth o'r incwm ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau i helpu pobl leol i brynu cartrefi eu hunain ac i hyrwyddo'r economi leol</p> <p>Gweithredu cynlluniau i adeiladu tai fforddiadwy a "shared equity"</p> <p>Adolygu effaith mae'r premiwm treth Cyngor yn ei gael</p> <p>Cyflwyno allbwn y dadansoddiad o'r farchnad dai lleol i LIC er mwyn ceisio dylanwadu ar bolisiau yn ymwneud ag ymyryd yn y farchnad dai / ail-gartrefi</p> | Ned Michael | 31 Mar 2024 | Allweddol (4:5=20) |
| YM0010 | <p>Risg: Y risg bod gwall diogelu difrifol yn arwain neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus mae'r Cyngor yn gyfrifol dros</p> <p>Achos: Llwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol. Profiad a chymwysterau gweithwyr cymdeithasol. Trefniadau monitro. Trefniadau cyd-weithio rhwng asiantaethau. Profiad a chymhwyster staff ysgolion, ieuencid a blynyddoedd cynnar. Gweithlu ansefydlog</p> <p>Effaith: Unigolion yn dioddef. Marwolaeth unigolyn. Effaith ar iechyd a llesiant staff. Difrod i enw da. Ymddiried yn y Cyngor yn cael ei golli. Achos cyfreithiol ac / neu gais am iawndal.</p> <p>Perchennog y Risg: Fon Roberts</p> | Allweddol (5:4=20) | <p>Fframweithiau Ansawdd Ymarfer yn eu lle sy'n cynnwys rôl y swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol</p> <p>Goruchwyliaeth o staff</p> <p>Gweithdrefn i gefnogi staff sydd yn delio gydag unigolion neu sefyllfaoedd heriol / trawmatig</p> <p>Gweithio amlasiantaethol</p> <p>Adrodd rheolaidd i'r Bwrdd Diogelu a Bwrdd Rhanbarthol</p> <p>Cydymffurfio â'r gweithdrefnau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol</p> <p>Hyfforddi staff</p> <p>Strategaeth Gweithlu mewn lle</p> <p>Adolygiad allanol gan CIW</p> <p>Cynllun Gweithredu mewn lle sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd</p> | Sylweddol (4:2=8) | <p>Sicrhau bod cyllideb ac adnoddau addas yn parhau i gadw'r lefel o wasanaeth a chadw i fyny gyda'r galw cynyddol ar Wasanaethau Cymdeithasol</p> <p>Adolygu darpariaeth statudol</p> | Fon Roberts | 29 Feb 2024 | Sylweddol (4:2=8) |

| Cyf | Risg | Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd) | Mesurau Rheoli | Gweddillioi (Effaith x Tebygolrwydd) | Gweithredoedd | | | Targed (Effaith x Tebygolrwydd) |
|--------|--|---|---|--|--|--------------|-------------|---------------------------------------|
